# Cwestiynau Ysgrifenedig a atebwyd rhwng 18 Ionawr a 1 Chwefror 2007

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon

10 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau

14 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

28 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad

29 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid

33 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

44 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

**Carl Sargeant:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gyflawni polisïau allweddol Llywodraeth Cynulliad Cymru yn Alun a Dyfrdwy? (WAQ49041)

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Mae polisïau allweddol Llywodraeth y Cynulliad wedi cael nifer o effeithiau positif yn Alun a Glannau Dyfrdwy. Maent yn cynnwys:

- ym mis Mehefin 2006 cyhoeddodd Llywodraeth y Cynulliad £1.4 miliwn o gyllid ychwanegol i wella mynediad at ddeintyddiaeth GIG yn sir y Fflint ac ar draws y byrddau iechyd lleol eraill yn rhanbarthau'r Gogledd. Bydd y buddsoddiad ychwanegol, sy'n rhan o'r buddsoddiad ychwanegol o £30 miliwn ychwanegol ar draws Cymru a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2006, yn cael ei dargedu at ardaloedd lle mae diffyg darpariaeth i ganiatáu i BILlau gomisiynu rhagor o wasanaethau deintyddol GIG;
- cafodd Bwrdd Iechyd Lleol Sir y Fflint £900,000 o gyllid gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i helpu i leihau anghydraddoldebau iechyd. Yr oedd yn rhan o becyn £10.1 miliwn a gyhoeddwyd yn 2002;
- mae £3,780,087.25 o gyllid Cymunedau yn Gyntaf wedi cael ei ddyfarnu i gefnogi datblygiad y rhaglen yn ardal sir y Fflint;
- datblygu strategaeth drafnidiaeth integredig Glannau Dyfrdwy am gost o oddeutu £5.6 miliwn gyda dyraniad grant trafnidiaeth o ychydig llai na £5 miliwn. Y ffigur ar gyfer 2006-07 yw £0.260 miliwn;
- agorodd cynllun gwella'r A550/A494 Parc Glannau Dyfrdwy i Drome Corner ym mis Tachwedd 2004 ac mae wedi cynyddu diogelwch y rhwydwaith cefnffyrdd a'i gapasiti gerllaw parth datblygu Glannau Dyfrdwy. Mae hefyd wedi gwella'r amgylchedd i drigolion lleol, defnyddwyr di-fodur a mynediad at eiddo sy'n ffinio â'r gefnffordd;
- mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cymeradwyo cais cyfalaf £1.5 miliwn Coleg Glannau Dyfrdwy i'w gynorthwyo i ddatblygu ei ganolfan sgiliau adeiladu arfaethedig, a fydd yn darparu cyfleusterau hyblyg modern i ddiwallu anghenion a blaenoriaethau cydnabyddedig dysgwyr a chyflogwyr.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon

**William Graham:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael ynghylch atal cefnogwyr tîm pêl-droed Dinas Caerdydd rhag mynd i'r gêm yn erbyn Wolverhampton Wanderers ar 20 Ionawr 2007? (WAQ48916)

**Y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon (Alun Pugh):** Nid wyf wedi cael unrhyw drafodaethau am y mater hwn.

Yr wyf fodd bynnag wedi ysgrifennu at Glwb Pêl-droed Wolverhampton Wanderers yn gofyn iddo ailystyried ei benderfyniad i wahardd holl gefnogwyr Dinas Caerdydd rhag mynd i'r gêm.

**William Graham:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu cyfraniad Llywodraeth Cynulliad Cymru i 'Amffitheatrau Rhufeinig a Spectacula: Cynhadledd ryngwladol o safbwynt yr 21ain ganrif? (WAQ48917)

**Alun Pugh:** Mae'r gynhadledd hon yng Nghaer wedi cael ei threfnu gan English Heritage ac ni chysylltwyd â Llywodraeth Cynulliad Cymru i ofyn am gyfraniad. Deallaf mai'r bwriad yw gwneud cynadleddau o'r math hwn yn nodwedd weddol reolaidd o galendr yr amgylchedd hanesyddol ac mae potensial felly i Gymru gyfrannu yn y dyfodol os bydd Llywodraeth y Cynulliad o'r farn y byddai hynny'n fanteisiol. Mae de-ddwyrain Cymru yn neilltuol o gyfoethog mewn hanes Rhufeinig ac mae safleoedd hanesyddol yng Nghaerllion, lle gwelir olion nodedig baddonau'r gaer, amffitheatr, barics a muriau'r gaer, ac yng Nghaer-went, lle gwelir olion yr hyn a oedd unwaith yn dref Rufeinig brysur a bywiog, dan ofal Llywodraeth y Cynulliad. Drwy ein gwasanaeth i'r amgylchedd hanesyddol, Cadw, yr

ydym yn gweithio'n ddyfal i hyrwyddo mynediad cyhoeddus a diddordeb y cyhoedd yn yr amgylchedd adeiledig a mis Gorffennaf diwethaf trefnasom sioe Rufeinig yng Nghaerllion i ddathlu hanes yr ardal a phenwythnos o ddigwyddiadau ym mis Tachwedd i ddynodi agor tref Rufeinig Caer-went.

**Mick Bates:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am unrhyw sylwadau y mae wedi'u derbyn ynghylch trosglwyddo i'r drefn ddigidol? (WAQ48918)

**Alun Pugh:** Yr wyf yn cael sylwadau'n rheolaidd ynghylch trosglwyddo i'r drefn ddigidol oddi wrth Aelodau Cynulliad ac aelodau o'r cyhoedd drwy ohebiaeth a chwestiynau Cynulliad.

**Mick Bates:** A wnaiff y Gweinidog ddisgrifio rôl bresennol awdurdodau lleol wrth ddatblygu strategaethau i ddarparu gwahanol gelfyddydau yng nghymunedau Cymru? (WAQ48919)

**Alun Pugh:** Cyflwynwyd adroddiad adolygiad y celfyddydau imi ym mis Tachwedd y llynedd ac fe'i trafodwyd yn y Cyfarfod Llawn ar 6 Rhagfyr. Un argymhelliad yn yr adroddiad yw edrych ar ffyrdd o wneud darpariaeth gelfyddydol yn statudol ar draws Cymru a sefydlu bwrdd strategaeth i'r celfyddydau, a fydd yn helpu i yrru'r celfyddydau ymlaen yng Nghymru. Mae'n awgrymu gwaith pellach i archwilio'r syniad o hawl ddiwylliannol, cydweithio rhwng Cyngor Celfyddydau Cymru ac awdurdodau lleol drwy bartneriaethau rhanbarthol a'r cysyniad o gwmnïau cenedlaethol sydd â chylch gwaith strategol.

Llofnododd cyngor y celfyddydau a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru femorandwm dealltwriaeth yn 2005. Mae'r awdurdodau lleol yn cwrdd yn rheolaidd â phrif swyddogion cyngor y celfyddydau i ddatblygu cynlluniau ar faterion strategaeth ehangach, ef enghraifft Lerpwl 2008, lle mae cyngor y celfyddydau wedi bod yn cyd-drefnu'r prosiect ar ran yr awdurdodau lleol. Mae'r aelodau cabinet a gweithredol sy'n gyfrifol am ddiwylliant ym mhob awdurdod lleol yn aelodau o bwyllgorau rhanbarthol perthnasol cyngor y celfyddydau, a chânt eu cefnogi gan eu prif swyddog.

Mae'r awdurdodau lleol yn bartneriaid cyllido o bwys mewn nifer o leoliadau ar draws Cymru, megis cefnogaeth Sir y Fflint i Clwyd Theatr Cymru. Mae Cyngor Celfyddydau Cymru'n gweithio'n agos gyda'r awdurdodau lleol i sicrhau cynaliadwyedd ariannol a chydbwysedd mewn rhaglenni. Mae timau rhanbarthol cyngor y celfyddydau yn cysylltu'n rheolaidd â swyddogion datblygu celfyddydau yr awdurdodau lleol ar geisiadau, prosiectau a strategaethau, er enghraifft, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Gwynedd a Sir Benfro, sy'n gweithio'n agos gyda swyddogion cyngor y celfyddydau i rannu'r arferion gorau.

Mae cyngor y celfyddydau yn cysylltu â Chymdeithas Genedlaethol Swyddogion Celfyddydau Llywodraeth Leol yn rhanbarthol a chenedlaethol ac yn rhedeg rhaglen fuddsoddi'r awdurdodau lleol, sy'n darparu hyd at £220,000 o gyllid loteri y flwyddyn tuag at swyddi swyddogion datblygu'r celfyddydau. Mae cyngor y celfyddydau a'r awdurdodau lleol yn cydweithredu i ddarparu theatr mewn addysg a theatr i bobl ifanc, er enghraifft, mae Cwmni'r Frân Wen yn cael nawdd gan gynghorau Gwynedd, Ynys Môn a Chonwy. Mae'r awdurdodau lleol yn bartneriaid ariannol hefyd o ran darparu dawns gymunedol yn y Gogledd, gyda phob un o'r chwe sir yn y Gogledd yn cefnogi rhwydwaith dawns drwy swyddog dawns rhan-amser ym mhob sir.

Mae cyngor y celfyddydau a chynghorau Gwynedd, Ynys Môn, Sir Ddinbych a Wrecsam wedi datblygu asiantaethau celfyddydau mewn ysgolion sy'n gweithio i gyd-drefnu'r defnydd o arian loteri i hwyluso prosiectau artistiaid mewn ysgolion. Mae gwasanaeth celfyddydau sirol Sir Ddinbych a chyngor y celfyddydau hefyd wedi datblygu darpariaeth arloesol y celfyddydau ym maes iechyd o fewn Ymddiriedolaeth GIG Conwy a Sir Ddinbych, sydd bellach yn cael ei datblygu ar draws gogledd Cymru'n gyfan gwbl gydag awdurdodau ac ymddiriedolaethau GIG eraill.

Drwy weithio'n agos gyda'i gilydd, mae cyngor y celfyddydau a'r awdurdodau lleol wedi llwyddo i gyrraedd llawer mwy o ysgolion mewn ardaloedd difreintiedig, is eu cymhelliad, maent wedi cynyddu

lledaeniad ffurfiau celfyddydol ac maent wedi datblygu prosiectau mwy cyffrous ac arloesol. Mae cyswllt rheolaidd hefyd rhwng tîm noson allan cyngor y celfyddydau a 21 o'r 22 awdurdod lleol.

**Michael German:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch pa mor hygyrch yw'r celfyddydau yng Nghymru? (WAQ48920)

**Alun Pugh:** Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau celf, pobl anabl a sefydliadau'r anabl i sicrhau bod pobl anabl yng Nghymru yn cael mynediad cydradd at y celfyddydau ni waeth ymhle y maent yn byw.

Cyhoeddodd cyngor y celfyddydau ei strategaeth ar y celfyddydau ac anabledd, 'Symud Ymhellach Ymlaen', yn 2005, a ddatblygwyd mewn partneriaeth â Chelfyddydau Anabledd Cymru. Mae rhaglen gwerth £2 filiwn o ddatblygiadau cyfalaf wedi darparu cefnogaeth wirioneddol i ganolfannau i fynd i'r afael â materion mynediad a oedd yn dal heb gael sylw a helpu i greu nid dim ond cyfleoedd i gymryd rhan ond cyfleoedd cyflogaeth i ragor o bobl anabl ar draws Cymru. Erbyn hyn mae gan lawer o ganolfannau yng Nghymru y cyfarpar angenrheidiol ar gyfer anghenion pobl anabl fel cyfranogwyr a chynulleidfaoedd. Ymysg yr addasiadau i adeiladau a gwasanaethau mae lleoedd i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn, dolenni sain, systemau is-goch a pherfformiadau sy'n cael eu dehongli drwy arwyddion.

Mae cyngor y celfyddydau yn cefnogi datblygiad a thwf diwylliant celfyddydau i bobl anabl yng Nghymru drwy ei strategaeth. Mae'n cefnogi artistiaid anabl newydd sy'n dod i amlygrwydd a mudiadau celfyddydol o dan arweiniad pobl anabl er mwyn creu amgylchedd lle gall pobl anabl hawlio perchenogaeth ar eu celfyddydau a'u diwylliant a chanfod llwyfannau i rannu eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u profiad yng nghyd-destun ehangach y celfyddydau.

Er enghraifft, mae cymorth wedi cael ei ddarparu i ddatblygu gwaith Theatr Ffynnon, yn y Fenni, drwy ddarparu naw grant gwerth mymryn llai na £100,000 dros y saith mlynedd diwethaf i gefnogi gweithgarwch yn cynnwys sesiynau blasu, gweithdai, talu costau cynhyrchu a phrosiectau meithrin gallu.

Mae strategaeth gyfalaf cyngor y celfyddydau yn blaenoriaethu prosiectau sy'n ymateb i ofynion Rhan III o Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995. Mae nifer o ddyfarniadau wedi cael eu gwneud, yn cynnwys dyfarniadau i Ganolfan Gelfyddydau Glannau Gwy (£26,735), Canolfan Gelfyddydau Chapter (£10,000), Ymddiriedolaeth Amgueddfa Tor-faen (£45,000), Cymdeithas Mynychwyr Dramâu Casnewydd (£10,000), Theatr Fach Abertawe (£280,000), a Theatr Twm o'r Nant (£23,900 o gyllid datblygu).

Yn haf 2005, ar ôl cynnal trafodaethau â grŵp arddangoswyr sinemâu Cymru, comisiynodd cyngor y celfyddydau archwiliad o'r cyfleusterau taflunio mewn canolfannau celfyddydau yng Nghymru. Canolbwyntiai'r adroddiad ar y canlynol:

- sgrinio gydag is-deitlau meddal—is-deitlau dewisol i'r rhai sydd â nam ar eu clyw yn cael eu taflunio gan y brif system daflunio neu drwy ail daflunydd data. Mae is-deitlau i'r diben hwn yn aml yn cynnwys deialog a disgrifiadau o synau eraill, yn wahanol i is-deitlau cyfieithu, nad ydynt fel arfer ond yn cynnwys deialog;
- sgrinio gyda disgrifiadau sain—systemau personol i ddarparu disgrifiad sain o'r hyn sy'n digwydd ar y sgrin ochr yn ochr â thrac sain y ffilm; ac
- atgyfnerthu'r sain—systemau personol i ddarparu gwell traciau sain i'r rhai sydd â nam ar eu clyw.

Bydd cyflwyno'r rhain yn gwella mynediad i weld ffilmiau mewn sinemâu i bobl sydd â nam ar eu golwg a/neu bobl drwm eu clyw.

Dyfarnwyd grant o £153,265 i Creative Mwldan ym mis Medi 2006 i osod yr offer sy'n ofynnol i ddarparu'r uchod yn y canolfannau allweddol a ganlyn yng Nghymru: Canolfan Gelfyddydau

Aberystwyth; Canolfan Gelfyddydau Chapter, Caerdydd; Galeri, Caernarfon; Riverfront, Casnewydd; Canolfan Gelfyddydau Taliesin, Abertawe; Theatr Clwyd, yr Wyddgrug; Theatr Gwynedd, Bangor; Theatr Colwyn, Bae Colwyn; Theatr Mwldan, Aberteifi a Chanolfan Gelfyddydau Glannau Gwy, Llanfair-ym-Muallt.

Yn ychwanegol at osod yr offer, darperir pecyn o hyfforddiant technegol, hyfforddiant i staff blaen y tŷ, hyfforddiant ymwybyddiaeth o anabledd a chanllawiau arferion gorau o ran marchnata a rhaglennu'r ffilmiau sydd i gael eu dangos.

Mae cyngor y celfyddydau wedi comisiynu archwiliadau mynediad i'r anabl lle mae hynny'n briodol, yn cynnwys Theatr Fach, Coed-duon, ac Artistiaid Butetown, sydd ill dau wedi elwa o hyn ac yn defnyddio'r archwiliadau fel sail i ddatblygu ceisiadau am gyllid.

Yn ychwanegol at brosiectau a gyllidwyd yn benodol i ymgymryd â gwaith mewn perthynas â'r Ddeddf Gwahaniaeth ar sail Anabledd, mae cyngor y celfyddydau hefyd yn sicrhau bod ei holl gynlluniau cyfalaf mawr yn bodloni gofynion y Ddeddf. Ymysg yr enghreifftiau diweddar mae Canolfan Mileniwm Cymru, Riverfront, Casnewydd a Galeri, Caernarfon.

**Michael German:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyfodol cwmnïau theatr rhanbarthol Cymru? (WAQ48921)

**Alun Pugh:** Mae ein rhaglen y Celfyddydau y Tu Allan i Gaerdydd yn darparu £2,000,000 ychwanegol o fuddsoddiad yn y celfyddydau perfformio y tu allan i Gaerdydd bob blwyddyn, yn ychwanegol at nawdd Llywodraeth Cynulliad Cymru i Ganolfan Mileniwm Cymru yng Nghaerdydd. Caiff yr arian hwn ei ddyrannu i ganolfannau rhanbarthol y celfyddydau perfformio, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cynnwys cwmnïau theatr rhanbarthol.

Mae'r tabl isod yn nodi'r dyfarniadau a roddwyd i ganolfannau rhanbarthol y celfyddydau perfformio. Mae'r canolfannau wedi defnyddio'r arian i'w helpu i gyflwyno digwyddiadau celfyddydau perfformio o safon uchel, i ddatblygu cynulleidfaoedd a marchnata gwaith yn fwy effeithiol, i lunio cynyrchiadau ar y cyd â chanolfannau eraill a chwmnïau teithio, yn ogystal â lledu cwmpas a graddfa'r gwaith sydd ar gael i ganolfannau eraill. Hefyd, mae llawer o ganolfannau rhanbarthol y celfyddydau perfformio wedi cynorthwyo canolfannau llai yn eu hardaloedd, gan wasgaru'r budd drwy hynny. Caiff yr arian ei ddefnyddio hefyd i hwyluso mwy o gynllunio wedi'i gyd-drefnu a chydweithredu creadigol rhwng canolfannau.

Ym mis Hydref 2006, cyhoeddais £250,000 ychwanegol o gyllid refeniw i theatr cyfrwng Saesneg, gan ddod â chyfanswm y cyllid i theatr cyfrwng Saesneg i £750,000 o 2007-08. Amlinellwyd cynigion i ddefnyddio'r arian hwn i'r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon ym mis Hydref 2006.

| **Cyllid i'r Celfyddydau y Tu Allan i Gaerdydd, Canolfannau Rhanbarthol y Celfyddydau Perfformio** | **Swm y Grant** |
|---|---|
| **2004-05** | |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent | £20,500 |
| Clwyd Theatr Cymru | £100,000 |
| Cwmni Mega | £16,725 |
| Diversions Dance Company Ltd | £35,317 |
| Ensemble Cymru | £3,325 |
| Cwmni Opera'r Canolbarth | £3,325 |
| Cwmni Theatr Cymru | £50,000 |
| **Cyfanswm 2004-05** | **£229,192** |
| **2005-06** | |
| Canolfan Gelfyddydau Aberystwyth | £38,000 |

| | |
|---|---|
| Institiwt y Glowyr, Coed-duon | £25,000 |
| Cwmni Dawns Carlson | £40,000 |
| Clwyd Theatr Cymru | £100,000 |
| Creu Cymru – Asiantaeth Deithio Cymru | £9,775 |
| Earthfall Dance Ltd. | £21,260 |
| Galeri Caernarfon Cyf | £90,642 |
| Theatr y Grand Abertawe | £60,000 |
| Theatr y Pafiliwn | £55,000 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf | £70,000 |
| Canolfan Gelfyddydau Taliesin | £17,000 |
| Canolfan Gelfyddydau Taliesin | £63,640 |
| Y Riverfront | £35,000 |
| Theatr Brycheiniog | £55,000 |
| Theatr Hafren | £8,000 |
| Theatr Mwldan | £55,000 |
| Cwmni Theatr Torch | £22,000 |
| Venue Cymru | £10,000 |
| **Cyfanswm 2005-06** | **£775,317** |
| **2006-07** | |
| Canolfan Gelfyddydau Aberystwyth | £125,879 |
| Institiwt y Glowyr, Coed-duon | £50,000 |
| Clwyd Theatr Cymru | £95,000 |
| Creu Cymru – Asiantaeth Deithio Cymru | £17,755 |
| Cwmni Mega | £35,000 |
| Earthfall Dance Ltd. | £29,620 |
| Galeri Caernarfon Cyf | £65,642 |
| Galeri Caernarfon Cyf | £87,000 |
| Theatr y Grand Abertawe | £40,000 |
| Theatr y Grand Abertawe | £65,000 |
| Mappa Mundi | £33,480 |
| Theatr y Pafiliwn | £124,822 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf | £125,000 |
| Theatr Spectacle | £88,486 |
| Canolfan Gelfyddydau Taliesin | £125,600 |
| Y Riverfront | £60,000 |
| Theatr Brycheiniog | £120,000 |
| Theatr Hafren | £49,852 |
| Theatr Mwldan | £125,000 |
| Cwmni Theatr Torch | £99,520 |
| Gŵyl Bro Morgannwg | £24,000 |
| Venue Cymru | £34,852 |
| Cwmni Theatr Volcano | £74,392 |
| **Cyfanswm 2006-07** | **£1,695,900** |
| **Cyfanswm Llawn** | **£2,700,409** |

**John Griffiths:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynnydd o ran datblygu'r celfyddydau yng Nghymru? (WAQ48922)

**Alun Pugh:** Mae Llywodraeth Cynulliad wedi cynyddu ei gwariant ar ddiwylliant yn sylweddol ers datganoli. Mae'r gwariant ar gefnogi'r celfyddydau, amgueddfeydd, llyfrgelloedd, archifau, treftadaeth a'r Gymraeg wedi mwy na dyblu er 1998-99, o £50 miliwn i dros £103 miliwn yn 2006-07.

Mae'r gwariant ar y celfyddydau hefyd wedi dyblu o £14.8 miliwn yn 1998-99 i £28.5 miliwn yn 2006-07.

Ym mis Hydref 2006 cyhoeddais fod £250,000 o gyllid cyfalaf yn cael ei ddarparu tuag at astudiaeth ddichonoldeb mewn cysylltiad â chanolfan menter ddiwylliannol newydd ym Merthyr Tudful, a £250,000 ychwanegol o gyllid refeniw i theatr cyfrwng Saesneg, gan ddod â chyfanswm y cyllid i theatr cyfrwng Saesneg yng Nghymru i £750,000 o 2007-08.

Cyflwynwyd adroddiad adolygiad y celfyddydau imi ym mis Tachwedd y llynedd ac fe'i trafodwyd yn y Cyfarfod Llawn ar 6 Rhagfyr. Mae'r adroddiad yn awgrymu sefydlu bwrdd strategaeth i'r celfyddydau, a fydd yn helpu i yrru'r celfyddydau ymlaen yng Nghymru. Mae'n awgrymu gwaith pellach i archwilio'r syniad o hawl ddiwylliannol, cydweithio rhwng cyngor y celfyddydau ac awdurdodau lleol drwy bartneriaethau rhanbarthol a'r cysyniad o gwmnïau cenedlaethol sydd â chylch gwaith strategol.

Fy mwriad yw datblygu argymhellion yr adolygiad celfyddydau yn gynllun gweithredu y gallwn ddechrau ei roi ar waith ar unwaith.

**John Griffiths:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynnydd o ran datblygu athletau yng Nghymru? (WAQ48923)

**Alun Pugh:** Mae Cyngor y Celfyddydau yng Nghymru yn cefnogi Cymdeithas Athletau Cymru yn y flwyddyn ariannol hon gyda £414,000 o gyllid i ddatblygu athletau yng Nghymru, sy'n cynrychioli cynnydd o bron i 20 y cant ar gyllid y llynedd. Mae'r cyngor chwaraeon hefyd yn gweithio gyda'r gymdeithas athletau i adolygu'r strwythurau cystadlu o ran athletau mewn ysgolion ac i nodi'r blaenoriaethau er mwyn i Gymdeithas Athletau Ysgolion Cymru ddatblygu athletau mewn ysgolion.

Mae athletau mewn ysgolion yng Nghymru hefyd yn elwa yn sgil 'Elevating Athletes', rhaglen hyfforddi athrawon ac adnodd cwricwlaidd y DU sy'n galluogi disgyblion rhwng pump ac 16 i gael profiad o sgiliau rhedeg, neidio a thaflu drwy ffordd newydd a modern o ddysgu athletau. Y disgwyl yw y bydd 150 o ysgolion a 150 o athrawon yn cyflwyno'r rhaglen erbyn 2007 ac y bydd 500 o ysgolion a 450 o athrawon yn gwneud hynny erbyn 2009.

Mae athletau hefyd yn un o'r chwaraeon ysgol mwyaf poblogaidd sy'n cael ei gynnwys yng Nghampau'r Ddraig, y rhaglen sy'n cael ei chyllido gan y loteri sy'n anelu at gynyddu cyfranogiad allgyrsiol ac aelodaeth o glybiau chwaraeon ymysg plant rhwng saith ac 11 oed. Mae Campau'r Ddraig yn gyfrwng pwysig i annog pobl ifanc i ymgymryd ag athletau.

**Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wella'r modd yr hyrwyddir cestyll Cymru? (WAQ48924)

**Alun Pugh:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gyfrifol am 44 o gestyll ar draws Cymru, sy'n cael eu rheoli gan y gwasanaeth sy'n gofalu am ein hamgylchedd hanesyddol, Cadw. Maent yn symbolau eiconig o'n hanes a'n treftadaeth sy'n cael eu cydnabod ar lwyfan byd-eang—yn arbennig, wrth gwrs, y cestyll hynny yn y Gogledd a godwyd gan neu ar ran Edward I, sy'n cynnwys safleoedd treftadaeth byd Caernarfon, Conwy, Harlech a Biwmares—ond mae castell a muriau tref Dinbych a chastell Rhuddlan hefyd yn atyniadau allweddol i ymwelwyr â Dyffryn Clwyd. Fel sy'n digwydd gyda'n holl safleoedd treftadaeth, mae'r cestyll hyn yn cael eu hyrwyddo'n ddyfal drwy gyfres o lyfrynnau marchnata rhanbarthol a rhai sy'n sôn yn benodol am safleoedd neilltuol. Yn 2007 bydd Cadw'n cyflwyno dau lyfryn marchnata rhanbarthol newydd a llyfryn newydd i Gymru gyfan a bydd yn cynyddu'r nifer cyfun o gopïau i dros 200,000. Ar ben hynny, mae'r cestyll a'r rhaglenni digwyddiadau cysylltiol yn cael eu hyrwyddo drwy'r rhyngrwyd a'r wasg. Mae Cadw'n gweithio'n agos hefyd gyda Croeso Cymru ar waith marchnata yn y DU a thramor a chyda chonsortia marchnata twristiaeth ledled Cymru. Yr ydym yn

cydnabod, hefyd, bwysigrwydd hyrwyddo cestyll Cymru er budd cymunedau lleol ac yr wyf yn falch bod Cadw am fwrw iddi yn 2007 i archwilio sut mae modd gwella ymhellach ymwneud y gymuned â'r henebion sydd yn ein gofal.

**Owen John Thomas:** Pa gamau y mae'r Llywodraeth yn eu cymryd i hyrwyddo pêl-fas—yr unig gêm gyda'i rheolau wedi'u llunio yng Nghymru? (WAQ48925) [W]

**Alun Pugh:** Mae'r gêm pêl-fas yng Nghymru yn derbyn cymorth gan Gyngor Chwaraeon Cymru, sy'n darparu cymorth ariannol a logistaidd i'r corff llywodraethu—Undeb Pêl-fas Cymru. Mae rhai ysgolion o fewn canolfannau datblygu, yn enwedig yng Nghaerdydd, wedi helpu i gefnogi/hyrwyddo pêl-fas drwy'r gwaith a wneir yn rhan o'r gweithgareddau sy'n gysylltiedig â gweithredu'r fenter addysg gorfforol a chwaraeon mewn ysgolion.

**Owen John Thomas:** Pa gamau y mae'r Llywodraeth yn eu cymryd ar y cyd gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg i roi cefnogaeth ariannol i'r papur dyddiol Cymraeg arfaethedig, *Y Byd*? (WAQ48926) [W]

**Alun Pugh:** Nid oes unrhyw gynlluniau i ddarparu cyllid o fy mhortffolio i. Fodd bynnag, mae swyddogion o'r Adran Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau wedi gwneud cynnig yn ddiweddar i gefnogi noddwyr *Y Byd* o dan y cynllun grant cymorth rhanbarthol dewisol.

**Eleanor Burnham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am rôl Cyngor Chwaraeon Cymru yn y gwaith o ddosbarthu cyllid i chwaraeon yng Nghymru? (WAQ48927)

**Alun Pugh:** Mae Cyngor Chwaraeon Cymru yn dosbarthu cyllid i chwaraeon yng Nghymru ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae hefyd yn ddosbarthwr loteri dan delerau Deddf y Loteri Genedlaethol 1993 fel y'i diwygiwyd.

**Karen Sinclair:** Sut y mae'r Gweinidog yn datblygu pêl-droed yn y Gogledd-ddwyrain? (WAQ48928)

**Alun Pugh:** Mae pêl-droed yn cael ei hyrwyddo'n ddyfal yn y Gogledd-ddwyrain drwy amryw o bartneriaid allweddol yn cynnwys Cyngor Chwaraeon Cymru, Ymddiriedolaeth Cymdeithas Bêl-droed Cymru a'r awdurdodau lleol. Mae tri swyddog datblygu pêl-droed, yn cwmpasu sir Ddinbych, Wrecsam a sir y Fflint, yn gweithio gyda phobl ifanc i annog cyfranogiad a gwella lefelau sgiliau. Mae sgwadiau rhanbarthol wedi cael eu sefydlu i gefnogi chwaraewyr sy'n symud ymlaen i'n sgwadiau cenedlaethol ac mae cymdeithasau ysgolion yn yr ardal yn cystadlu mewn cystadleuaeth genedlaethol i ysgolion Cymru.

Mae yna hefyd swyddog pêl-droed pwrpasol i bobl anabl wedi'i leoli yn y Gogledd sy'n hyrwyddo'r gêm fel bod pobl sydd ag anableddau yn cael cyfleoedd i gymryd rhan. Mae cysylltiadau wedi cael eu sefydlu drwy glybiau ac mae gwyliau rhanbarthol sy'n cynnwys pobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig wedi cael eu trefnu.

**Karen Sinclair:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gadwraeth henebion yn y Gogledd-ddwyrain? (WAQ48929)

**Alun Pugh:** Yn y Gogledd-ddwyrain mae bron i 6,000 o adeiladau rhestredig o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig a thros 500 o henebion rhestredig mewn perchenogaeth breifat neu gyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys nifer o henebion sydd yng ngofal Llywodraeth y Cynulliad ynghyd â safle a allai ddod yn safle treftadaeth byd, sef traphont ddŵr Pontcysyllte a'r system gamlesi gysylltiol. Mae'r asedau hanesyddol hyn yn tystio i bwysigrwydd y Gogledd-ddwyrain yn hanes Cymru ac mae'n hanfodol eu bod yn cael eu cadw. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i fuddsoddi er mwyn eu cadw a'u hyrwyddo,

yn ogystal â gweithio gyda chymunedau lleol i godi ymwybyddiaeth a gwerthfawrogiad o henebion a'u hamddiffyn rhag datblygu anghydnaws, esgeulustod neu ymddygiad gwrthgymdeithasol. Bydd hyn yn help i gyfrannu tuag at gadw'r amgylchedd hanesyddol ac i wneud y rhanbarth yn ardal ddeniadol i fuddsoddi ynddi a byw ynddi.

**Laura Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y mae'n creu mwy o hyfforddwyr chwaraeon yng Nghymru? (WAQ48930)

**Alun Pugh:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn buddsoddi £3.9 miliwn yn y cynllun hyfforddi i Gymru i gynyddu nifer ac ansawdd yr hyfforddwyr a'r arweinwyr gwirfoddol a phroffesiynol yng Nghymru. Mae dros 16,000 o gyfleoedd hyfforddi'n cael eu darparu bob blwyddyn i hyfforddwyr ar bob lefel.

**Laura Anne Jones:** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw gynnydd tuag at ddatblygu strategaeth ar gyfer croesawu Gemau'r Gymanwlad i Gymru? (WAQ48931)

**Alun Pugh:** Mae fy swyddogion wedi cael nifer o drafodaethau gyda Chyngor Cymru Gemau'r Gymanwlad ynglŷn â'r posibilrwydd o gynnal Gemau'r Gymanwlad yng Nghymru a graddfa hynny. Bydd angen buddsoddiad sylweddol ar unrhyw strategaeth i gynnal digwyddiad mor fawr â Gemau'r Gymanwlad, ynghyd ag amserlen realistig. Rhaid hefyd inni gadw mewn cof gais Glasgow i gynnal y gemau yn 2014 ac effaith hynny ar unrhyw gais posibl o Gymru, neu, yn wir, gan unrhyw genedl arall yn y Deyrnas Unedig.

**Carl Sargeant:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y defnydd o lyfrgelloedd yn sir y Fflint. (WAQ48932)

**Alun Pugh:** Mae llyfrgelloedd yn sir y Fflint yn cael eu defnyddio at amrywiaeth eang o bwrpasau—dewis llyfrau i'w benthyca a mynd â hwy adref, defnyddio'r cyfrifiaduron personol a ddarperir i gael gwybodaeth oddi ar y rhyngrwyd, pori drwy bapurau newydd a chylchgronau, a chanfod beth sy'n digwydd yn yr ardal leol. Mae rhai llyfrgelloedd yn darparu cyfleoedd dysgu gydol oes mewn partneriaeth â darparwyr dysgu lleol, ac mae'r rhan fwyaf yn trefnu rhaglen o weithgareddau i blant yn ystod gwyliau'r ysgol. Mae sawl llyfrgell hefyd yn cynnig y cyfle i artistiaid lleol i arddangos eu gwaith.

Mae Gwasanaethau Llyfrgell Sir y Fflint wedi cofnodi cynnydd yn y lefelau gweithgarwch ar draws tri maes allweddol yn 2005-06 o'i chymharu â 2004-05. Cynyddodd y nifer o ymweliadau 14 y cant, a'r benthyciadau cartref 4 y cant, tra cynyddodd y defnydd o gyfrifiaduron 55 y cant drwyddo draw, wrth i fwy o bobl ddod yn ymwybodol o'r amrywiaeth cyfleusterau sydd ar gael.

Bydd llyfrgelloedd sir y Fflint, ynghyd â'r holl wasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru, a llawer o lyfrgelloedd academaidd, yn cymryd rhan yn ymgyrch farchnata genedlaethol @Eich Llyfrgell Chi sy'n cael ei chyllido gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Yn cael ei chyd-drefnu gan Wasanaeth Llyfrgelloedd a Gwybodaeth Wrecsam yn gweithio gyda CyMAL: Amgeuddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Cymru, mae'r ymgyrch hon yn tanlinellu ymrwymiad y Cynulliad Cenedlaethol i hyrwyddo mynediad a defnydd o lyfrgelloedd yng Nghymru. Byddaf yn lansio 'Codi Llais Dros Lyfrgelloedd' yn Nhredegar Newydd ar 29 Ionawr.

**Carl Sargeant:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am beth y mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei wneud i hyrwyddo chwaraeon yng Nghymru? (WAQ48933)

**Alun Pugh:** Nod ein strategaeth 'Dringo'n Uwch' yw rhoi chwaraeon a gweithgarwch corfforol wrth galon bywyd a Llywodraeth Cymru ac mae'n rhan bwysig o ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru ei

hun i Her Iechyd Cymru. Yn sail i'r ymrwymiad hwn, bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn buddsoddi dros £24 miliwn y flwyddyn nesaf ar chwaraeon a gweithgarwch corfforol, sy'n cynrychioli cynnydd o 250 y cant yn y gyllideb chwaraeon er 1999.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei bolisïau ar gyfer gwella cyfleusterau chwaraeon ledled Cymru? (WAQ48934)

**Alun Pugh:** Mae Cymru'n cael ei gwasanaethu'n dda gan gyfleusterau chwaraeon cyhoeddus gyda dros 725 o neuaddau chwaraeon, pyllau nofio, cyrtiau sboncen, caeau pob tywydd a mwynderau gweithgarwch corfforol eraill. Ynghyd â'r rhain mae amrywiaeth eang o gyfleusterau preifat sydd ar gael i'r cyhoedd eu defnyddio.

Mae'r cyngor chwaraeon wrthi ar hyn o bryd yn adolygu'r stoc o ganolfannau hamdden a phyllau sy'n eiddo i awdurdodau lleol yng Nghymru er mwyn helpu'r awdurdodau lleol i ddynodi a blaenoriaethu'r rhai y mae angen eu hailwampio a/neu eu huwchraddio. Yn y cyfamser, mae cyllid loteri yn parhau i wella cyfleusterau chwaraeon ar draws Cymru drwy Sportlot a'r Gronfa Loteri Fawr. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd yn buddsoddi mewn canolfannau hamdden a phyllau nofio sy'n eiddo i awdurdodau lleol drwy'r gronfa wella nofio am ddim er mwyn gwella'r awyrgylch a'r profiad i gwsmeriaid ac ymwelwyr. Diben hynny yw annog pobl i ailymweld ac i gymryd rhan yn rheolaidd ac yn barhaus mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei bolisïau i hyrwyddo'r iaith Gymraeg? (WAQ48935)

**Alun Pugh:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gwneud ymrwymiad diamheuol tuag at yr iaith Gymraeg, yn cynnwys buddsoddiad sylweddol, er 2003, o £40 miliwn ychwanegol erbyn diwedd y flwyddyn ariannol hon. Mae polisïau Llywodraeth y Cynulliad i hyrwyddo'r Gymraeg wedi eu cynnwys yn 'Iaith Pawb'—ein cynllun gweithredu cenedlaethol o blaid Cymru ddwyieithog.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cynhyrchu adroddiad blynyddol sy'n nodi ei pherfformiad yn rhoi 'Iaith Pawb' ar waith. Cafodd adroddiad 2005-06 ei gyhoeddi a'i drafod yn y Cynulliad ym mis Gorffennaf 2006 ac mae'n cynnwys enghreifftiau niferus o sut y mae'r Gymraeg wedi cael ei hyrwyddo ar draws y portffolios. Bydd adroddiad 2006-07 yn cael ei gyhoeddi a'i drafod yr haf hwn.

Mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd wedi ymrwymo i werthuso 'Iaith Pawb' yn llawn yn ystod 2007.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau

**Leanne Wood:** A yw'r Gweinidog wedi gohebu â gweinidog yn San Steffan ynghylch cynnig diwygiedig NDM3223 a basiwyd yn y Cynulliad ddydd Mawrth 3ydd Hydref, ac, os felly, a wnaiff y Gweinidog nodi manylion yr ohebiaeth honno a'r ymateb iddi? (WAQ48971)

**Y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau (Andrew Davies):** Nac ydwyf. Mater i Jane Davidson, y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau yw hwn.

**Karen Sinclair:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynnydd gyda pholisïau datblygu economaidd Llywodraeth Cynulliad Cymru? (WAQ48893)

**Andrew Davies:** Erbyn hyn mae gan economi ddynamig Cymru dros 1.3 miliwn o bobl mewn gwaith, y nifer fwyaf ers i'r cofnodion ddechrau. Mae hynny'n gynnydd o fwy na 10 y cant ers creu'r Cynulliad ym 1999, sy'n sylweddol uwch na'r DU drwyddi draw. Yr ydym yn parhau i sicrhau rhagor o swyddi a gwell

swyddi fel y tystia'r cyhoeddiad diweddar y bydd yr Academi Hyfforddiant Amddiffyn newydd, sy'n werth biliynau, yn cael ei lleoli yn Sain Tathan, gan greu hyd at 5,500 o swyddi—y buddsoddiad unigol mwyaf y mae Cymru erioed wedi ei gael.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddarparu manylion ariannol fesul eitem ar gyfer y £34,683.92 a wariwyd ar y derbyniad yn rownd derfynol Cwpan yr FA fis Mai diwethaf? (WAQ48931)

**Andrew Davies:** Mae'r £34,683.92 yn cynnwys £1,771.00 am hofrennydd, £146.87 am geir, £240.00 am goetsys, £17,390.00 am docynnau, £7,390 am lety (am ddwy noson), £1,497.30 am ginio, £6,168.75 am siaradwr ar ôl cinio, a £80 am flodau. Fe'ch cyfeiriaf at y datganiad ysgrifenedig yr wyf wedi ei wneud am y mater hwn.

**Alun Ffred Jones:** Beth oedd cyllidebau adran CADW yn y blynyddoedd: 1999-2000, 2000-01, 2001-02, 2002-03, 2003-04, 2004-05, 2005-06, 2006-07? (WAQ48996) [W]

**Alun Pugh:** Yr oedd cyllidebau net Cadw fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| 1999-2000 | £10,838,000 |
| 2000-01 | £11,393,000 |
| 2001-02 | £12,286,000 |
| 2002-03 | £12,809,000 |
| 2003–04 | £12,555,000 |
| 2004-05 | £12,916,000 |
| 2005-06 | £14,127,000 |
| 2006-07 | £14,002,000 |

**Alun Ffred Jones:** Faint o gapeli sydd wedi'u rhestru gan Cadw yn adeiladau o ddiddordeb arbennig? (WAQ48997) [W]

**Alun Ffred Jones:** Faint o gapeli sydd wedi'u rhestru yn adeiladau rhestredig gradd I, gradd II*, a gradd II? (WAQ48998) [W]

**Alun Pugh:** Yn sgil arolwg a wnaed o holl gapeli Cymru, mae 826 wedi'u rhestru'n adeiladau o ddiddordeb arbennig neu bensaernïol. Dyma'r niferoedd yn ôl eu gradd:
Gradd I: 12;
Gradd II*: 74;
Gradd II: 740.

**John Griffiths:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynnydd o ran gwella cludiant cyhoeddus yng Nghymru? (WAQ48939)

**Andrew Davies:** Mae gwella'r system drafnidiaeth yn dyngedfennol i'n nod o wella ansawdd bywyd i bobl Cymru. Yr ydym yn gwneud cynnydd rhagorol. Mae gennym bwerau newydd yn Neddf Trafnidiaeth Cymru 2006 a Deddf Rheilffyrdd 2005. Hefyd mae ein strategaeth drafnidiaeth i Gymru sy'n cael ei datblygu yn nodi ein hagenda o ran trafnidiaeth integredig ac yn darparu fframwaith cydlynol a chynhwysfawr i symud hyn yn ei flaen. Bydd cynlluniau trafnidiaeth rhanbarthol, a sefydlir gan bob un o'r pedwar consortiwm trafnidiaeth rhanbarthol yng Nghymru, wedyn yn pennu'r blaenoriaethau a fydd yn gwireddu ein hamcanion strategol.

**Catherine Thomas:** A wnaiff y Gweinidog restru'r pum prosiect Amcan 1 mwyaf o safbwynt ariannol yn etholaeth Llanelli er 2000? (WAQ48972)

**Andrew Davies:** Er 2000, y pum prosiect Amcan 1 mwyaf o safbwynt ariannol yn ardal Llanelli, yn ôl dyraniad grant, yw

- Parc Dyfatty—£2,270,000;
- Y Technium Modurol, uwch beirianneg—£4,606,000;
- Llynnoedd Delta—£1,040,000;
- Ffordd gyswllt Mynediad y Dwyrain—£ 2,291,000; ac
- Adfywio Canol Tref Llanelli—£2,364,048.

**Catherine Thomas:** A wnaiff y Gweinidog restru'r pum prosiect Amcan 1 mwyaf o safbwynt ariannol sydd wedi derbyn cymorth rhanbarthol dewisol yn etholaeth Llanelli er 2000? (WAQ48973)

**Andrew Davies:** Mae'r manylion isod.

| **Enw'r Cwmni** | **Gwerth y Cynnig (£)** | **Swyddi Newydd a Ragwelir** | **Swyddi y Rhagwelir y'u Diogelir** |
|---|---|---|---|
| Spencer Davies Handling Ltd | 250,000 | 30 | 0 |
| Krupp Camford Pressings Ltd | 280,000 | 0 | 25 |
| Dura Cables Ltd | 3,000,000 | 307 | 208 |
| Llanelli Radiators Ltd/Calsonic | 8,135,000 | 0 | 829 |
| Dawn Meats (UK) Ltd | 10,400,000 | 215 | 395 |

**Mark Isherwood:** Beth yw rhagamcan y gost ar hyn o bryd o wella'r A494 – Drome Corner i Ewloe? (WAQ48976)

**Andrew Davies:** Y rhagamcan o gost y cynllun ar hyn o bryd yw rhyw £67 miliwn, ar brisiau heddiw.

**Kirsty Williams:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cael gyda Chyngor Caerdydd, a chyrff perthnasol eraill, ynghylch rheoli traffig o gwmpas Stadiwm y Mileniwm? (WAQ48985)

**Andrew Davies:** Mae swyddogion Trafnidiaeth Cymru'n mynd i gyfarfodydd rheolaidd grŵp cyswllt digwyddiadau Stadiwm y Mileniwm i drafod a chynllunio'r gwaith rheoli traffig a allai fod yn angenrheidiol ar y rhwydwaith cefnffyrdd strategol ar gyfer pob digwyddiad unigol sy'n cael ei gynnal yn Stadiwm y Mileniwm. Mae Cyngor Sir Caerdydd hefyd yn cael ei gynrychioli yn y cyfarfodydd hyn o'r grŵp cyswllt fel yr awdurdod priffyrdd sy'n gyfrifol am ffyrdd yn y brifddinas.

**Kirsty Williams:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cael gyda Chyngor Caerdydd, a chyrff perthnasol eraill, ynghylch darparu cludiant cyhoeddus yng Nghaerdydd pan fydd digwyddiad yn Stadiwm y Mileniwm? (WAQ48986)

**Andrew Davies:** Mae swyddogion Trafnidiaeth Cymru'n mynd i gyfarfodydd rheolaidd grŵp cyswllt digwyddiadau Stadiwm y Mileniwm i drafod a chynllunio'r gwaith rheoli traffig a'r ddarpariaeth cludiant cyhoeddus ar gyfer pob digwyddiad unigol sy'n cael ei gynnal yn Stadiwm y Mileniwm. Mae Cyngor Sir Caerdydd a Bws Caerdydd hefyd yn cael eu cynrychioli yn y cyfarfodydd hyn o'r grŵp cyswllt.

**Kirsty Williams:** Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'u cymryd i hyrwyddo defnyddio cludiant cyhoeddus i ddigwyddiadau chwaraeon? (WAQ48987)

**Andrew Davies**: Yr ydym yn annog trefnwyr digwyddiadau chwaraeon, e.e. yn Stadiwm y Mileniwm, i gysylltu â'r awdurdodau lleol a chwmnïau bysiau a threnau yn ogystal â'r heddlu. Yr ydym yn hyrwyddo defnyddio cynlluniau teithio drwy ddewisiadau craffach. Mae ein cyd-drefnwyr cynlluniau teithio rhanbarthol ar gael i gynorthwyo trefnwyr yn y dasg hon.

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am amserlen y ffordd osgoi arfaethedig ar gyfer Llandeilo? (WAQ49005)

**Andrew Davies:** Cynhaliwyd gweithdy cyhoeddus ac arddangosfa ymgynghori ym mis Ebrill 2006 i ystyried opsiynau er mwyn datrys problemau traffig yn Llandeilo a Ffair-fach. Mae'r holl ymatebion a ddaeth i law wedi cael eu hystyried a'u dadansoddi'n ofalus. Bwriadaf gyhoeddi'r opsiwn yr wyf yn ei ffafrio yn fuan iawn a bydd canfyddiadau'r gweithdy a'r ymgynghoriad hefyd yn cael eu gwneud yn gyhoeddus bryd hynny.

Mae'r cynllun yng ngham 2 blaenraglen y cefnffyrdd, sy'n cynnwys cynlluniau a allai fod yn barod i ddechrau erbyn 2010 yn amodol ar weithdrefnau cydsynio statudol ac ar fod cyllid ar gael.

**Leighton Andrews:** Pa grantiau neu fathau eraill o gefnogaeth y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru neu ei hasiantaethau wedi'u rhoi i Wastechnique Ltd? (WAQ49007)

**Andrew Davies:** Ers sefydlu'r Cynulliad, mae Wastechnique wedi derbyn tri chynnig o grant buddsoddi gan y Cynulliad ac un cynnig o gymorth rhanbarthol dewisol, sef cyfanswm o ychydig dros £230,000.

**Leighton Andrews:** Pa grantiau neu fathau eraill o gefnogaeth a roddwyd i Sims Recycling Solutions (Casnewydd) ac at ba ddibenion gan Lywodraeth Cynulliad Cymru? (WAQ49008)

**Andrew Davies:** Ers sefydlu'r Cynulliad, mae Sims Recycling Solutions (Casnewydd) wedi cael cymorth fel a ganlyn:

| Dyddiad | Swm a Gynigiwyd | Pwrpas y cynnig |
|---|---|---|
| Ionawr 2002 | £250,000 | Grant RSA i sefydlu cyfleuster ailgylchu amgylcheddol (oergelloedd) yng Nghasnewydd |
| Ebrill 2003 | £240,000 | Grant RSA i ehangu'r cyfleuster ailgylchu oergelloedd yng Nghasnewydd |
| Gorffennaf 2003 | 1,720,000 | Grant cyfleusterau cludo nwyddau (a gynigiwyd i Sims a Associated British Ports) |
| Tachwedd 2005 | £350,000 | Grant RSA i sefydlu cyfleuster ar gyfer offer trydanol ac electronig gwastraff yng Nghasnewydd |

**Kirsty Williams:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei gynigion i gefnogi arloesi? (WAQ49009)

**Andrew Davies:** Mae camau allweddol i hyrwyddo arloesi yn cael eu rhoi ar waith drwy adran arloesi ein strategaeth datblygu economaidd, 'Cymru: Economi yn Ffynnu', a'r cynllun gweithredu ar gyfer arloesi.

Ymgymerwyd ag adolygiad mawr o'r gweithgareddau yn 2006. Argymhellodd y dylai cefnogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru i arloesi gael ei thargedu at y themâu allweddol canlynol yn unol â

blaenoriaethau'r cynllun gweithredu ar arloesi i Gymru (sy'n cael ei ddiweddaru ar hyn o bryd), polisi gwyddoniaeth a blaenoriaethau'r UE a Llywodraeth y DU o ran gwyddoniaeth ac arloesi:

- canolfannau arloesi a chyfleusterau ymchwil a dylunio arbenigol;
- trefn symlach, hyblyg i gyllido arloesi ac ymchwil a dylunio;
- cydweithredu rhwng busnes ac academia;
- trosglwyddo technoleg, eiddo deallusol a masnacheiddio;
- datblygu a mabwysiadu technolegau newydd;
- gwasanaethau cynghori ym maes technoleg;
- sectorau a rhwydweithiau;
- datblygu, blaendrafodion ac ymwybyddiaeth.

Mae'r blaenoriaethau allweddol hyn yn cael eu rhoi ar waith gan dîm o arbenigwyr (tua 100 i gyd) ar draws Cymru sy'n darparu ystod o gymorth arloesi i fusnesau, yn cynnwys cymorth ariannol i fuddsoddi mewn ymchwil a datblygu (SMARTCymru) a chyllid i sefydliadau academaidd drwy'r gronfa datblygu gwybodaeth.

Yr ydym hefyd wedi bod yn cyfrannu'n weithredol at lunio'r fframwaith strategol ar gyfer arloesi dan flaenoriaeth 1 o raglen gydgyfeirio 2007 i 2013.

Caiff diweddariad o'r cynllun gweithredu ar gyfer arloesi ei gyhoeddi yn ddiweddarach eleni.

**Kirsty Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr adnoddau sydd ar gael i helpu dyfeiswyr i ddatblygu eu syniadau? (WAQ49010)

**Andrew Davies:** Sefydlwyd rhwydwaith arloeswyr Cymru yn 2002. Mae'r rhwydwaith yn darparu cymorth unigryw i helpu dyfeiswyr unigol o Gymru i fanteisio'n fasnachol ar eu syniadau. Mae'r rhwydwaith, sydd â thros 1,000 o aelodau ledled Cymru, yn cynnig cymorth diduedd, yn rhad ac am ddim, i helpu dyfeiswyr i ddatblygu eu cysyniadau yn gynnyrch masnachol. Mae'r cymorth sy'n cael ei ddarparu yn amrywio o gyfarfodydd cwnsela un wrth un a digwyddiadau rhwydweithio, i gyflwyniadau i gyrff partner a gwasanaethau cymorth busnes eraill. Yn ogystal, mae ystod o gyllid yn cael ei darparu i ddyfeiswyr i gynorthwyo'r broses ddatblygu, yn cwmpasu meysydd fel amddiffyn eiddo deallusol a dylunio a phrototeipio'r syniad. Law yn llaw â'r cyllid ceir cyngor pwrpasol drwy'r rhwydwaith cwnselwyr arloesi a thechnoleg.

Ers ei lansio yn 2002, mae'r rhaglen wedi cael nifer o lwyddiannau. Yn 2006, enillodd y rhaglen wobr gydnabod ryngwladol am ei chymorth i ddyfeiswyr unigol. Aethpwyd â 24 o gynhyrchion i'r farchnad yn llwyddiannus ac mae nifer o ddyfeiswyr wedi ennill gwobrau arbennig mewn amryw o ddigwyddiadau, megis Sioe Arloesi Prydain a'r Arddangosfa Ddyfeisio Ryngwladol yn Geneva, dros y tair blynedd diwethaf.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

**John Griffiths:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bolisi Llywodraeth Cynulliad Cymru i hyrwyddo ymhellach weithgarwch y tu allan i oriau ysgol i ddisgyblion yng Nghymru? (WAQ48938)

**Y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (Jane Davidson):** Yn 'Y Wlad sy'n Dysgu' gosodais darged y dylai fod gan bob person ifanc hawl i brosbectws llawn o weithgareddau dysgu y tu allan i oriau ysgol erbyn 2010.

Atgyfnerthais hyn yn 'Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith', sy'n rhwymo Llywodraeth y Cynulliad i fynd i'r afael â thlodi o ran cyfle addysgol a chodi safonau mewn ysgolion. Drwy hyrwyddo dysgu y tu allan i oriau ysgol, byddwn yn cyfoethogi dysgu nad yw'n ffurfiol, gan helpu i godi safonau

mewn sgiliau sylfaenol ac allweddol yn ogystal ag mewn meysydd cwricwlaidd a datblygiad personol, cymdeithasol ac emosiynol.

Yr wyf wedi darparu £250,000 i ContinYou Cymru dros y tair blynedd diwethaf i'w alluogi i hyrwyddo, cefnogi a datblygu dysgu y tu allan i oriau ysgol ar draws Cymru ac i ddarparu datblygiad strategol er mwyn cynnal rhaglenni dysgu y tu allan i oriau ysgol.

Yr wyf hefyd wedi darparu dros £10 miliwn rhwng 2005 a 2008 tuag at ddatblygu'r agenda ysgolion bro, sy'n ategu dysgu y tu allan i oriau ysgol ac yn cefnogi datblygu gwasanaethau, gweithgareddau a chyfleusterau ar gyfer disgyblion a'r gymuned ehangach.

Er 1998-99 mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi buddsoddi dros £80 miliwn mewn darpariaeth TGCh i ysgolion, yn cynnwys cyllido cyfresi o gyfrifiaduron ym mhob ysgol uwchradd. Byddai modd defnyddio'r rhain i gefnogi dysgu y tu allan i oriau i ddisgyblion ysgol, yn ogystal ag ehangu mynediad at TGCh yn y cwricwlwm. Mae gwaith ar y gweill ar hyn o bryd ar strategaeth TGCh a fydd yn adeiladu ar y buddsoddiad hwn, gyda ffocws cryf ar sut mae modd defnyddio TGCh i drawsnewid dysgu yn yr ysgol a thu hwnt.

Yr wyf hefyd yn darparu cymorth drwy'r Gronfa Ysgolion Gwell i ystod o gynlluniau er mwyn gwireddu'r weledigaeth a'r dyheadau yn 'Iaith Pawb' ac, yn arbennig, i ehangu'r cyfleoedd i ddisgyblion i ddefnyddio a phrofi'r Gymraeg mewn amgylchiadau allgyrsiol.

Drwy ein hagenda llwybrau dysgu 14-19 yr ydym yn trawsnewid yr opsiynau a'r cyfleoedd i bobl ifanc. Yr ydym yn ehangu dewis a hyblygrwydd, yn sicrhau llwybrau dysgu sy'n cael eu teilwrio'n unigol sy'n diwallu anghenion dysgwyr, ac yn darparu cyfleoedd a phrofiadau mwy cyfoethog a fydd yn help i ddysgwyr ddatblygu'r sgiliau ehangach y mae eu hangen arnynt i fyw.

Yn gefn i hyn mae cyfuniad unigryw o gymorth a fydd yn sicrhau bod pob dysgwr yn cael y cyngor a'r arweiniad y mae eu hangen arnynt i wneud dewisiadau da ac i oresgyn rhwystrau rhag dysgu. Un rhan annatod o'r cymorth hwn yw rhoi mynediad i bobl ifanc at ddysgu mewn gwahanol gyd-destun, drwy'r profiadau dysgu anhraddodiadol ac anffurfiol sy'n ateb anghenion a diddordebau'r dysgwr, gan ddarparu llwybr dysgu cytbwys drwy hynny. Gall hyn gynnwys ystod o opsiynau, yn cwmpasu profiadau preswyl, hobïau neu weithgareddau chwaraeon, ac aelodaeth o glybiau neu gymdeithasau.

Ar 18 Hydref, cyhoeddais y bydd cymhwyster bagloriaeth Cymru yn cael ei raddol gyflwyno ar y lefel uwch a'r lefel ganolradd mewn addysg ôl-16. Mae ceisiadau gan fwy na 50 o ddarparwyr o bob cwr o Gymru yn cael eu hystyried ar hyn o bryd a gwneir cyhoeddiad yn fuan am y darparwyr a fydd yn cyflwyno bagloriaeth Cymru o fis Medi 2007. Yr ydym hefyd yn treialu bagloriaeth ar y lefel sylfaen i Gymru, ochr yn ochr â'r model lefel ganolradd ym maes dysgu 14-19. Dechreuodd yr estyniad hwn i'r peilot mewn 18 o ysgolion a cholegau ym mis Medi 2006, a bwriedir ei gyflwyno fesul tipyn o fis Medi 2009, yn amodol ar werthusiad ohono.

Fel rhan o fagloriaeth Cymru rhaid cymryd rhan fyw mewn materion cymunedol a phrofiad gwaith ac mae'n cynnig y cyfle i achredu popeth y mae dysgwyr yn ei wneud, yn yr amgylchedd dysgu ffurfiol ac mewn gweithgareddau allgyrsiol.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydnabod ei bod yn hanfodol i blant a phobl ifanc gael profiadau positif yn gynnar mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol i sicrhau eu bod yn parhau i gymryd rhan gydol eu hoes fel oedolion, gan elwa o fanteision iechyd ffordd egnïol o fyw drwy hynny.

Nod cynllun Campau'r Ddraig sy'n cael cyllid loteri drwy Gyngor Chwaraeon Cymru yw cynyddu cyfranogiad allgyrsiol ac aelodaeth o glybiau chwaraeon ymysg pobl ifanc rhwng 7 ac 11 oed drwy weithgareddau pêl-droed, pêl-rwyd, rygbi, athletau, hoci, tenis, golff a chriced. Ar sail llwyddiant Campau'r Ddraig, lansiodd y Gweinidog Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon raglen chwaraeon newydd i ysgolion uwchradd ym mis Hydref 2006, gyda £7.6 miliwn o arian Llywodraeth Cynulliad Cymru yn

gefn iddi, i wella'r cyfleoedd allgyrsiol sy'n cael eu darparu i bobl ifanc rhwng 11 ac 16 oed ymhellach. Yr ydym yn disgwyl i bob awdurdod lleol yng Nghymru fod ag o leiaf un ysgol yn cymryd rhan yn y rhaglen yn ystod y flwyddyn ysgol gyfredol, 2006-07. Bwriadwyd y naill raglen a'r llall i gynyddu'r ganran o bobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn pum sesiwn 60 munud o chwaraeon a gweithgarwch corfforol yr wythnos.

**John Griffiths:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bolisi Llywodraeth Cynulliad Cymru ynghylch yr uchafswm nifer disgyblion sy'n ddymunol ar gyfer ysgolion Cymru? (WAQ48941)

**Jane Davidson:** Mater i'r awdurdodau addysg lleol yw cynllunio ysgolion yn eu hardal hwy yng ngoleuni'r patrymau poblogaeth a'r galw, a phenderfynu ar eu maint priodol. Nid yw Llywodraeth Cynulliad Cymru yn argymell maint mwyaf na lleiaf i ysgolion. O'r 1,572 o ysgolion cynradd yng Nghymru ym mis Ionawr 2006, dim ond 62 oedd â mwy na 400 o ddisgyblion (yr oedd gan bump dros 600 o ddisgyblion). O'r 224 o ysgolion uwchradd, yr oedd gan 18 dros 1,500 o ddisgyblion.

Deallaf fod Awdurdod Addysg Lleol Casnewydd wedi nodi yn y gorffennol na ddylai ysgolion cynradd, yn ei farn ef, yn ddelfrydol fod â mwy na drwy ffrwd fynediad ac na ddylai ysgolion uwchradd fod â mwy na 1,300 o ddisgyblion yn y grŵp oedran 11 i 16.

**Eleanor Burnham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarparu addysg alwedigaethol drwy gyfrwng y Gymraeg? (WAQ48942)

**Jane Davidson:** Mae darpariaeth alwedigaethol cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion ac yn y sectorau addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith yn dal i fod ar sylfaen isel. Mae'r Adran Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau yn gweithio gyda darparwyr mewn ffordd gydlynol i fynd i'r afael â'r her hon.

Mae'n rhaid i'r cynlluniau ardal datblygu rhwydweithiau ar gyfer llwybrau dysgu 14-19 gynnwys datblygu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Mae cyfanswm o 17 o bartneriaethau cynlluniau datblygu dwyieithog rhwng ysgolion a cholegau AB i ehangu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, darpariaeth alwedigaethol yn enwedig, wedi cael eu cyllido rhwng 2006 a 2008, a bydd darpariaeth alwedigaethol yn benodol yn cael cefnogaeth yn y cyfnod 2007-09.

Mae partneriaeth Sgiliaith/CYDAG yn darparu gwasanaeth cymorth canolog i Gymru gyfan ar gyfer y sector ôl-16 i ddatblygu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.

Erbyn 2007-08 bydd cyfanswm o 29 o ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg/dwyieithog wedi cael cyfarpar fideo-gynadledda o'r radd flaenaf, gyda chymorth a hyfforddiant technegol, i'w galluogi i gyrchu at gyrsiau sy'n cael eu darparu gan bartneriaid eraill.

Mae hyrwyddwyr dwyieithog yn cael eu treialu mewn tri choleg AB fel ffordd o greu seilwaith cefnogol i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Yr ydym yn mynd i'r afael â'r prinder ymarferwyr sy'n gallu cyflwyno darpariaeth alwedigaethol yn y Gymraeg drwy'r cynllun sabothol iaith Gymraeg.

Mae adnoddau cyfrwng Cymraeg o ansawdd uchel ar gyfer pynciau galwedigaethol yn cael eu comisiynu mewn chwe maes pwnc sy'n cael blaenoriaeth.

Drwy gynllun peilot dwy flynedd gyda chyrff dyfarnu, mae 31 o gymwysterau galwedigaethol cyfrwng Cymraeg ychwanegol ar gael erbyn hyn.

**Ann Jones:** Pa gamau ychwanegol y mae'r Gweinidog yn eu hystyried er mwyn lleihau nifer y disgyblion sy'n gadael yr ysgol heb gymhwyster cydnabyddedig? (WAQ48943)

**Jane Davidson:** Ar 21 Rhagfyr 2006 cyhoeddais fod y nifer o bobl ifanc 15 oed sy'n gadael addysg amser llawn heb gymhwyster cydnabyddedig wedi cyrraedd y lefel isaf erioed yng Nghymru.

Dengys ffigurau newydd am 2006 y bu gostyngiad yn y nifer o bobl ifanc 15 oed sy'n gadael addysg amser llawn heb gymhwyster cydnabyddedig o 832 i 806.

Mae'r ffigurau hyn yn dangos bod y gyfundrefn addysg yn symud i'r cyfeiriad cywir. Mae ennill o leiaf un cymhwyster yn hanfodol i roi i bobl ifanc y cyfle o gael gwell bywyd, swydd sy'n talu'n well a mwy o sicrwydd ar gyfer y dyfodol.

Yr ydym yn dal yn benderfynol—fel y nodwyd yn 'Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith'—na ddylai unrhyw ddisgybl adael byd addysg heb gymhwyster sydd wedi cael ei gymeradwyo erbyn 2010.

Drwy annog rhagor o bobl ifanc i gyflawni eu potensial, byddant yn fwy parod ar gyfer byd gwaith a byddant yn dod yn ddinasyddion mwy gwybodus a mwy gweithredol. Rhaid inni ennyn eu diddordeb a'u symbylu i gyrraedd y lefel gyflawni uchaf bosibl, sydd hefyd yn cynyddu potensial Cymru.

Mewn llawer o achosion efallai ei bod yn fwy buddiol i'r person ifanc ddilyn opsiynau galwedigaethol neu seiliedig ar waith yn hytrach na llwybr academaidd pur.

Yn y cynllun gweithredu 14-19, yr ydym wedi gosod targedau clir i'n hunain ar hyn—erbyn mis Medi 2008 byddwn yn sicrhau bod cyfleoedd wedi cael eu sefydlu i bobl ifanc ymgymryd â dysgu seiliedig ar sgiliau a dysgu galwedigaethol.

Mae rhyngwyneb pwysig hefyd rhwng dysgu seiliedig ar waith a pholisi Llywodraeth y Cynulliad ar lwybrau dysgu 14-19, sy'n anelu at sicrhau bod pobl ifanc o bob gallu yn gallu cyrchu at amrywiaeth llawer ehangach o opsiynau, yn cynnwys profiad sy'n canolbwyntio ar waith.

Yn 2006-07 yr oedd yr arian a oedd ar gael i'r rhwydweithiau 14-19 yn gyfanswm o £8.5 miliwn ar draws Cymru gyfan. Yr oedd yn fodd i ddatblygu gwaith yn yr ardaloedd rhwydwaith 14-19 i symud llwybrau dysgu ymlaen. Mae'r llwybrau dysgu yn cynnwys ystod o weithgareddau cydweithredol a fwriadwyd i leihau'r nifer o ddisgyblion sy'n gadael yr ysgol heb gymwysterau.

Mae'r cyllid yr wyf wedi ei ddarparu ar gyfer 2007-08 yn £32.5 miliwn, sy'n cynrychioli cryn fuddsoddiad yn y llwybrau dysgu 14-19 gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Bydd yn gyfrwng i newid y patrymau gwariant yn yr holl sefydliadau a'r cyrff dysgu partner ac yn help i sicrhau gwell cyflawniadau i'r holl ddysgwyr.

Mae rôl yr anogwr dysgu hefyd yn ddatblygiad tyngedfennol er mwyn helpu i gadw pobl ifanc ym myd dysgu. Mae rôl yr anogwr dysgu yn allweddol i gynorthwyo'r dysgwr gydag agweddau perthnasol-i-ddysgu y llwybr dysgu drwyddo draw, ac mae'n canolbwyntio ar wneud yn fawr o allu'r person ifanc i ddysgu a'i symbyliad i barhau ym myd dysgu er mwyn ennill cymwysterau.

**Owen John Thomas:** Pa gamau y mae'r Llywodraeth yn eu cymryd i ddarbwyllo awdurdodau lleol i gynnal arolwg i bennu'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg? (WAQ48944) [W]

**Jane Davidson:** Yn y canllawiau ar baratoi cynlluniau addysg sengl anogwyd awdurdodau lleol, yn enwedig y rheini mewn ardaloedd lle mae cyfran is na'r cyfartaledd o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg, i gynnal arolygon i asesu'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg ymhlith rhieni plant ifanc. Mae'r cynlluniau addysg sengl wedi'u harchwilio bellach ac atgoffwyd yr awdurdodau hynny a nododd nad oeddent yn

bwriadu cynnal arolwg pa mor ddymunol fyddai gwneud hynny. Mae’r rhan fwyaf o’r awdurdodau bellach naill ai wedi cynnal arolwg neu mae ganddynt gynlluniau ar droed i wneud hynny.

**Michael German:** Pa gamau y mae’r Gweinidog yn eu cymryd i sicrhau bod athrawon yn ddiogel rhag trais wrth eu gwaith? (WAQ48945)

**Jane Davidson:** Mae’n hanfodol bod gan benaethiaid yng Nghymru y pwerau angenrheidiol i gynnal ysgol ddiogel.

Mae Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974 yn rhoi’r cyfrifoldeb cyffredinol am iechyd a diogelwch ar gyflogwr unigolyn. Mae gan gyflogwyr ym maes addysg ddyletswyddau i sicrhau, cyn belled ag sy’n ymarferol o fewn rheswm, iechyd, diogelwch a lles athrawon a staff addysg arall, disgyblion yn yr ysgol ac ar ymweliadau oddi ar y safle, ymwelwyr ag ysgolion, a gwirfoddolwyr sy’n ymwneud ag unrhyw weithgaredd ysgol.

Mae’r cyfrifoldeb am iechyd a diogelwch o ddydd i ddydd yn cael ei ddirprwyo i’r pennaeth fel arfer fel rhan o’i gyfrifoldeb ef neu hi am yr ysgol. Fodd bynnag, y cyflogwr sy’n dal yn gyfrifol yn y pen draw, ni waeth pwy sy’n cyflawni’r tasgau. Dylai’r cyflogwr felly gynnal llwybr archwilio, gan ei gwneud yn glir pwy sy’n gwneud beth a chadarnhau bod y tasgau hyn yn cael eu cyflawni.

O dan adran 40 ac Atodlen 13 at Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, mae’r cyfrifoldeb am reoli’r defnydd o safle’r ysgol o ddydd i ddydd yn gorffwys gyda’r corff llywodraethu. Y pennaeth sy’n gyfrifol am reoli’r ysgol o ddydd i ddydd, sy’n cynnwys penderfynu pwy gaiff ddod ar safle’r ysgol. Mae’r penderfyniadau ynglŷn â phwy gaiff ddod i’r ysgol yn gorffwys felly gyda’r corff llywodraethu a’r pennaeth. Mae hyn yn rhoi’r grym i’r pennaeth i wahardd unrhyw un rhag dod ar safle’r ysgol, yn enwedig os yw person ymosodol yn fygythiad i athro neu ddisgybl.

Mae gan ysgolion a’r heddlu rai pwerau eisoes pan fyddant yn amau bod arf ar safle ysgol:
Gall ysgolion:

- chwilio desg neu gwpwrdd disgybl heb gydsyniad y disgybl: eiddo’r ysgol yw’r ddesg neu’r cwpwrdd;
- chwilio bag neu siaced disgybl, gyda chydsyniad y disgybl; a
- gofyn i’r heddlu wneud chwiliad personol.

Gall yr heddlu

- wneud chwiliad personol heb gydsyniad y disgybl;
- fynd i ysgol i chwilio, heb gydsyniad y pennaeth; a
- cynnal chwiliad cyffredinol, heb rybudd ymlaen law, mewn ysgol.

Mae Cymal 42 o Ddeddf Gostwng Lefel Troseddau Difrifol 2006 yn darparu pŵer newydd i benaethiaid i chwilio disgybl y mae ganddynt amheuon rhesymol ei fod yn cario cyllell neu arf arall ar ei berson neu yn ei eiddo. Mater i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yw penderfynu a ddylid cychwyn y pwerau hyn yng Nghymru, a phryd, a bwriadwn ymgynghori ynghylch y cynnig i gyflwyno’r pwerau hyn maes o law.

**Michael German:** Pa gyllid sydd ar gael ar gyfer gosod systemau chwistrellu dŵr mewn ysgolion? (WAQ48946)

**Jane Davidson:** Mae gan awdurdodau lleol eu dyraniadau cyfalaf blynyddol eu hunain (cyllid cyfalaf cyffredinol), derbyniadau cyfalaf a’r drefn benthyca darbodus yn ogystal â grant gwella adeiladau ysgolion Llywodraeth y Cynulliad.

**Peter Black:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyllido prosiectau sylweddol i adeiladu ysgolion? (WAQ48947)

**Jane Davidson:** Mae eu dyraniadau cyfalaf blynyddol eu hunain (cyllid cyfalaf cyffredinol), derbyniadau cyfalaf a'r drefn benthyca darbodus yn ogystal â grant gwella adeiladau ysgolion Llywodraeth y Cynulliad ar gael i'r awdurdodau lleol. Er 2002, mae 1575 o brosiectau wedi cael grant gwella adeiladau ysgolion gan Lywodraeth y Cynulliad, yn cynnwys 140 a oedd yn costio dros £0.5 miliwn. Mae 91 o brosiectau mawr, sy'n costio £191 miliwn, eisoes ar waith neu wedi cael eu cymeradwyo gan ddefnyddio cyfrannau'r awdurdodau o'u cyfandaliad o £9 miliwn o grant gwella adeiladau ysgolion, sydd ar gael dros y cyfnod 2005-06 i 2009-10.

**Peter Black:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gost gweithredu'r cyfnod sylfaen? (WAQ48948)

**Jane Davidson:** Tynnaf eich sylw at bapur ELLS(2) 01-07(papur 5) i'r Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau a'r cynllun gweithredu ar gyfer y cyfnod sylfaen. Gyda'i gilydd mae'r dogfennau hyn yn nodi'r camau gweithredu a'r buddsoddiad y byddwn yn eu rhoi ar waith yn y cyfnod yn arwain at fis Medi 2008 a thu hwnt. Bydd y cyfnod sylfaen yn cael ei gyflwyno ym mis Medi 2008. Mae fy ymrwymiad i'r cyfnod sylfaen yn cael ei ddangos gan ein buddsoddiad cynyddol ynddo ers i'r peilot ddechrau yn 2004-05. Ers hynny mae'r gyllideb wedi cynyddu o £0.5 miliwn i £10 miliwn yn 2007-08. Byddir yn ymdrin â chyllid ar gyfer y dyfodol ym mhob cylch olynol i gynllunio'r gyllideb.

**Mick Bates:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am safonau gofynnol ar gyfer adeiladau ysgolion? (WAQ48949)

**Jane Davidson:** Mae'n rhaid i adeiladau a safleoedd ysgolion gydymffurfio â Rheoliadau Addysg (Safleoedd Ysgolion) 1999, y Safonau Adeiladu i Adeiladau Ysgolion, cylchlythyr 54/97 y Swyddfa Gymreig a'r Safonau Adeiladu i Adeiladau Ysgolion yng Nghymru: Cylchlythyr 03/02 Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Rhaid i newidiadau neu adeiladau newydd gydymffurfio â'r rheoliadau adeiladu a chael eu cymeradwyo gan adain rheoli adeiladu'r awdurdod lleol neu arolygydd cymeradwy. Rhaid cael caniatâd cynllunio hefyd gan yr awdurdod cynllunio perthnasol a rhaid i'r cynlluniau gael eu cyflwyno hefyd i'r swyddog tân lleol.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei pholisïau ar gyfer cefnogi addysg uwch yng Nghymru? (WAQ48950)

**Jane Davidson:** Mae polisïau'r Llywodraeth i gefnogi addysg uwch yng Nghymru wedi cael eu nodi yn 'Ymgeisio yn Uwch' a 'Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith'. Y polisïau yw moderneiddio ymdrechion cydweithredol addysg uwch yng Nghymru, ehangu mynediad yn sylweddol, gwella'r drefn creu incwm, cynyddu gweithgarwch ymchwil a manteisio ar drosglwyddo gwybodaeth er budd yr economi yng Nghymru a chefnogi myfyrwyr o Gymru a'u galluogi i gymryd rhan mewn addysg uwch.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am ei blaenoriaethau ar gyfer y 6 mis nesaf? (WAQ48951)

**Jane Davidson:** Fy mlaenoriaethau o hyd yw cyflawni'r ymrwymiadau yn 'Cymru: Gwlad Well' a 'Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith', gan roi buddiannau dysgwyr yn gyntaf, goresgyn rhwystrau rhag dysgu, hyrwyddo cyfle cyfartal, a disgwyliadau a safonau uchel.

Y terfyn gwariant ariannol ar Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau yw £1.7 biliwn, cynnydd o ryw £165 miliwn neu 10.7 y cant uwchlaw lefelau 2006-07. Mae'r buddsoddiad sylweddol hwn yn ein galluogi i barhau i ddarparu addysg o ansawdd uchel yng Nghymru.

Ar yr un pryd byddwn yn gweithio tuag at gyflawni'r camau gweithredu a nodwyd yn 'Creu'r Cysylltiadau' ac 'Ar Draws Ffiniau' fel y gwneir yn fawr o fanteision buddsoddi mewn addysg.

Yn arbennig, yr ydym yn cysylltu â phartneriaid yn y sectorau cyhoeddus a phreifat i sicrhau bod Cymru yn gwneud yn fawr o'r cyfleoedd i ddefnyddio'r rhaglenni cyllido Ewropeaidd newydd rhwng 2007 a 2012 yn strategol. Bydd hyn yn cynnwys datblygu fframweithiau a phrosiectau strategol ar gyfer y rhaglen gydgyfeirio (yn y Gorllewin) a'r rhaglen cystadleurwydd rhanbarthol (yn y Dwyrain), yn ogystal â chyfleoedd newydd i wella'r cysylltiadau economaidd ag Iwerddon drwy raglen INTERREG III.

**'Cymru: Gwlad Well'**
**Ffioedd atodol**—(Un o'r deg prif ymrwymiad)
O 2006-07, mae gwasanaethau cymorth i fyfyrwyr yn cael eu datganoli i'r Cynulliad. Mae Cyllid Myfyrwyr Cymru yn darparu grantiau a benthyciadau i fyfyrwyr mewn partneriaeth â'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr Cyf a'r awdurdodau lleol. Yn unol â'r ymrwymiad yn y maniffesto, nid oes ffioedd amrywiadwy wedi cael eu cyflwyno yng Nghymru yn ystod tymor cyfredol y Cynulliad ond mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i sicrhau nad yw sefydliadau addysg uwch yng Nghymru yn dioddef yn sgil hynny. I'r perwyl hwn, yn y flwyddyn academaidd gyfredol, mae ffrwd incwm atodol o £33.5 miliwn yn cael ei thalu i sefydliadau addysg uwch.

**Brecwastau ysgol—**(Un o'r deg prif ymrwymiad)
Mae 1,600 yn fras o ysgolion cynradd cymwys yng Nghymru. Cynllun dewisol yw hwn i ysgolion ac i ddisgyblion sy'n mynychu'r ysgolion sy'n cymryd rhan. Mae llawer o fanteision o gymryd rhan yn y cynllun, megis gwella lefelau canolbwyntio ac agwedd plant tuag at ddysgu a rhoi dechrau da i blant i'r diwrnod ysgol.

Ar sail y wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael oddi wrth yr AALlau, cadarnhawyd bod cyfanswm o 357 o ysgolion wedi dechrau gweini brecwast erbyn diwedd tymor yr haf 2006. Yr oedd 199 o ysgolion eraill i fod i gymryd rhan yn ystod tymor yr hydref 2006. Hefyd, mae 114 o ysgolion pellach eisoes wedi ymrwymo i gymryd rhan erbyn diwedd tymor yr hydref 2007. Yr ydym yn parhau i weithio mewn partneriaeth ag ysgolion ac AALlau i gefnogi ac annog manteisio ar y cynllun hwn.

**Adeiladau Ysgolion—**(Un o'r deg prif ymrwymiad)
Yr ydym wedi buddsoddi dros £100 miliwn y flwyddyn mewn adeiladau ysgolion er 2002, ac o 2005-06 ymlaen mae hyn wedi codi i £150 miliwn y flwyddyn ar gyfartaledd. Mae'r buddsoddiad llawn dros oes y Cynulliad hwn yn £660 miliwn erbyn hyn. Mae £7 miliwn ychwanegol wedi cael ei ychwanegu at gyllideb y grant gwella ysgolion i adlewyrchu pwysau chwyddiant ar gostau adeiladu a sicrhau bod cynnydd yn parhau tuag at wneud yn siŵr bod ysgolion mewn cyflwr da yn adeileddol, eu bod yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda a'u bod yn addas i'w pwrpas.

Byddwn yn trafod ac yn cytuno ar ddyddiadau targed gydag AALlau unigol o ran pryd y byddant yn cyrraedd y targedau addasrwydd i'r pwrpas.

Ymysg blaenoriaethau eraill 'Cymru: Gwlad Well' mae:

**Y Blynyddoedd Cynnar—y Cyfnod Sylfaen**
Mae'r cyfnod sylfaen yn cael ei dreialu mewn 42 o ysgolion/sefydliadau ar hyn o bryd—dechreuodd y peilot ym mis Medi 2004 a bydd yn parhau nes i'r cyflwyno statudol ddechrau ym mis Medi 2008. Mae'r peilot yn cwmpasu ystod oedran lawn y cyfnod sylfaen, o dair i saith oed. Ar 4 Rhagfyr cyhoeddais y cynllun gweithredu ar adeiladu'r cyfnod sylfaen, sy'n nodi'r gweithgareddau a'r cerrig milltir o ran cyflwyno'r cyfnod sylfaen.

O ran datblygu a hyfforddi'r gweithlu, bydd rhaglen fawr o hyfforddiant mewn swydd i staff y cyfnod sylfaen—athrawon a staff cymorth—yn cael ei chyflwyno o fis Ebrill 2007. Caiff y rhaglen hon ei gweithredu drwy i'r awdurdodau lleol a sefydliadau addysg uwch weithio mewn partneriaeth â'i gilydd, ar sail consortia rhanbarthol. Mae pecyn o hyfforddiant dwyieithog pum diwrnod yn cael ei baratoi a fydd yn sail i'r rhaglen hyfforddi. Byddwn hefyd yn darparu cyllid i bob awdurdod lleol i gyflogi swyddog hyfforddiant a chymorth i'r cyfnod sylfaen o fis Ebrill 2007.

Hefyd ym mis Ebrill bydd strategaeth gyfathrebu uchel ei phroffil i baratoi ar gyfer cyflwyno'r cyfnod sylfaen yn cael ei sefydlu.

**Gwella Cyraeddiadau a Safonau Unigol mewn Addysg**

Fel rhan o'n hymrwymiad maniffesto i gael yr ysgolion sy'n perfformio waethaf i ddal i fyny â pherfformiad yr ysgolion gorau sy'n gwella'n barhaus, mae rhaglen gwerth £16 miliwn Rhagori yn targedu'r cyswllt rhwng amddifadedd a chyrhaeddiad er mwyn gwella disgwyliadau a chyrhaeddiad addysgol disgyblion difreintiedig o bob oedran. Mae tair elfen gyllido allweddol yn perthyn i'r rhaglen:

1. cyllid i ysgolion targed i gyllido prosiectau a chynlluniau sydd â ffocws, sy'n anelu at gefnogi disgyblion sydd o dan anfantais neu y mae'r perygl mwyaf iddynt dangyflawni—neu adael addysg amser llawn heb unrhyw gymwysterau;
2. cyllid i awdurdodau lleol i'w galluogi i gynorthwyo dysgu plant sy'n derbyn gofal yn well; a
3. bydd y gweddill, drwy gonsortia rhanbarthol, yn cyllido gweithwyr proffesiynol gwella ysgolion i weithio gyda'r AALlau ac ysgolion i ddynodi a rhannu'r arferion gorau a sefydlu sylfaen dystiolaeth gref i seilio cyfeiriad polisi i'r dyfodol a gwerthusiadau allanol arni.

Ymysg y blaenoriaethau am y chwe mis nesaf mae gweithio gyda chonsortia ar ddulliau a chymorth rhanbarthol, cynnal digwyddiadau i rannu'r ymarfer gorau a themâu sy'n dod i'r amlwg yn gynnar, penodi cyd-drefnydd cenedlaethol plant sy'n derbyn gofal, a dyrannu grantiau blwyddyn 2.

**Ymgynghoriadau ynglŷn â'r Cwricwlwm ac Asesu**

Mae'r ymarferiad ymgynghori ynglŷn â'r cwricwlwm diwygiedig i Gymru ar y gweill erbyn hyn. Mae'r ymgynghoriad yn canolbwyntio ar set ddiwygiedig o orchmynion cwricwlwm, fframwaith dysgu'r cyfnod sylfaen, fframwaith addysg bersonol a chymdeithasol diwygiedig i blant saith i 19 oed, fframwaith enghreifftiol cenedlaethol i addysg grefyddol ar gyfer plant tair i 19 oed, fframwaith newydd am yrfaoedd a byd gwaith i ddisgyblion 11 i 19 oed, a fframwaith sgiliau anstatudol i blant tair i 19 oed. Daeth yr ymarferiad ymgynghori am y trefniadau asesu yng nghyfnodau allweddol 2 a 3 i ben ar 12 Ionawr. Mae'r canlyniadau'n cael eu dadansoddi'n fanwl.

**Cymhwyster Bagloriaeth Cymru**

Ar 18 Hydref 2006, cyhoeddais y byddai cymhwyster bagloriaeth Cymru yn cael ei gyflwyno fesul cam i'r holl ddarparwyr dysgu o fis Medi 2007. Gwnaethpwyd y penderfyniad yn sgil gwerthusiad allanol eang gan y Ganolfan Datblygu a Gwerthuso Dysgu Gydol Oes ym Mhrifysgol Nottingham. Yr ydym yn y broses o ddethol canolfannau ar gyfer y cam cyflwyno cyntaf i ddechrau ym mis Medi a chaiff y rhain eu cyhoeddi'n fuan.

Ar hyn o bryd mae cymhwyster bagloriaeth Cymru'n cael ei dreialu ar lefelau 2 (canolradd) a 3 (uwch) o'r fframwaith cymwysterau cenedlaethol mewn darpariaeth ôl-16 mewn 31 o ysgolion a cholegau. O fis Medi 2006 mae model lefel 1 (sylfaen) hefyd yn cael ei dreialu ochr yn ochr â'r model canolradd mewn darpariaeth 14-19 mewn 18 o ganolfannau.

**Llwybrau Dysgu 14-19 ac Ymestyn Hawliau**

Mae darparu gwell opsiynau a chyfleoedd i bobl ifanc yn golygu mwy o gydweithredu rhwng partneriaid, yn cynnwys ysgolion, colegau a darparwyr gwasanaethau eraill. Mae'r canllawiau ar y llwybrau dysgu 14-19 a'n polisïau Ymestyn Hawliau eisoes yn dwyn ffrwyth o ran datblygu trefniadau gwaith wedi'u seilio ar bartneriaethau a rhwydweithiau i symud cynlluniau cyflenwi ymlaen a darparu cyfle a dewis gwirioneddol i bobl ifanc ledled Cymru. Mae ymrwymiad sylweddol i'r llwybrau dysgu—£8.5 miliwn yn 2006-07 a £32.5 miliwn yn 2007-08. Bydd chwe elfen allweddol y llwybrau dysgu yn sicrhau, dros

amser, y bydd pob dysgwr 14-19 yn cael y cydbwysedd priodol o brofiadau dysgu sy'n diwallu ei anghenion orau.

Mae pob un o'r 22 o rwydweithiau 14-19 yn gyfrifol am sicrhau amrywiaeth o raglenni a'r cymorth angenrheidiol i sicrhau bod dysgwyr yn gallu cyrchu at bob agwedd o'r llwybrau dysgu 14-19. Mae pob rhwydwaith yn rhoi cynllun datblygu rhwydweithiau blynyddol cynhwysfawr ar waith yn 2006-07 ac mae'r rhain yn symud pob un o chwe elfen y llwybrau dysgu 14-19 ymlaen.

**Addysg cyfrwng Cymraeg**
Mae'r cynllun sabothol iaith Gymraeg yn dangos fy ymrwymiad i gefnogi addysg cyfrwng Cymraeg ac i fuddsoddi yn y proffesiwn yng Nghymru. Mae'r cynllun yn darparu hyfforddiant trochi a methodoleg dwys yn y Gymraeg i annog ymarferwyr i addysgu, darlithio neu hyfforddi drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog.

Pwrpas y cynllun yw targedu ymarferwyr mewn ysgolion, AB a chyda darparwyr hyfforddiant seiliedig ar waith sydd eisoes yn siarad Cymraeg yn weddill rugl, un ai fel siaradwyr mamiaith neu fel dysgwyr rhugl, ond nad yw'r hyder neu'r derminoleg arbenigol ganddynt yn y Gymraeg i ddefnyddio'r sgiliau hynny mewn cyd-destun proffesiynol. Mae'r cwrs felly yn cynnig hyfforddiant iaith dwys ar gyfer y cyd-destun addysgol i alluogi ymarferwyr o'r fath i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog pan fyddant yn dychwelyd i'w man gwaith.

Yn dilyn adborth gan y proffesiwn addysg, mae amrywiad i'r peilot yn cael ei gyflwyno ym mis Ionawr 2007 ar ffurf cwrs dysgu o bell.

Mae cynlluniau i raddol gyflwyno'r cynllun o fis Medi 2007, yn unol â'm hymrwymiad fel y'i nodwyd yn 'Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith', yn cael eu llunio, gan adlewyrchu'r canfyddiadau o'r gwerthusiad allanol o'r peilot.

**Y Strategaeth Sgiliau Sylfaenol**
Mae'r strategaeth sgiliau sylfaenol ar ei newydd wedd, 'Geiriau'n Galw—Rhifau'n Cyfri', yn cynnwys camau gweithredu ar draws pob grŵp oedran ac ym mhob sector i baratoi plant ifanc yn well ar gyfer dysgu pan fyddant yn dechrau'r ysgol ac i leihau'r nifer o blant, pobl ifanc ac oedolion sydd â lefelau isel o lythrennedd a rhifedd. Mae ail gam y strategaeth yn canolbwyntio tipyn mwy ar y rhai sy'n fwyaf eu hangen, er enghraifft drwy dargedu ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf i gael cymorth dwys.

Yn fyr, bydd ymgyrch newydd yn cael ei lansio i'r diben o godi lefelau llythrennedd mewn ysgolion cynradd. Yr ymgyrch ar gyfer 2006-07 yw 'Darllenwch Filiwn o Eiriau yng Nghymru'. Nod yr ymgyrch hon yw annog agweddau positif tuag at ddarllen ymysg y gynulleidfa darged, sef plant ysgol gynradd, yn enwedig y rhai sy'n mynychu ysgolion mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf ac ardaloedd eraill o anfantais sylweddol.

**Cynlluniau Braenaru**
Dros y chwe mis nesaf, mae'r blaenoriaethau o ran y rhaglen o gynlluniau braenaru daearyddol yn cynnwys cwblhau'r gwaith o ddatblygu fframwaith canllawiau trosfwaol er mwyn bwrw ymlaen i roi prosiectau braenaru ar waith: bwrw iddi i weithredu'r pedwar cynllun braenaru sydd wedi cwblhau ymgynghoriad cychwynnol (Dyffryn Dyfi, Rhondda Cynon Taf, Blaenau Gwent a Merthyr Tudful), a nodi'r pedair ardal y byddir yn ymchwilio iddynt yn y cylch nesaf o gynlluniau braenaru.

Yn y tymor hwy, mae ein hymrwymiadau i gyd yn cael eu hailddatgan yn 'Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith'.

**Karen Sinclair:** Pa gamau sy'n cael eu cymryd i annog pobl i ddilyn llwybrau dysgu galwedigaethol yng Nghymru? (WAQ48952)

**Jane Davidson:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gryf o blaid dysgu galwedigaethol. Yn wir, mae Megan, y dysgwr dychmygol yr wyf yn sôn amdani yn fy rhagymadrodd i'r ddogfen bolisi ddiweddar, 'Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith', yn penderfynu dilyn llwybr galwedigaethol, sef prentisiaeth fodern mewn peirianneg. Arwydd bellach o'r gefnogaeth gref i ddysgu galwedigaethol oedd y ffaith fy mod wedi penodi hyrwyddwr sgiliau galwedigaethol i gynyddu'r galw am sgiliau galwedigaethol ymysg cyflogwyr ac i weithio gydag ysgolion, colegau a darparwyr eraill i wella ystod ac ansawdd y ddarpariaeth alwedigaethol. Mae amrywiaeth eang o gynlluniau eraill wedi cael eu rhoi ar waith hefyd.

Ym mis Tachwedd 2005, cynhyrchodd fy Nirprwy Weinidog, Christine Chapman, adroddiad yn nodi ei hargymhellion er mwyn symud rhaglen y llwybrau dysgu 14-19 ymlaen. Nod y rhaglen hon yw trawsnewid y cyfleoedd addysg a hyfforddiant sydd ar gael i bobl ifanc yng Nghymru. Mae'n ofynnol o dan y rhaglen fod pob disgybl yn gallu cyrchu at addysg sy'n canolbwyntio ar waith ac wrth wneud hynny mae'n rhoi mwy o bwyslais ar bwysigrwydd dysgu galwedigaethol. Cynhyrchwyd cynllun gweithredu ym mis Mawrth 2006 ac un o amcanion allweddol y cynllun gweithredu oedd ystyried sut y mae modd datblygu'r cymwysterau galwedigaethol presennol i bobl ifanc 14 i 16 ac 16 i 19 oed ac ychwanegu atynt er mwyn darparu elfen gref o gymwysterau galwedigaethol mewn llwybrau dysgu.

Fel rhan o raglen y llwybrau dysgu 14-19, mae fy swyddogion yn gweithio gyda'r cynghorau sgiliau sector i ddatblygu llwybrau dysgu sy'n seiliedig ar waith (prentisiaethau cyfun). Mae'r cynghorau sgiliau sector yn gweithio'n agos gyda rhwydweithiau 14-19, ysgolion, colegau, darparwyr hyfforddiant a chyflogwyr i ddatblygu rhaglenni peilot a fydd yn cyfuno astudio yn yr ysgol gyda phrofiad ymarferol mewn sefyllfa waith. Mae gwaith datblygu ar y gweill yn y sectorau gweithgynhyrchu, adeiladu a modurol ac mae gwaith yn mynd rhagddo hefyd gyda sawl cyngor sgiliau sector arall i fwrw ymlaen â llwybrau ychwanegol. Disgwyliaf i'r cynlluniau peilot cyntaf ddechrau ym mis Medi 2007.

Yr wyf hefyd wedi sefydlu tasglu 14-19 ymgysylltu â chyflogwyr ac, yn gynharach y mis hwn, cyhoeddasom ddogfen ymgynghori am fframwaith cwricwlwm ar gyfer gyrfaoedd a byd gwaith.

Fel rhan o'r adolygiad o'r rhaglen ddysgu seiliedig ar waith, un o'r themâu canolog yw ail-ddylunio cyfleoedd dysgu galwedigaethol a'u gwneud yn fwy hygyrch fel eu bod yn opsiwn dichonadwy i'r bobl hynny sy'n ceisio rhywbeth amgenach na dysgu academaidd pur. Mae'r adolygiad o'r rhaglen dysgu seiliedig ar waith yn amserol gan y gallai agor rhagor o gyfleoedd wrth ddatblygu'r rhaglen llwybrau dysgu 14-19.

Mae pob rhwydwaith ardal leol 14-19 wedi cynnwys addysg alwedigaethol yn ei gynllun blynyddol datblygu rhwydweithiau ar gyfer 2006-07. Mewn llawer o achosion mae hyn wedi golygu llwybrau galwedigaethol newydd gyda phartneriaethau'n cael eu llunio rhwng ysgolion, sefydliadau AB a/neu ddarparwyr dysgu seiliedig ar waith. Mae rhai rhwydweithiau ardal leol yn cynllunio i ddefnyddio eu dyraniad cyfalaf i ailwampio canolfannau sgiliau galwedigaethol neu i godi canolfannau newydd o'r fath ar gyfer y grŵp oedran hwn. Mae'n ofynnol i bob rhwydwaith ardal leol gynnwys addysg gysylltiedig â gwaith yn eu cynlluniau blynyddol datblygu rhwydweithiau.

Mae cymhwyster bagloriaeth Cymru wedi cael ei dreialu'n llwyddiannus mewn 31 o ysgolion a cholegau ar draws Cymru ar y lefel Uwch a Chanolradd. Gan adeiladu ar hyn, mae model lefel sylfaen yn cael ei dreialu. Yn sgil y gwerthusiad positif o fagloriaeth Cymru gan Brifysgol Nottingham, bydd yn cael ei chyflwyno'n raddol mewn darpariaeth ôl-16 o fis Medi 2007. Cynlluniwyd rhaglen bagloriaeth Cymru'n benodol fel bod modd cynnwys cymwysterau galwedigaethol ac i roi'r un gydnabyddiaeth i lwybrau academaidd a galwedigaethol, ond gan fynnu hefyd fod pob dysgwr yn datblygu sgiliau ar gyfer y gweithle.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd yn cyllido dau beilot a nifer o gynlluniau datblygu dwyieithog ar gyfer darpariaeth ar y cyd rhwng ysgolion a cholegau sy'n ceisio ehangu'r ddarpariaeth a'r niferoedd sy'n manteisio ar lwybrau dysgu galwedigaethol, a llwybrau dysgu sy'n berthnasol i waith galwedigaethol, drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog.

Yn olaf, mae nifer o gynlluniau marchnata un ai wedi cael eu lansio, neu byddant yn cael eu lansio'n fuan, i annog rhagor o bobl i fanteisio ar ddarpariaeth alwedigaethol yng Nghymru:

- Sgiliau. Pobl. Llwyddiant—am y tro cyntaf, mae'r holl nwyddau/gwasanaethau yn ymwneud â sgiliau sy'n cael eu cynnig i fusnesau yng Nghymru gan yr adran Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau yn cael eu hyrwyddo dan faner rhaglen datblygu'r gweithlu. Mae cynghorwyr datblygu adnoddau dynol yn gweithio dan gontract i gynnig y gwasanaeth hwn i fusnesau;
- 'An Employer's, and Individual's Guide to Apprenticeships'—mae'r canllawiau hyn yn cael eu cynhyrchu ac maent yn cynnwys chwe astudiaeth achos am sectorau penodol sy'n dangos manteision dysgu seiliedig ar waith i fusnesau;
- 'Eich Arweiniad i Hyfforddiant a Chyflogaeth'—adnodd a ddatblygwyd ar gyfer asiantaethau cyfeirio sy'n cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am gyfleoedd hyfforddi a chyllido. Mae'r llyfryn wedi cael ei ddosbarthu i holl swyddfeydd rhanbarth Gyrfa Cymru, Canolfan Byd Gwaith a chanolfannau Learn Direct;
- Ble Nawr—ymgyrch flynyddol sy'n rhoi gwybodaeth i bobl ifanc am yr ystod lawn o opsiynau ôl-16, a ddatblygwyd ar y cyd â Gyrfa Cymru;
- dyfarniadau prentisiaethau modern—yn dathlu'r safonau uchel y mae llawer o gyflogwyr, cyrff dyfarnu ac ymgeiswyr sy'n ymwneud â phrentisiaethau modern yn eu cyrraedd;
- cronfa ddata o ddewisiadau dysgu—cyfleuster chwilio ar y we sy'n darparu gwybodaeth am yr holl gyfleoedd dysgu ôl-16. Cafodd y gronfa ddata ei datblygu mewn cysylltiad â Gyrfa Cymru /Learn Direct ac fe'i lansiwyd yn yr hydref.

**Laura Anne Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddysgu llythrennedd a rhifedd yn ysgolion Cymru? (WAQ48953)

**Jane Davidson:** Nid yw llythrennedd a rhifedd yn cyfateb yn uniongyrchol i bynciau'r cwricwlwm cenedlaethol, ac nid ydynt yn cael eu hasesu'n statudol. Fodd bynnag, mae gorchmynion y cwricwlwm cenedlaethol ar gyfer Saesneg, Cymraeg a mathemateg yn nodi'r wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth y dylai disgyblion eu caffael ac mae cysylltiad agos rhyngddynt â datblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd. Mae angen i ysgolion ddarparu cyfleoedd i ddisgyblion i ddatblygu'r sgiliau a nodir yn y rhaglenni astudio ar gyfer pob cyfnod allweddol. Nid ydym yn ceisio pennu sut mae ysgolion ac athrawon i gyflawni'r gofynion hyn ond mae cymorth ac arweiniad yn cael eu darparu drwy strategaethau'r awdurdodau addysg lleol ar lythrennedd a rhifedd a thrwy ein strategaeth sgiliau sylfaenol, 'Geiriau'n Galw—Rhifau'n Cyfri'. Mae hon, er enghraifft, yn darparu cyllid a chymorth i ysgolion i ennill y nod ansawdd sgiliau sylfaenol a, thrwy grantiau ymyrryd strategol, mae'n darparu cymorth ar gyfer rhaglenni fel dosbarthiadau dal i fyny. Yr ydym yn cydnabod y pwysigrwydd y mae cyflogwyr yn ei roi ar gyfathrebu a chymhwyso sgiliau rhif ac yr ydym wedi ymateb gyda chymorth a buddsoddiad parhaus yn y cymwysterau sgiliau allweddol. Mae sgiliau allweddol wrth galon bagloriaeth Cymru, maent yn y fframweithiau prentisiaethau modern ac yn y craidd dysgu 14-19. Dylai ysgolion werthuso'r ffordd y maent yn dysgu llythrennedd a rhifedd yng ngoleuni tystiolaeth a chanllawiau o arolygiadau Estyn.

**Carl Sargeant:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cwricwlwm yn ysgolion Cymru? (WAQ48954)

**Jane Davidson:** Ar 8 Ionawr cyhoeddais ymgynghoriad ynghylch y trefniadau diwygiedig arfaethedig ar gyfer y cwricwlwm yn ysgolion Cymru.

Mae'r cynigion hyn yn ategu nod Llywodraeth y Cynulliad o sicrhau y bydd y trefniadau newydd i ysgolion o ran y cwricwlwm, asesu a chymwysterau yn hyrwyddo dull sy'n canolbwyntio mwy ar y dysgwr, yn canolbwyntio ar sgiliau, yn adeiladu ar y cyfnod sylfaen ac yn cysylltu'n effeithiol â rhaglen y llwybrau dysgu 14-19.

Bydd datblygu un fframwaith i system gwricwlwm, asesu a chymwysterau o 3 i 19 oed yn help i godi safonau ac ehangu cyfleoedd.

Mae pecynnau ymgynghori sy'n cynnwys y cynigion o ran gorchmynion diwygiedig i bynciau'r cwricwlwm cenedlaethol wedi cael eu hanfon i ysgolion a chyrff sydd â diddordeb. Mae ymgynghoriadau wedi cael eu lansio ar yr un pryd am addysg bersonol a chymdeithasol, gyrfaoedd a byd gwaith, sgiliau, addysg grefyddol a'r cyfnod sylfaen.

Mae copïau o'r pecynnau ymgynghori ar gael drwy wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru www.wales.gov.uk/consultations. Y dyddiad cau er mwyn ymateb yw 31 Mawrth 2007.

Mae'r pecynnau ymgynghori yn cynnwys cynigion am:

- orchmynion pwnc diwygiedig o dan y Cwricwlwm Cenedlaethol i Saesneg, Cymraeg (yn cynnwys Cymraeg fel ail iaith), mathemateg, gwyddoniaeth, dylunio a thechnoleg, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, hanes, daearyddiaeth, celf a dylunio, cerddoriaeth, ac addysg gorfforol;
- fframwaith diwygiedig i addysg bersonol a chymdeithasol;
- fframwaith ar gyfer gyrfaoedd a byd gwaith;
- fframwaith sgiliau anstatudol;
- fframwaith enghreifftiol cenedlaethol ar gyfer addysg grefyddol; a
- fframwaith i'r cyfnod sylfaen ar ddysgu plant.

Bydd y gorchmynion pwnc diwygiedig a'r fframweithiau ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol a gyrfaoedd a byd gwaith yn help i gyflawni amcanion ehangach y Llywodraeth, yn cynnwys hyrwyddo:

- gwell pontio o gyfnod allweddol 2 i gyfnod allweddol 3;
- addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang;
- byd gwaith ac entrepreneuriaeth; a
- bwyta'n iach a gweithgarwch corfforol.

**William Graham:** A wnaiff y Gweinidog nodi faint o wersi a gollwyd mewn ysgolion yng Nghymru oherwydd difrod i ystafelloedd dosbarth ers dechrau'r flwyddyn academaidd hon? (WAQ48955)

**Jane Davidson:** Nid yw'r wybodaeth hon yn cael ei chasglu'n ganolog.

**William Graham:** A wnaiff y gweinidog ddatganiad am ganran y disgyblion ysgolion uwchradd yng Nghymru sy'n ennill cymhwyster mewn Mathemateg a Saesneg? (WAQ48956)

**Jane Davidson:**
TGAU A* i C
Mae canlyniadau TGAU 2006 yn dangos bod y ganran o ddisgyblion 15 oed a enillodd TGAU ar radd C neu'n uwch ym mhob un o'r canlynol—Saesneg, mathemateg neu Gymraeg fel iaith gyntaf—yn:

- 58 y cant mewn Saesneg;
- 50 y cant mewn mathemateg, a
- 10 y cant mewn Cymraeg fel iaith gyntaf.

Enillodd 54 y cant o'r garfan bum TGAU neu fwy ar raddau A* i C yn 2006. Yr oedd 81 y cant o'r llwyddiannau hyn ar lefel TGAU yn cynnwys Saesneg/Cymraeg iaith gyntaf a mathemateg.

Mae hyn yn golygu bod 44 y cant o ddisgyblion 15 oed wedi ennill pum TGAU neu fwy ar raddau A* i C, yn cynnwys Saesneg neu Gymraeg fel iaith gyntaf a mathemateg.

Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o 2 bwynt canran yn y gyfran a gyrhaeddodd y dangosydd yng Nghymru yn 2005. Mae'r cynnydd yn unol â'r cynnydd cyffredinol mewn disgyblion yn ennill pum A* i C, gan ddangos nad yw ein cynnydd yn erbyn y dangosydd allweddol hwn yn cael ei gyflawni ar draul sgiliau craidd iaith a rhif.

TGAU A* i G
Y ganran o ddisgyblion 15 oed a enillodd TGAU ar radd G neu'n uwch ym mhob un o'r canlynol—Saesneg, mathemateg neu Gymraeg fel iaith gyntaf—oedd:

- 89 y cant mewn Saesneg;
- 89 y cant mewn mathemateg; a
- 13 y cant mewn Cymraeg fel iaith gyntaf.

Enillodd 84 y cant o ddisgyblion 15 oed bum TGAU neu fwy ar raddau A* i G, yn cynnwys Saesneg neu Gymraeg fel iaith gyntaf a mathemateg.

**Owen John Thomas:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion costau'r arolwg a gynhaliwyd gan Awdurdod Addysg Lleol Casnewydd i bennu'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg—gan gynnwys manylion am y costau i'r awdurdod addysg lleol a'r costau i Fwrdd yr Iaith Gymraeg? (WAQ48979) [W]

**Jane Davidson:** Cyfrannodd Bwrdd yr Iaith Gymraeg £2,500 tuag at gost yr arolwg ar y ddealltwriaeth y gellid defnyddio'r gwaith yng Nghasnewydd fel model addas i'w ddefnyddio'n ehangach, gyda newidiadau fel y bo angen, mewn ardaloedd AALlau eraill. Nid yw manylion am gyfanswm y gost yn wybodaeth gyhoeddus am eu bod yn destun contract masnachol rhwng Awdurdod Addysg Lleol Casnewydd a'r cwmni a wnaeth y gwaith.

**Leanne Wood:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y camau y mae hi'n eu cymryd i weithredu argymhellion adolygiad polisi'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes o gludiant i'r ysgol a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2005? (WAQ48984).

**Jane Davidson:** Yr oedd adroddiad y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes yn cynnwys 30 o argymhellion, yn cynnwys pump i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Gwneuthum ddatganiad ysgrifenedig ar 14 Mehefin 2005, yn derbyn tri o'r argymhellion a wnaethpwyd i Lywodraeth y Cynulliad, sef:
*Argymhelliad 2.28*
*Nid yw'n glir beth yw'r sefyllfa gyfreithiol ynghylch pwy sy'n gyfrifol am ddiogelwch drwy bob agwedd ar y daith ysgol. Ar wahân i reoliadau statudol perthnasol, y mae cyfrifoldebau amrywiol yr ysgolion, AALlau, y gweithredwyr bysiau, y rhieni a'r disgyblion wedi cael eu pennu dros y blynyddoedd gan gyfraith achosion. Ond y mae pob achos yn unigryw, ac felly y mae'r sefyllfa gyfreithiol braidd yn niwlog. Argymhellwn y dylai Llywodraeth y Cynulliad gyhoeddi canllawiau i egluro cyfrifoldebau ac atebolrwydd cyfreithiol.*

*Argymhelliad 2.35*
*Dylai Llywodraeth y Cynulliad, mewn ymgynghoriad ag AALlau ac ysgolion, gyhoeddi canllawiau ar baratoi codau ymddygiad ar gyfer cludiant ysgol, a dylid cynnwys ymgynghori â disgyblion yn y codau ymddygiad.*

*Argymhelliad 2.48*
*Dylai Llywodraeth y Cynulliad adolygu'r arferion presennol o ran asesu risg, ynghyd ag unrhyw ymchwil academaidd berthnasol, a chyhoeddi canllawiau i ysgolion ac AALlau.*

Yr ydym yn ymgynghori ynghylch canllawiau newydd sy'n cyflawni argymhelliad 2.28. Bydd y canllawiau'n cyflwyno dehongliad Llywodraeth y Cynulliad o'r gyfraith, gan ei gwneud yn glir bod y gyfraith yn agored i gael ei dehongli gan y llysoedd, ond byddant yn gwneud ein disgwyliadau'n glir.

O ran argymhelliad 2.35, bydd y canllawiau'n annog AALlau i sefydlu codau ymarfer a luniwyd mewn ymgynghoriad ag ysgolion a disgyblion. Mae'r canllawiau drafft yn pwysleisio pwysigrwydd cael sancsiynau a dulliau effeithiol o roi gwybod am ddigwyddiadau.

Yn fy natganiad i'r pwyllgor am argymhelliad 2.48, nodais y byddai'r uned teithio cynaliadwy yn noddi adolygiad. Mae chwe AALl wedi cytuno i gymryd rhan mewn ymarferiad: Sir y Fflint, Sir Ddinbych,

Ynys Môn, Castell-nedd Port Talbot, Casnewydd a Bro Morgannwg. Mae'r gwaith yn cael ei wneud gan yr ymgynghorwyr, Halcrow.

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi sicrhau darpariaeth yn Neddf Addysg ac Arolygiadau 2006 a fydd yn galluogi'r Cynulliad i lunio Mesur ynglŷn â siwrneiau dysgwyr ar ôl y newidiadau ym mis Mai 2007 i bwerau deddfwriaethol y Cynulliad.

**Peter Black:** Beth sy'n cael ei wneud i sicrhau bod disgyblion ym mhob ysgol drwy Gymru'n gallu gweld cwnselydd hyfforddedig? (WAQ49042)

**Jane Davidson:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru, gyda mewnbwn gan bartneriaid allanol, yn cynnwys Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru, yn cwblhau strategaeth genedlaethol ddrafft am wasanaethau cwnsela mewn ysgolion ar ei gwedd derfynol. Bydd y strategaeth yn help i weithredu rhai agweddau o'r fframwaith gwasanaeth cenedlaethol ac o argymhelliad Comisiynydd Plant Cymru yn yr adroddiad am ymchwiliad Clywch.

Caiff y strategaeth ei chyhoeddi'n fuan er mwyn ymgynghori. Yr wyf wedi ymrwymo i'w chyflwyno i'r Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau fel rhan o'm hadroddiad fel Gweinidog ym mis Chwefror. Y bwriad yw cyhoeddi'r strategaeth derfynol yn yr hydref. Agwedd allweddol fydd sicrhau bod gan gwnselwyr gymwysterau a hyfforddiant priodol a'u bod yn gweithio o fewn fframweithiau cadarn. Bydd ymchwil sy'n cael ei chomisiynu ar hyn o bryd i werthuso effeithiolrwydd gwasanaethau presennol yng Nghymru ac mewn mannau eraill hefyd yn sail i'r gwaith o ddatblygu'r strategaeth.

Byddaf hefyd yn cyhoeddi dyraniad yr arian grant o £200,000 y flwyddyn yn 2006-07 a 2007-08 er mwyn ehangu'r gwasanaethau cwnsela sydd ar gael yng Nghymru ar hyn o bryd.

**Kirsty Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i gynorthwyo myfyrwyr aeddfed â dibynyddion i ddychwelyd i addysg uwch? (WAQ49045)

**Jane Davidson:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn darparu ystod o gymorth ychwanegol ar hyn o bryd i fyfyrwyr addysg uwch sydd â dibynyddion: mae hyn yn cynnwys y grant gofal plant, y lwfans dysgu i rieni a grant oedolion dibynnol.

Mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd yn darparu cyllid dewisol ar ffurf cronfeydd ariannol wrth gefn, a fwriedir i gynorthwyo myfyrwyr sy'n wynebu caledi ariannol i dalu costau llyfrau, teithio, gofal plant, llety a threuliau byw cyffredinol.

**Michael German:** A yw'r Gweinidog wedi ystyried gweithio gyda Chymdeithas y Pridd a'r Gronfa Loteri Fawr i ymestyn y cynllun Bwyd ar gyfer Byw i ysgolion Cymru? (WAQ49053)

**Jane Davidson:** Cyllidwyd y bartneriaeth Bwyd ar gyfer Byw dan raglen les y Gronfa Loteri Fawr. Cafodd y rhaglen hon ei datblygu gan y Gronfa Loteri Fawr yn unol â'i chyfarwyddiadau polisi yn Lloegr. Mae'r cyfarwyddiadau polisi hyn yn wahanol i'r rhai sy'n rheoli gwaith y Gronfa Loteri Fawr yng Nghymru, y cytunwyd arnynt gan y Gronfa Loteri Fawr, yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a Llywodraeth Cynulliad Cymru. Nid yw felly'n briodol ymestyn y rhaglen hon i Gymru.

Yn unol â'i chyfarwyddiadau polisi yng Nghymru, mae'r Gronfa Loteri Fawr wedi lansio'r cynllun teuluoedd iach, a fydd yn llunio cysylltiadau rhwng chwarae, maeth a gweithgarwch corfforol plant er mwyn hyrwyddo ffyrdd egnïol ac iach o fyw ymysg plant a'u teuluoedd. Mae'r cynllun yn cynnwys dwy raglen. Bydd Chwarae Plant yn canolbwyntio ar weithgareddau chwarae plant a bydd Ffordd o Fyw yn edrych ar ffyrdd o hyrwyddo bwyta'n iach a gweithgarwch gan blant mewn sefyllfa deuluol.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru eisoes yn gweithio'n agos gyda phartneriaid yn y rhaglen Bwyd ar gyfer Byw i helpu i weithredu rhai o'r argymhellion yn y cynllun gweithredu bwyd a ffitrwydd. Yn benodol, mae'r Ymddiriedolaeth Addysg Iechyd yn helpu gyda'r gwaith o ddatblygu canllawiau ar bolisïau bwyd a ffitrwydd i ysgolion, mae Design Dimension Educational Trust yn darparu ein bws coginio, ac mae Cymdeithas y Pridd yn cael ei chynrychioli ar y gweithgor bwyd mewn ysgolion. Bydd eu harbenigedd yn parhau i fod ar gael inni.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad

**Glyn Davies:** Yn dilyn WAQ48287 beth oedd cost derfynol yr ymweliad (gan gynnwys yr awyren a'r llety ar gyfer y Gweinidog a'r ddau a fu'n gydymaith iddo)? (WAQ48974)

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad (Carwyn Jones):** Yr oedd cost lawn y tocynnau hedfan a llety ar gyfer yr ymweliad yn £7,385.45.

**Glyn Davies:** Faint o ffermydd cŵn bach sydd wedi cael cymorth gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac ar ba ddyddiadau y cytunwyd i'r ceisiadau am gymorth ariannol? (WAQ48975)

**Carwyn Jones:** Dim un.

**Peter Black:** A fyddai'r Gweinidog yn barod i ystyried gorchymyn archwiliad post mortem ar gelanedd adar a waredwyd yn ardal Beulah, Powys i benderfynu beth achosodd eu marwolaeth? (WAQ48980)

**Peter Black:** Pa ganllawiau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n eu rhoi ar gyfer gwaredu celanedd adar hela? (WAQ48981)

**Peter Black:** A yw'r Gweinidog yn ymwybodol y canfuwyd dros fil o gelanedd adar hela wedi'u gwaredu mewn pydew yn ardal Beulah, Powys, ac os felly, beth y mae'n ei wneud yn ei gylch? (WAQ48982)

**Carwyn Jones:** Nid ystyrir bod yr achos hwn o waredu celanedd adar hela ar ôl helfa yn creu risg i iechyd y cyhoedd nac iechyd anifeiliaid. Nid yw'r pydew dan sylw, a oedd ar dir preifat, yn cael ei ddefnyddio mwyach ac mae wedi cael ei orchuddio. Fodd bynnag, mae ymchwiliadau'n parhau i ganfod a yw'r arfer hwn yn groes i ofynion y rheoliad sgil-gynhyrchion anifeiliaid

**Lorraine Barrett:** A wnaiff y Gweinidog fanylu ynghylch yr ystyriaeth a roddwyd i gynnwys cynhyrchion â safonau lles uchel, megis Freedom Foods, yn ryseitiau Gwir Flas Cymru? (WAQ48992)

**Carwyn Jones:** Mae safonau lles yn y diwydiant bwyd, yng Nghymru ac yng ngweddill y DU, o safon uwch nag mewn llawer o rannau eraill o'r byd ac mae ryseitiau'r Gwir Flas wedi'u seilio ar gynhyrchion o Gymru sydd wedi cael eu hachredu ar sail eu hansawdd.

**Elin Jones:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion amserlen ar gyfer cyflwyno ID electronig i ddefaid a geifr yng Nghymru? (WAQ49046)

**Carwyn Jones:** Mae'n ofynnol yn ôl rheoliad 21/2004 cyngor Ewrop fod ID electronig yn cael ei gyflwyno i ddefaid a geifr o 1 Ionawr 2008. Mae gofyn i'r Comisiwn Ewropeaidd gyhoeddi adroddiad am weithredu'r ID electronig a chynigion i gadarnhau neu newid dyddiad gorfodol 2008. Mae'r adroddiad yn hwyr ond fe'i disgwylir yn fuan.

**Elin Jones:** A wnaiff y Gweinidog roi asesiad o gost cyflwyno'r ID electronig ar gyfer defaid a geifr yng Nghymru i (i) ffermwyr (ii) lladd-dai? (WAQ49047)

**Carwyn Jones:** (i) Mae'r diwydiant defaid yng Nghymru yn amrywiol a bydd y costau'n amrywio; i ddiadell o 1,000 o famogiaid amcangyfrifir y bydd cyflwyno ID electronig yn costio oddeutu 77c y ddafad yn y flwyddyn gyntaf a 54c y ddafad yn y blynyddoedd dilynol.

Mae hyn yn rhagdybio y bydd y rhanddirymiad lladd dan erthygl 4.3 o reoliad 21/2004 y cyngor yn cael ei weithredu ac mae'n ystyried costau'r offer gosod, y darllenyddion a'r tagiau.

Mae'r costau wedi'u seilio ar y prisiau cyfredol ac mae disgwyl iddynt ostwng yn sylweddol wrth i'r dechnoleg wella ac wrth fanteisio ar arbedion maint.

(ii) Nid oes amcangyfrifon o'r costau o gyflwyno ID electronig yn lladd-dai Cymru ar gael gan na phenderfynwyd eto sut y caiff y rheoliad ei weithredu.

## Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid

**William Graham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am drafodaethau gyda Llywodraeth y DU ynghylch ailbrisio eiddo er mwyn pennu'r dreth gyngor? (WAQ48957)

**Y Gweinidog Cyllid (Sue Essex):** Nid wyf wedi cael unrhyw drafodaethau gyda Llywodraeth y DU am ailbrisio at ddibenion y dreth gyngor.

**William Graham:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r canllawiau sydd i'w rhoi i awdurdodau lleol yng Nghymru ar gyfer pennu praeseptau'r dreth gyngor ar gyfer 2007-08? (WAQ48958)

**Sue Essex:** Yr wyf wedi darparu manylion setliad llywodraeth leol fel y'i cymeradwywyd gan y Cynulliad ar 17 Ionawr i'r awdurdodau lleol. Mae'r awdurdodau lleol wrthi'n ystyried eu cyllidebau a'u gofynion cysylltiol o ran y dreth gyngor ar hyn o bryd. Yr wyf yn hyderus y bydd yr awdurdodau unedol ac awdurdodau'r heddlu mor rhesymol wrth bennu eu cyllidebau ag y buont dros y ddwy flynedd diwethaf. Fy marn i yw na ddylai'r cynnydd yn y dreth gyngor fod yn fwy na 5 y cant yn 2007-08.

**Karen Sinclair:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gefnogi cynghorau cymuned yng Nghymru? (WAQ48959)

**Sue Essex:** Nod polisi Llywodraeth y Cynulliad yw gwella rôl, swyddogaethau a photensial cynghorau cymuned a thref fel cyrff statudol sy'n cael eu hethol yn lleol. Ymysg y mesurau sydd ar waith eisoes mae noddi Un Llais i Gymru, datblygu pecyn cymorth a siarter enghreifftiol i hwyluso perthnasoedd effeithiol gydag awdurdodau unedol a chynhyrchu strategaeth hyfforddi genedlaethol.

Yr ydym yn dal i weithredu'r ymrwymiadau a wnaethom mewn ymateb i'r argymhellion yn astudiaeth ymchwil Prifysgol Cymru, Aberystwyth, i rôl a swyddogaethau cynghorau cymuned a thref yng Nghymru a'u potensial i'r dyfodol. Cyhoeddwyd adroddiad diweddaru am yr hyn sy'n cael ei gyflawni ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Ar adeg pan mai blaenoriaeth bennaf Llywodraeth y Cynulliad yw gwella gwasanaethau cyhoeddus dros y blynyddoedd nesaf, mae gan gynghorau cymuned a thref rôl arwyddocaol i'w chwarae yn sicrhau'r ffocws ar ddinasyddion sy'n greiddiol i'n dull gweithredu.

**Owen John Thomas:** A oes gan y Llywodraeth gynlluniau i sicrhau'r un rhyddid i bob grŵp gwleidyddol o fewn cynghorau sir yr un rhyddid ag sy'n cael ei fwynhau gan bob un grŵp gwleidyddol yn y Cynulliad Cenedlaethol? (WAQ48960) [W]

**Sue Essex:** Mae Rheolau Sefydlog y Cynulliad Cenedlaethol yn rhoi manylion am hawliau a chyfrifoldebau'r grwpiau gwleidyddol sy'n cael eu cynrychioli yn y Cynulliad. Pwysleisiaf fod y rheolau sefydlog, yn briodol felly, yn eiddo i'r Cynulliad Cenedlaethol ac nid i Lywodraeth y Cynulliad.

Mae awdurdodau lleol yn ymrwymedig yn statudol i ddyrannu seddau yn gymesur â'r cydbwysedd gwleidyddol wrth benodi ar bwyllgorau'r cyngor neu gynrychiolwyr ar gyrff allanol. Cyfrifoldeb pob awdurdod unigol, drwy eu rheolau sefydlog eu hunain, yw unrhyw ddarpariaethau eraill mewn perthynas â grwpiau gwleidyddol ac nid cyfrifoldeb Llywodraeth y Cynulliad.

**Ann Jones:** Pa drafodaethau diweddar y mae'r Gweinidog wedi eu cael ynghylch newidiadau i gynllun pensiwn llywodraeth leol yng Nghymru? (WAQ48961)

**Sue Essex:** Nid yw cynllun pensiwn llywodraeth leol yng Nghymru a Lloegr yn fater datganoledig. Fodd bynnag, yr wyf yn cymryd diddordeb manwl yn y newidiadau i gynllun pensiwn llywodraeth leol ac yr wyf wedi cwrdd â CLlLC a'r undebau perthnasol i drafod y newidiadau hyn.

**John Griffiths:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynnydd o ran datblygu'r rhan a chwaraeir gan y gymuned mewn llywodraeth leol yng Nghymru? (WAQ48962)

**Sue Essex:** Yr oedd ein hymateb i adroddiad Beecham, 'Creu'r Cysylltiadau: Cyflawni Ar Draws Ffiniau', yn pwysleisio

'Mae rhoi dinasyddion yn gyntaf a'u cynnwys yn y gwaith o ddylunio gwasanaethau cyhoeddus yn ganolog i sicrhau newid radical'.

Mae'r ymateb hefyd yn nodi'r camau y byddwn yn eu cymryd i gyflawni hyn.

Gan adeiladu ar ein hymateb i Beecham, bydd y datganiad polisi, 'A Shared Responsibility', y bwriadaf ei gyhoeddi ar 14 Mawrth, yn nodi cyfres o ymrwymiadau a fydd yn galluogi cymunedau ymhellach i weithio gyda llywodraeth leol a darparwyr gwasanaethau cyhoeddus eraill. Mae'r ymrwymiadau hyn yn debygol o gynnwys craffu sy'n canolbwyntio mwy ar ddinasyddion, cefnogaeth i gynlluniau peilot i roi llais i ddinasyddion, datblygu cyfres o safonau gwasanaeth cenedlaethol i wasanaethau allweddol a datblygu elfen gwasanaethau cwsmeriaid i'r fframwaith rheoli perfformiad.

Yr oedd adroddiad Prifysgol Cymru, Aberystwyth, 'The Role, Functions and Future Potential of Community and Town Councils in Wales' yn cymell cytundebau siarter rhwng awdurdodau unedol a chynghorau cymuned a thref yn bennaf fel ffordd o hybu dirprwyo swyddogaethau/gwasanaethau. Mae swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru wrthi ar hyn o bryd yn gweithio gyda CLlLC, Un Llais i Gymru ac eraill i gynhyrchu siarter enghreifftiol y byddai modd ei addasu yn ôl amgylchiadau unigol.

**Owen John Thomas:** Sut y mae'r Gweinidog yn sicrhau bod buddiannau cymunedau'n ganolog i lunio polisïau llywodraeth leol? (WAQ48963)

**Sue Essex:** Yr oedd ein hymateb i adroddiad Beecham, 'Creu'r Cysylltiadau: Cyflawni Ar Draws Ffiniau', yn pwysleisio

'Mae rhoi dinasyddion yn gyntaf a'u cynnwys yn y gwaith o ddylunio gwasanaethau cyhoeddus yn ganolog i sicrhau newid radical'.

Mae'r ymateb hefyd yn nodi'r camau y byddwn yn eu cymryd i gyflawni hyn.

Byddaf yn cyhoeddi papur ymgynghori yn fuan am ddatblygu byrddau gwasanaethau lleol a chytundebau gwasanaethau lleol yng Nghymru. Mae'r papur ymgynghori yn cael ei ddatblygu gyda chefnogaeth ystod eang o sefydliadau yn cynnwys Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ac Un Llais i Gymru. Rhagwelir y bydd prosiectau i ddatblygu byrddau gwasanaethau lleol yn dechrau yn ddiweddarach eleni, ac y bydd y byrddau'n gweithredu fel catalydd i roi mwy o ffocws ar ddinasyddion wrth ymdrin â chraffu a gwella ar lefel leol. Dylai'r broses graffu hon gyfrannu hefyd tuag at adolygu polisïau a datblygu strategaethau.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyllido awdurdodau lleol yng Nghymru? (WAQ48964)

**Sue Essex:** Yn 2007-08, bydd awdurdodau lleol ar draws Cymru yn cael cyfanswm o £3.7 biliwn o gyllid heb ei neilltuo sy'n gynnydd o 4.4 y cant uwchlaw setliad y llynedd ar ôl addasu ar gyfer trosglwyddiadau. Yn ychwanegol at y £3.7 biliwn, amcangyfrifir y bydd yr awdurdodau lleol hefyd yn cael £580 miliwn mewn grantiau penodol.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei pholisïau ar gyfer gwella cyflwyno gwasanaethau cyhoeddus? (WAQ48965)

**Sue Essex:** Mae 'Creu'r Cysylltiadau: Cyflawni Ar Draws Ffiniau' yn nodi'r camau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bwriadu eu cymryd yn sgil Beecham. Bydd y camau hyn yn mynd â ni'n gyflymach tuag at ein nod o drawsnewid y ffordd y mae gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu cyflenwi. Egwyddorion allweddol y cynllun gweithredu yw rhoi dinasyddion yn gyntaf, gweithio gyda'n gilydd i gyflawni, datblygu gweithlu cyhoeddus gyda'r gorau yn y byd, a sicrhau effeithlonrwydd a gwelliant mawr o ran perfformiad.

**Carl Sargeant:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu llwyddiannau yn ei phortffolio ar gyfer etholaeth Alun a Glannau Dyfrdwy? (WAQ48966)

**Sue Essex:** Mae fy swyddogion wrthi ar hyn o bryd yn adolygu gwybodaeth 2005-06 Sir y Fflint am ei chytundeb polisi a'r asesiad cychwynnol yw bod Sir y Fflint yn perfformio'n dda yn y rhan fwyaf o feysydd. Mae'r cyngor wedi cyrraedd targedau ei gytundeb polisi mewn 13 allan o 16 o fesurau, gan ragori ar y ddwy garreg filltir addysg, a dyma'r awdurdod sy'n perfformio ail orau o ran presenoldeb yn yr ysgol uwchradd, gan sicrhau 91.99 y cant. Dylid canmol Sir y Fflint hefyd ar gyrraedd lefel 100 y cant o blant sy'n derbyn gofal sydd â chynllun sefydlogrwydd ac ar ragori ar y ddwy garreg filltir yn ymwneud ag effeithlonrwydd ynni. Disgwylir y bydd Sir y Fflint yn cyflawni ei chytundeb polisi yn foddhaol ac y caiff ei grant cymell perfformiad ar gyfer 2006-07.

Mae'r gwaith i ddatblygu cynllun gofodol Cymru o ran y Gogledd-ddwyrain yn tanlinellu rôl ganolog Glannau Dyfrdwy yn yr economi ranbarthol, ac mae hefyd yn cydnabod yr angen i fuddsoddi i sicrhau bod twf yn dod â budd i'r ardaloedd llai llewyrchus. Mae'r strategaeth drawsffiniol isranbarthol ddrafft i'r Gogledd-ddwyrain a gorllewin Swydd Gaer yn darparu fframwaith cryf ar gyfer gweithredu ar y cyd.

Yr ydym wedi nodi ein cynigion i drawsnewid gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn 'Creu'r Cysylltiadau: Cyflawni Ar Draws Ffiniau'. Mae'r blaenoriaethau yn cynnwys rhoi gwell gwasanaeth-i-gwsmeriaid i ddinasyddion a mwy o lais yn y ffordd y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu cyflenwi, cyrff lleol yn gweithio'n llawer agosach â'i gilydd i wella a chydgysylltu gwasanaethau ac i atal pobl rhag cael eu gwthio o gorff i gorff, gwella effeithlonrwydd, datblygu'r gweithlu gwasanaethau cyhoeddus a gwella

perfformiad gwasanaethau. Yr ydym yn cefnogi nifer o brosiectau rhanbarthol yn y Gogledd i wella amryw o agweddau cyflenwi gwasanaethau. Mae'r rhain yn cynnwys cydweithredu i wella'r trefniadau caffael a gwasanaethau cymorth eraill yn y GIG a chyfres o gynlluniau ar y cyd gan awdurdodau lleol (yn cynnwys Sir y Fflint) ym maes cludiant i'r ysgol, teleofal, casglu refeniw, caffael a mabwysiadu.

**Carl Sargeant:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynllun rhyddhad ardrethi i fusnesau bach? (WAQ48967)

**Sue Essex:** Mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi cyflwyno deddfwriaeth i ddisodli'r hen gynllun rhyddhad ardrethi gwledig gyda chynllun rhyddhad ardrethi i fusnesau bach o 1 Ebrill 2007. Bydd y cynllun newydd yn decach na'r hen gynllun, lle'r oedd yr hawl i ryddhad yn amrywio yn ôl lleoliad daearyddol. O dan y cynllun newydd bydd yr un meini prawf yn gymwys bellach i fusnesau ar draws Cymru, ni waeth ymhle y mae'r busnes wedi'i leoli. Bydd yn golygu y bydd tua hanner yr holl fusnesau yng Nghymru yn cael rhywfaint o ryddhad ar eu hardrethi, a bydd y rhan fwyaf o swyddfeydd post yng Nghymru yn cael 50 y cant neu 100 y cant o ryddhad.

**John Griffiths:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i hyrwyddo'r broses o wella gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru? (WAQ48968)

**Sue Essex:** Mae 'Creu'r Cysylltiadau: Cyflawni Ar Draws Ffiniau' yn cynnwys nifer o bwyntiau gweithredu manwl gyda thargedau i'w cyflawni. Un o'r camau gweithredu allweddol yw sefydlu byrddau gwasanaethau lleol ar sail yr awdurdodau lleol i ddod â'r prif wasanaethau ynghyd ac i gynllunio a chyflenwi gwasanaethau integredig i ddinasyddion.

**Peter Black:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am unrhyw gynlluniau y mae'n eu hystyried a fydd yn gwella cyfranogaeth yn y broses ddemocrataidd? (WAQ48969)

**Sue Essex:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn partneriaeth â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Cymdeithas Prif Weithredwyr ac Uwch Reolwyr yr Awdurdodau Lleol a'r Comisiwn Etholiadol, wedi lansio ymgyrch i adfywio ac ehangu'r ymgyrch ehangu cyfranogiad yr ymgymerwyd â hi cyn etholiadau lleol 2004. Nod yr ymgyrch yw cynyddu ymwybyddiaeth, diddordeb a chyfranogiad mewn democratiaeth leol, yn cynnwys cynyddu nifer ac amrywiaeth yr ymgeiswyr yn etholiadau lleol 2008.

Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru a chyrff partner yn ymgymryd â rhaglen o weithgareddau a fydd yn cynnwys:

- mentora—gan gynnwys y rhai sydd â diddordeb mewn sefyll etholiad a'r rhai sy'n cael eu hethol i sedd wedi hynny;
- gweithio gyda 'Operation Black Vote' ynglŷn â chyflwyno cynllun cysgodi a anelir yn benodol at bobl dduon a grwpiau lleiafrifoedd ethnig;
- gweithio gyda phleidiau gwleidyddol ynglŷn â recriwtio ac amrywiaeth;
- cynhyrchu canllawiau i ymgeiswyr;
- gweithio gyda'r Comisiwn Etholiadol ar 'ymgyrchoedd ymwybyddiaeth';
- ymgyrch yn y cyfryngau cyhoeddus, yn cynnwys gwefan bwrpasol i'r ymgyrch; a
- chynhyrchu pecynnau gwybodaeth i gynghorwyr newydd.

**Laura Anne Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cyllid sydd ar gael i awdurdodau lleol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru? (WAQ48970)

**Sue Essex:** Yn 2007-08, bydd awdurdodau lleol ar draws Cymru yn cael cyfanswm o £3.7 biliwn o gyllid heb ei neilltuo sy'n gynnydd o 4.4 y cant uwchlaw setliad y llynedd ar ôl addasu ar gyfer

trosglwyddiadau. Yn ychwanegol at y £3.7 biliwn, bydd awdurdodau lleol hefyd yn cael £580 miliwn amcangyfrifedig mewn grantiau penodol.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Mick Bates:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyllid ar gyfer gwasanaethau iechyd i oedolion? (WAQ48894)

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Brian Gibbons):** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cynyddu'r cyllid i wasanaethau iechyd o fwy na 7 y cant i £5.3 biliwn yn 2007-08. Mae cyfanswm y cyllid ar gyfer iechyd wedi mwy na dyblu ers sefydlu'r Cynulliad ym 1999. Bydd y cyllid ychwanegol hwn o fudd i wasanaethau i oedolion a phlant, ond ni allaf ddarparu manylion am y lefelau penodol o fuddsoddiad mewn gwasanaethau iechyd i oedolion.

**Peter Black:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyfodol gwasanaethau poen cronig? (WAQ48895)

**Brian Gibbons:** Caiff gwasanaethau poen cronig eu comisiynu, yn y rhan fwyaf o achosion, gan fyrddau iechyd lleol ar draws Cymru, gan adlewyrchu anghenion gofal iechyd sy'n cael eu nodi'n lleol. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn disgwyl i gomisiynwyr gomisiynu gwasanaethau'n briodol i gyflawni amcanion strategaeth y Cynulliad, 'Cynllun Oes', sy'n anelu at sicrhau bod gwasanaethau iechyd yn cael eu cynllunio'n effeithiol er mwyn sicrhau gwell mynediad at ofal cynaliadwy, cyson, o safon uchel, ar draws Cymru.

Yr ydym yn gweithio'n agos gyda Chymdeithas Poen Cymru i ddatblygu cyfarwyddebau datblygu a chomisiynu gwasanaethau i fod yn gefn i benderfyniadau comisiynu a chynllunio sy'n ymdrin â gwasanaethau rheoli poen. Mae'r gwaith hwn yn rhan o ymgyrch Llywodraeth y Cynulliad i wella'r rheolaeth dros gyflyrau cronig i sicrhau bod pobl yn cael y gofal iawn yn y man iawn ac ar yr adeg iawn. Mae'r swyddogion wedi cwrdd â chynrychiolwyr Cymdeithas Poen Cymru yn ddiweddar i drafod y camau nesaf wrth symud y gwaith hwn yn ei flaen ac mae cynlluniau'n cael eu gwneud i gwblhau a chyhoeddi'r cyfarwyddebau er mwyn ymgynghori â'r cyhoedd dros y misoedd i ddod.

**Peter Black:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyfodol yr uned losgiadau ranbarthol? (WAQ48896)

**Brian Gibbons:** Mae Canolfan Llosgiadau a Llawfeddygaeth Blastig Cymru, sydd wedi'i lleoli yn Ysbyty Treforys, Abertawe, yn cael estyniad gwerth £10 miliwn. Mae'r gwaith i fod i ddechrau'r mis nesaf, a bydd yn canolbwyntio ar hybu'r cyfleusterau i blant ac ar gynyddu'r nifer o gleifion y gellir eu derbyn yn ei gyfanrwydd.

Daw'r prosiect rhagorol hwn fisoedd yn unig ar ôl y cyhoeddiad cyffrous bod Ysbyty Treforys, mewn partneriaeth â phrifysgolion Abertawe a Chaerdydd, i gael ei ddatblygu'n ganolfan ymchwil llosgiadau gyntaf y DU.

Paratoad yw'r cynlluniau ehangu ar gyfer y cyhoeddiad yr ydym yn gobeithio amdano y bydd Ysbyty Treforys yn cael ei enwi'n fuan fel y Ganolfan Llosgiadau Ranbarthol i Gymru a De-ddwyrain Lloegr. Bydd yr ehangu yn golygu y bydd gan yr uned llosgiadau ddwy theatr llosgiadau gwbl weithredol ynghyd â phedwaredd theatr llawfeddygaeth blastig ychwanegol. Bydd y theatr llawfeddygaeth blastig ychwanegol hefyd yn rhoi digon o gapasiti i'r ymddiriedolaeth i fodloni targedau mynediad Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer 2009.

Mae safle Treforys fel y brif uned, o'i asesu yn erbyn gwasanaethau llosgiadau eraill yn Lloegr, yn golygu bod Ymddiriedolaeth GIG Abertawe yn optimistaidd y bydd yn cael ei dynodi'n fuan fel y

ganolfan llosgiadau ranbarthol newydd. Bydd yr ehangu yn sicrhau bod yr uned yn ddigon mawr, a bod ei chapasiti'n ddigonol, i ddelio â'r cleifion ychwanegol a allai ddod iddi yn sgil statws rhanbarthol.

Ym mis Tachwedd 2006 cyhoeddodd yr Healing Foundation ymrwymiad 20 mlynedd, sydd hefyd yn werth £10 miliwn, i sefydlu canolfan ymchwil llosgiadau i'r DU yn ne Cymru. Partneriaeth ydyw rhwng Ysbyty Treforys a phrifysgolion Caerdydd ac Abertawe, i ganolbwyntio ar bob agwedd o ymchwil sy'n anelu at wella'r driniaeth a'r gefnogaeth tymor hir i'r rhai sy'n goroesi llosgiadau.

Agorwyd Canolfan Llosgiadau a Llawfeddygaeth Blastig Cymru yn Ysbyty Treforys ym mis Medi 1994, ar ôl i'r gwasanaeth gael ei drosglwyddo o Ysbyty St Lawrence yng Nghas-gwent.

Mae'r gwasanaeth llosgiadau wedi datblygu ymhellach ers y trosglwyddiad ac mae wedi bod ar flaen y gad yn barhaus yn defnyddio technolegau sy'n datblygu er budd cleifion sydd â llosgiadau, er enghraifft Integra (croen artiffisial). Mae'r gwasanaeth yn trin tua 750 o gleifion y flwyddyn, ac mae angen triniaeth fel cleifion mewnol ar eu hanner. Mae tua hanner y cleifion hyn yn blant.

Mae'r llawfeddygaeth blastig a wneir yn Ysbyty Treforys yn cynnwys triniaeth adluniol ar ôl damweiniau a salwch.

Cymeradwyodd bwrdd buddsoddiadau cyfalaf Llywodraeth Cynulliad Cymru fuddsoddiad o £9.4 miliwn ar gyfer datblygiadau llawfeddygaeth blastig ar 12 Ionawr. Rhoddwyd caniatâd i'r cynllun fynd rhagddo ar yr amod bod sawl mater yn cael ei ddatrys.

**Mick Bates:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ad-drefnu ysbytai yn Sir Drefaldwyn? (WAQ48897)

**Brian Gibbons:** Cyfrifoldeb y byrddau iechyd lleol ar draws Cymru yw comisiynu gwasanaethau gofal iechyd i'r boblogaeth breswyl. Mae'r BILlau yn ymgymryd ag asesiadau anghenion iechyd lleol ac yn blaenoriaethu eu datblygiadau gwasanaeth yn unol â hynny, o fewn yr adnoddau sy'n cael eu darparu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Rhaid i'r dystiolaeth sydd ar gael ategu'r penderfyniadau hynny a rhaid iddynt gael eu gwneud mewn ffordd sy'n atebol i'r cyhoedd. Yr wyf yn disgwyl, lle mae newidiadau sylweddol i gael eu gwneud i wasanaethau, y byddent yn cydymffurfio â chanllawiau'r Cynulliad fel y'u nodwyd yng nghylchlythyr iechyd Cymru (2004)084, 'Llunio Gwasanaethau Iechyd yn Lleol', sy'n datgan bod gan gynghorau iechyd cymuned rôl allweddol i'w chwarae.

Mae Bwrdd Iechyd Lleol Powys wedi ymgynghori'n ddiweddar ynghylch ei gynigion bras i ail-gyflunio gwasanaethau yn y dyfodol fel rhan o broses ymgynghori strategaeth 'Doing More—Doing Better'. Erbyn hyn mae'r BILl wedi nodi y bydd yn dod â chynigion mwy penodol gerbron i ymgynghori yn eu cylch er mwyn rhoi'r strategaeth ar waith.

Disgwylir y caiff fframwaith gwasanaethau cymunedol i Gymru ei gyhoeddi yn y dyfodol agos a bydd gofyn i BILl Powys sicrhau bod unrhyw gynigion i newid gwasanaethau yn y dyfodol yn cyd-fynd â'r canllawiau hyn.

Fel y nodais yn y ddadl yng Nghyfarfod Llawn y Cynulliad Cenedlaethol ar 15 Tachwedd 2006, yr wyf yn credu y dylai'r trafodaethau am ail-gyflunio gwasanaethau lleol gael eu cynnal ar lefel leol i ddechrau. Mae gweithdrefnau ymgynghori wedi cael eu sefydlu i roi'r cyfle i bobl leol i wneud sylwadau am y cynigion ac i helpu i ddylanwadu ar benderfyniadau cynllunio lleol.

**Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y camau a gymerir ganddo i roi sylw i anghydraddoldebau iechyd yn Nyffryn Clwyd? (WAQ48898)

**Brian Gibbons:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd yng Nghymru mewn amryw o ffyrdd drwy ei strategaeth drosfwaol i Gymru, 'Cynllun Oes', a fydd yn creu

ffocws ar draws yr holl bolisïau iechyd i ddatblygu dull integredig o fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd. Dan faner Her Iechyd Cymru, yr ydym wedi buddsoddi mewn ystod o gynlluniau sy'n cyfrannu tuag at wella iechyd yng Nghymru.

Yn Nyffryn Clwyd yn benodol, Bwrdd Iechyd Lleol Sir Ddinbych ac Ymddiriedolaeth GIG Conwy a Sir Ddinbych sy'n darparu'r gwasanaethau gofal iechyd lleol.

Mae'r BILl yn gweithio gydag Ymddiriedolaeth GIG Conwy a Sir Ddinbych i sicrhau bod poblogaeth sir Ddinbych, sy'n cynnwys Dyffryn Clwyd, yn gallu cyrchu at wasanaethau i gleifion mewnol, achosion dydd a chleifion allanol sy'n unol â'r targedau a bennir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r BILl hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Sir Ddinbych i gynllunio gwasanaethau gyda'i gilydd a chynhyrchu strategaeth iechyd, gofal cymdeithasol a lles. Mae hyn yn help i flaenoriaethu anghenion y boblogaeth leol i dargedu ardaloedd lle mae angen sylw.

Yn fras, mae 58 o feddygon teulu'n darparu mynediad at ofal sylfaenol mewn 16 o bractisiau ar draws sir Ddinbych, ac o'r rhain mae 47 meddyg teulu mewn 13 practis yn Nyffryn Clwyd. Mae gwaith ar y gweill ar hyn o bryd drwy strategaeth yr ystâd gofal sylfaenol i ystyried sut y byddai modd gwella adeiledd ac ystod y gwasanaethau gofal sylfaenol.

Darperir gwasanaethau ysbyty gofal eilaidd yn bennaf ar safle Glan Clwyd ym Modelwyddan, a HM Stanley yn Llanelwy, ond mae Comisiwn Iechyd Cymru'n comisiynu rhai gwasanaethau arbenigol oddi wrth ymddiriedolaethau o'r tu allan i'r ardal.

Mae rhagor o wasanaethau lleol yn cael eu darparu gan ysbytai cymuned lleol y Royal Alexandra, Prestatyn a Dinbych. Mae'r rhain yn darparu gwelyau cymuned lleol i gynnal gofal yn agos at gartrefi cleifion. Mae pa ddefnydd a wneir o'r gwasanaethau hyn a'r angen amdanynt yn y dyfodol yn cael eu hystyried fel rhan o nifer o adolygiadau lleol a chenedlaethol, yn cynnwys strategaeth yr ystâd gofal sylfaenol, a'r adolygiad o ofal eilaidd. Mae ysbyty Prestatyn yn destun ymgynghori ar hyn o bryd gyda'r nod o ganfod y ffordd orau o ddiwallu anghenion lleol.

Yn ogystal â darparu gofal iechyd sydd wedi ennill ei blwyf mae Bwrdd Iechyd Lleol Sir Ddinbych yn bwrw ymlaen ag amrywiaeth o gynlluniau a fwriadwyd i wella iechyd yn y dyffryn. Mae'r rhain yn cynnwys:

Y Gronfa Anghydraddoldebau Iechyd

- clefyd coronaidd y galon—sgrinio rhag risg i gleifion iechyd meddwl ym meddygfa Bronyffynnon, Dinbych;
- adsefydlu cardiaidd—yn y gymuned, a chan ddarparu cymorth gartref ac yn yr ysbyty.

Cyngor Tref Prestatyn

- dewisiadau—rhaglen newid ffordd o fyw i bobl y mae perygl iddynt ddatblygu clefyd coronaidd y galon, yn cynnwys cynllun atgyfeirio cleifion i wneud ymarfer corff.

Fferylliaeth

- contract fferylliaeth newydd—ymgyrchoedd hybu iechyd.

Mae hefyd yn bwrw ymlaen â'i gynllun gweithredu ar iechyd y geg ac yn gweithredu ei strategaeth o ran yr ystâd gofal sylfaenol ac mae'n gweithio'n agos gyda phartneriaid statudol ac anstatudol i roi ei strategaeth leol iechyd, gofal cymdeithasol a lles ar waith, law yn llaw â'r strategaeth gymunedol.

**Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarparu hyfforddiant darllen gwefusau i bobl sy'n colli'u clyw yng Nghymru? (WAQ48899)

**Brian Gibbons:** Mae'r byrddau iechyd lleol, mewn partneriaeth â'r adrannau gwasanaethau cymdeithasol lleol, yn asesu anghenion iechyd, gofal cymdeithasol a lles eu poblogaethau preswyl lleol ac yn cynllunio a chomisiynu gwasanaethau i ddiwallu'r anghenion hynny, o fewn yr adnoddau a ddarperir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Yr ydym wrthi ar hyn o bryd yn ymgynghori am reoliadau a chanllawiau drafft ynglŷn â'r strategaeth iechyd, gofal cymdeithasol a lles. Bydd y rhain yn cyfarwyddo a chynghori BILlau a gwasanaethau cymdeithasol ar draws Cymru ynglŷn â'r hyn y dylent ei ystyried yn eu hasesiadau anghenion, a'r hyn y dylai'r strategaethau dilynol ymdrin ag ef. Mae'r rheoliadau a'r canllawiau drafft wedi cael eu diwygio i gynnwys dadansoddiad o chwe elfen gydraddoldeb, yn cynnwys anabledd. Bydd y rhain yn help i'r BILlau a'r gwasanaethau cymdeithasol drwy roi arweiniad iddynt ar gasglu gwybodaeth am eu hardaloedd lleol o ran anabledd, rhyw, oed, tueddfryd rhywiol, crefydd/cred a hil.

Mae fframwaith gwasanaeth cenedlaethol Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer pobl hŷn yn cyfeirio at y nifer gynyddol o namau ar y synhwyrau ymysg pobl hŷn, ac mae'n cydnabod bod hyn yn gallu arwain at ynysu cymdeithasol, iselder, mwy o ddibyniaeth, cwympo ac ati. Nodir hefyd fod angen rhoi sylw i anghenion cyfathrebu penodol pobl sydd â nam ar eu synhwyrau, yn cynnwys gwell mynediad at wasanaethau a seilir ar ofal sylfaenol a gwasanaethau sy'n hyrwyddo annibyniaeth. Byddai darparu hyfforddiant darllen gwefusau, er nad yw'n cael ei gefnogi'n benodol yn y fframwaith gwasanaeth cenedlaethol, yn gyson ag amcanion y fframwaith gwasanaeth cenedlaethol, ynghyd â'r strategaeth iechyd a gofal cymdeithasol ehangach. Mae'r fframwaith gwasanaeth cenedlaethol yn galw am ddatblygu cynlluniau comisiynu ar y cyd i wasanaethau pobl hŷn ac mae'r BILlau yn cymryd camau tuag at wneud hynny lle mae'n briodol.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i hyrwyddo bywydau annibynnol a llawn i bawb yng Nghymru. Mae gan y byrddau iechyd lleol, yn gweithio gyda llywodraeth leol, gyfrifoldeb i nodi a diwallu anghenion iechyd pobl fyddar drwy ddatblygu strategaethau iechyd, gofal cymdeithasol a lles lleol a rhoi'r fframwaith gwasanaeth cenedlaethol i bobl hŷn ar waith.

**Owen John Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am fanteision triniaeth bracytherapi? (WAQ48900)

**Brian Gibbons:** Math o radiotherapi yw bracytherapi sy'n cyfeirio ymbelydredd yn uniongyrchol at safle canser. Mae bracytherapi dos isel yn fath cymharol newydd o driniaeth am ganser y brostad ond mae rhai astudiaethau wedi canfod ei bod yn cymharu â llawdriniaeth yn ei allu i drin canser y brostad.

Y defnydd mwyaf priodol o bracytherapi yw ar gyfer lleiafrif o achosion canser y brostad sydd â chanser cynnar, gradd isel ar y brostad.

Er nad yw Comisiwn Iechyd Cymru yn cyllido triniaeth bracytherapi dos isel ar gyfer canser y brostad nad yw wedi ymledu ar hyn o bryd, mae cleifion o Gymru sydd â chanser y brostad yn dal i allu cyrchu at driniaethau amgen sydd yr un mor effeithiol, sydd ar gael yn lleol, sef radiotherapi a llawdriniaeth. Mae'r comisiwn iechyd a'r byrddau iechyd lleol yn archwilio dull wedi'i gyd-drefnu o gomisiynu gwasanaethau i drin canser y brostad nad yw wedi ymledu.

**Owen John Thomas:** Pa gamau a gymerwyd i sicrhau bod penderfyniadau a gymerir gan swyddogion byrddau iechyd lleol a Chomisiwn Iechyd Cymru sy'n ymwneud â thriniaeth cleifion yn cael eu cyfleu i'r claf heb unrhyw oedi diangen? (WAQ48901)

**Brian Gibbons:** Mae pob sefydliad yn gweithio yn unol ag amryw o safonau a thargedau sydd wedi cael eu sefydlu'n genedlaethol gyda'r nod o sicrhau bod pob claf yn cael ei drin yn unol â gofynion ei gyflwr, yn briodol ac yn amserol. Mae'n arfer da sicrhau bod cleifion unigol yn cael gwybod am benderfyniadau sy'n effeithio arnynt drwy gydol y broses gomisiynu. Mater i'r byrddau iechyd lleol unigol a Chomisiwn

Iechyd Cymru yw sicrhau bod hyn yn digwydd. Gall cleifion sy'n anhapus â'r ffordd yr ymdrinnir â hyn wneud cwyn dan drefn gwyno'r GIG neu i'r comisiwn iechyd.

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bwysigrwydd nyrsio ardal yn y Canolbarth a'r Gorllewin? (WAQ48902)

**Brian Gibbons:** Mae gan nyrsys ardal arbenigedd mewn gofalu am gleifion sydd ag amrywiaeth eang o gyflyrau. Maent yn darparu gofal nyrsio medrus iawn i'r boblogaeth ac maent yn aelodau gwerthfawr o dimau gofal iechyd sylfaenol ar draws Cymru.

Mae'r elfennau sy'n sbarduno polisi, yn cynnwys 'Cynllun Oes', a'r strategaeth gwasanaethau cymunedol a'r fframwaith cyflyrau cronig sydd wrthi'n cael eu datblygu, yn pwysleisio'r angen am fwy o ffocws ar ddarparu gofal o fewn gofal sylfaenol a'r gymuned. Bydd nyrsys ardal yn chwarae rôl allweddol yn darparu gofal o'r fath ac mae hon yn adeg amserol i archwilio'r rôl er mwyn sicrhau bod sgiliau nyrsys ardal yn cael eu defnyddio i'r eithaf.

Mae cyfarwyddwyr nyrsio'r byrddau iechyd lleol yn y Canolbarth a'r Gorllewin yn gweithio gyda'i gilydd i edrych ar y fanyleb i wasanaethau nyrsio ardal ar draws y rhanbarth.

Ni roddwyd gwybod am unrhyw broblemau penodol o fewn y gwasanaethau nyrsio ardal yn rhanbarth y Canolbarth a'r Gorllewin. Fodd bynnag, mae camau'n cael eu cymryd i adolygu capasiti a manyleb gwasanaethau nyrsio dosbarth fel bod modd rhoi sylw i'r lefel o waith aciwt a'r baich gwaith sy'n deillio o'r agenda rheoli clefydau cronig.

Mae cyfarwyddwyr BILlau ac ymddiriedolaethau ar draws y rhanbarth wrthi'n adolygu gwasanaethau gyda golwg ar foderneiddio a phontio'r bwlch rhwng gofal sylfaenol a gofal eilaidd. Mae nifer o enghreifftiau nodedig o waith ar y gweill yn y rhanbarth.

**William Graham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr angen i ganslo llawdriniaethau orthopedig a drefnwyd ar gyfer cleifion sy'n byw yn Nwyrain De Cymru? (WAQ48903)

**Brian Gibbons:** Dan amgylchiadau arferol, ni ddylai llawdriniaeth sydd wedi cael ei threfnu ar gyfer claf byth gael ei chanslo am reswm nad oes a wnelo o gwbl â chyflwr meddygol y claf. O bryd i'w gilydd, fodd bynnag, bydd ysbyty unigol yn wynebu lefelau eithriadol o bwysau brys. Dan yr amgylchiadau hynny, rhaid i reolwyr a chlinigwyr wneud penderfyniadau anodd, er y byddant bob amser yn blaenoriaethu cleifion ar sail glinigol.

Dywed y canllawiau, lle mae'n amhosibl osgoi canslo llawdriniaeth sydd wedi cael ei chynllunio, y gall y claf ddisgwyl cael ei lawdriniaeth o fewn 28 diwrnod, neu y caiff ei hysbysu am ddyddiad newydd y llawdriniaeth o fewn 28 diwrnod. Os caiff llawdriniaeth ei gohirio neu ei chanslo, nid yw o reidrwydd yn golygu y bydd y slot theatr yn cael ei cholli. Mae'n fwy tebygol bod y cyfleusterau a'r staff yn brysur yn lle hynny yn trin cleifion eraill ar y pryd.

Ym mis Tachwedd 2006, adroddwyd bod 43.3 y cant o'r llawdriniaethau orthopedig a drefnwyd wedi cael eu canslo yn Nwyrain De Cymru am resymau yn ymwneud â'r claf. Mae'r rhain yn cynnwys nad oedd yr apwyntiad yn hwylus, bod y claf wedi datgan nad oedd yn ddigon da i gael llawdriniaeth ac na chadwodd y claf ei apwyntiad.

Mae llawdriniaethau a ganslwyd yn faes sy'n cael ei fonitro gan ein rhaglen berfformiad, drwy dargedau effeithlonrwydd fframwaith gwasanaeth a chyllid Llywodraeth y Cynulliad a'r cyfarfodydd perfformiad rheolaidd rhwng ein swyddfeydd rhanbarthol ac ymddiriedolaethau GIG Cymru. Lle mae'r lefelau canslo yn uchel, yr ydym yn mynnu cael esboniad a, lle bo raid, wybodaeth am sut y caiff y broblem ei datrys.

**William Graham:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r nifer o lawdriniaethau wedi'u trefnu a ganslwyd mewn ysbytai yn Nwyrain De Cymru rhwng Medi a Rhagfyr 2006? (WAQ48904)

**Brian Gibbons:** Mae'r nifer o lawdriniaethau wedi'u trefnu a ganslwyd yn Nwyrain De Cymru rhwng mis Medi a mis Tachwedd 2006 fel a ganlyn:

| **Llawdriniaethau a ganslwyd** | **Medi 2006** | **Hydref 2006** | **Tachwedd 2006** |
|---|---|---|---|
| Gwent | 755 | 755 | 638 |
| Gogledd Morgannwg | 164 | 111 | 119 |
| Dwyrain De Cymru | 919 | 866 | 757 |

Mae'r nifer o lawdriniaethau a gyflawnwyd yn Nwyrain De Cymru rhwng mis Medi a mis Tachwedd 2006 fel a ganlyn:

| **Llawdriniaethau a gyflawnwyd** | **Medi 2006** | **Hydref 2006** | **Tachwedd 2006** |
|---|---|---|---|
| Gwent | 2,637 | 2,874 | 2,859 |
| Gogledd Morgannwg | 917 | 897 | 884 |
| Dwyrain De Cymru | 3,554 | 3,771 | 3,743 |

**Eleanor Burnham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am berfformiad adrannau damweiniau ac achosion brys dros gyfnod y Nadolig? (WAQ48905)

**Brian Gibbons:** Mae'r ffigurau diweddaraf a gyhoeddwyd yn dangos bod perfformiad adrannau damweiniau ac achosion brys Cymru gyfan ar ddiwedd mis Rhagfyr 2006 yn 90.9 y cant o'i gymharu â'r targed o 95 y cant. Mae hyn yn cyfateb i naw o bob 10 person yn cael ei weld o fewn y targed o bedair awr er gwaethaf y ffaith bod mwy na 52,000 o bobl wedi mynd i adran fawr damweiniau ac achosion fawr ym mis Rhagfyr.

**Eleanor Burnham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wasanaethau iechyd a chymdeithasol ar gyfer yr henoed? (WAQ48906)

**Brian Gibbons:** Mae darparu gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol o'r radd flaenaf i'r henoed yn un o'n blaenoriaethau allweddol. Yr ydym am weld gwasanaethau'n cael eu darparu sy'n diwallu anghenion pobl hŷn, yn darparu dewis unigol a bod modd eu haddasu yn unol ag anghenion cyfnewidiol dros amser.

Yn sail i'n hymrwymiad mae ein strategaeth, 'Cynllun Oes', ac yn gynhaliaeth iddi mewn ein strategaeth ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru—strategaeth sy'n torri tir newydd. Yn dilyn ymgynghoriad eang ei gwmpas, mae ein strategaeth ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru i fod i gael ei chyhoeddi y mis nesaf. Mae cynnydd da'n cael ei wneud o ran rhoi'r fframwaith gwasanaethau cenedlaethol ar gyfer pobl hŷn ar waith, i sicrhau mwy o gysondeb yn y gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol sydd ar gael i bobl hŷn a'i ansawdd.

**Elin Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wasanaethau ysbytai yng Ngheredigion? (WAQ48907)

**Brian Gibbons:** Mae gwasanaethau GIG yng Ngheredigion yn cael eu darparu yn unol â manylion 'Cynllun Oes', sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r GIG adolygu ei holl wasanaethau. Rhaid i unrhyw newid gael ei fesur yn erbyn yr uchelgais o ddarparu iechyd a gofal cymdeithasol cynaliadwy, diogel a chyda'r gorau yn y byd i holl drigolion Cymru erbyn 2015.

Yn sgil 'Cynllun Oes'—ein gweledigaeth i greu gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol gyda'r gorau yn y byd i Gymru yn yr unfed ganrif ar hugain—dynodwyd buddsoddiad cyfalaf mewn gwasanaethau cymunedol yn ne Ceredigion i ddisodli gwasanaethau sy'n cael eu darparu ar hyn o bryd drwy ysbytai cymuned. Mae gwaith ar y gweill i ddatblygu modelau gwasanaethau cymunedol a bydd y fframwaith gwasanaethau cymunedol, y disgwylir iddo gael ei gyhoeddi yn y dyfodol agos, yn dylanwadu ymhellach ar y gwaith hwnnw.

Ym mis Chwefror 2006, cymeradwyodd Llywodraeth Cynulliad Cymru yr achos busnes llawn am gynllun ailwampio gwerth £2 filiwn i ddarparu uned fonitro gardiaidd bwrpasol yn Ysbyty Cyffredinol Bronglais. Ym mis Mawrth 2006, cytunodd Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd i'r cynigion mewn achos amlinell strategol o blaid buddsoddiad cyfalaf gwerth £10.7 miliwn i ailwampio'r adran damweiniau ac achosion brys ac adeiladu'r uned asesu aciwt yn Ysbyty Cyffredinol Bronglais. Bydd hyn yn integreiddio'r gwasanaethau ymhellach, yn cynnwys datblygu rôl meddygon teulu a gweithredu canolfan argyfwng aml-asiantaeth mewn partneriaeth â'r gwasanaethau cymdeithasol. Mae Ymddiriedolaeth GIG Ceredigion a Chanolbarth Cymru yn datblygu achos amlinell strategol pellach i ystyried buddsoddiad cyfalaf er mwyn adleoli'r prif ystafelloedd theatr yn Ysbyty Cyffredinol Bronglais yn yr adran damweiniau ac achosion brys a newid safle'r fynedfa i'r adran damweiniau ac achosion brys fel bod modd mynd i mewn iddi o ffordd fynediad sy'n fwy addas i ambiwlansys.

Mae'n werth nodi ei bod yn argoeli'n dda y bydd Ymddiriedolaeth GIG Ceredigion a Chanolbarth Cymru, drwy berfformiad Ysbyty Bronglais, yn cyrraedd targedau allweddol ym maes amseroedd aros, gwasanaethau canser a pherfformiad o ran damweiniau ac achosion brys.

**Laura Anne Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gludiant i ysbytai ar gyfer cleifion allanol yng Nghymru? (WAQ48908)

**Brian Gibbons:** Sefydlodd Llywodraeth Cynulliad Cymru weithgor i edrych ar wasanaethau cludiant i gleifion nad ydynt yn achosion brys mewn ymateb i argymhellion yr adolygiad o gludiant cymunedol, 'Cludiant Cymunedol yn Rhwydwaith Cludiant Cymru', a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2002. Bu pryder nad oedd y diffiniad o angen meddygol (o ran cludiant i gleifion nad ydynt yn achosion brys) a gynhwyswyd yn y canllawiau gweithredol blaenorol yn benodol ac, yn sgil dehongliadau gwahanol, nad oedd y gwasanaeth yn cael ei ddarparu'n deg ar draws Cymru.

Ystyriodd grŵp a oedd yn cynnwys cynrychiolaeth o ymddiriedolaethau GIG, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, BILlau, cyfarwyddwyr meddygol, nyrsys, Cymdeithas Feddygol Prydain a chynghorau iechyd cymuned y meini prawf diwygiedig o ran angen meddygol, a byddwn yn rhoi canllawiau i GIG Cymru yn fuan.

**Laura Anne Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wasanaethau diabetes yng Nghymru? (WAQ48909)

**Brian Gibbons:** Y byrddau iechyd lleol sy'n gyfrifol am gomisiynu gwasanaethau diabetes. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn disgwyl i bobl sydd â diabetes neu y mae perygl iddynt ei ddatblygu allu cyrchu yn ddiymdroi at wasanaethau diabetes o safon uchel. Ein strategaeth er mwyn cyflawni hyn yw rhoi'r fframwaith gwasanaeth cenedlaethol ar gyfer diabetes, a gyhoeddwyd yn 2002, ar waith yn gynyddol. I gyfarwyddo ac arwain y gweithredu ar lefel genedlaethol, cyhoeddasom y strategaeth gyflawni yn 2003.

Mae'r fframwaith gwasanaeth cenedlaethol wedi codi proffil gwasanaethau diabetes ar draws Cymru, gan gefnogi trefniadau rheoli perfformiad a chynlluniau cyflenwi lleol yn unol â gofynion 'Cynllun Oes' a'r trefniadau i reoli clefydau cronig.

I helpu i roi'r strategaeth gyflawni ar waith, mae canllawiau consensws diabetes Cymru gyfan i oedolion sydd â diabetes mellitus wedi cael eu datblygu ac maent yn destun ymgynghori ar hyn o bryd. Datblygwyd canllawiau tebyg ar gyfer plant sydd â diabetes ac mae'r rhain hefyd yn destun ymgynghori. Mae'r canllawiau hyn yn darparu llwybrau gofal i reoli diabetes fel sy'n ofynnol gan bob un o'r 12 safon sydd wedi'u nodi yn y fframwaith gwasanaeth cenedlaethol.

Mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd wedi sefydlu grŵp cyfeirio cleifion diabetes unigryw i Gymru gyfan. Mae'r grŵp hwn yn cwrdd yn rheolaidd gyda'r nod o rannu'r arferion gorau a darparu fforwm lle gellir trafod gyda chynrychiolwyr cleifion o bob rhan o Gymru.

**Karen Sinclair:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ofal hosbis yng Nghymru? (WAQ48911)

**Brian Gibbons:** Mae gwasanaethau gofal lliniarol yn rhan bwysig o'r gofal a ddarperir yn ei gyfanrwydd i gleifion sydd â chyflyrau tymor hir sy'n gwaethygu. Mae'r cyfrifoldeb am gomisiynu'r gwasanaethau hyn i ddiwallu anghenion cleifion yn gorffwys gyda'r byrddau iechyd lleol, yn gweithio gyda'u partneriaid. Nod polisi trosfwaol Llywodraeth y Cynulliad yw datblygu dull mwy integredig o ddiwallu anghenion cleifion am ofal lliniarol rhwng y GIG a'r sector gwirfoddol ac mae wedi ei nodi yn 'Cyfeiriad Strategol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Lliniarol yng Nghymru'. Nid oes cwestiwn ynglŷn â'r rôl werthfawr y mae hosbisau yn ei chwarae yn sicrhau bod cleifion sydd â chyflyrau sy'n gwaethygu yn cael gofal cefnogol o'r ansawdd orau posibl. Yr ydym felly yn disgwyl i fyrddau iechyd lleol a hosbisau weithio gyda'i gilydd, drwy'r rhwydweithiau canser rhanbarthol, i gytuno ar ba wasanaethau y dylai hosbisau eu darparu fel rhan o becyn integredig o ofal i gleifion.

I gydnabod y rôl werthfawr y mae hosbisau yn ei chwarae, darparodd Llywodraeth y Cynulliad £10 miliwn ar ffurf cyllid nad yw'n gyllid rheolaidd dros bedair blynedd i gefnogi a datblygu gwasanaethau gofal lliniarol yn y sector gwirfoddol. Mae'r cyllid hwn wedi cael effaith bositif ac mae wedi amlygu'r angen am gefnogaeth barhaus i sicrhau bod y sectorau gwirfoddol a statudol yn gweithio mewn partneriaeth i ddarparu gwasanaethau gofal lliniarol a seilir ar anghenion cleifion. Mae Llywodraeth y Cynulliad felly, fel rhan o'i chyllideb am 2007-08, wedi cyhoeddi y bydd £2 filiwn i hosbisau er mwyn darparu cyllid refeniw craidd rheolaidd iddynt o arian canolog am y tro cyntaf. Ni phenderfynwyd eto sut y bydd y cyllid hwn yn cael ei ddyrannu, ond bydd angen seilio'r penderfyniad hwnnw ar argymhellion yr adolygiad gwasanaeth llinell sylfaen o ofal lliniarol sydd ar y gweill ar hyn o bryd.

**Karen Sinclair:** Beth y mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei wneud i uwchraddio'r fflyd o ambiwlansys yng Nghymru? (WAQ48912)

**Brian Gibbons:** Ym mis Tachwedd 2006 darparodd Llywodraeth Cynulliad Cymru gyllid cyfalaf ychwanegol o £16 miliwn i Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru er mwyn iddi amnewid cerbydau brys. Caiff y cyllid ei ddefnyddio i brynu 119 o ambiwlansys brys newydd a 67 o gerbydau gwasanaethau gofal cleifion yn 2006-07.

Mae'r £16 miliwn o gyllid yn rhan o raglen fuddsoddi gyfalaf Llywodraeth Cynulliad Cymru a fydd yn cyrraedd £309 miliwn yn 2007-08. Bydd y cyllid hwn yn sicrhau bod offer ac adeiladau yn GIG Cymru yn cael eu gwella i safonau'r unfed ganrif ar hugain**.**

**Carl Sargeant:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y ddarpariaeth gofal iechyd sylfaenol yn Alun a Glannau Dyfrdwy? (WAQ48913)

**Brian Gibbons:** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddais i WAQ48564.

**Carl Sargeant:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyflwyno'r Cynllun i Fynd i'r Afael â Chanser yng Nghymru? (WAQ48914)

**Brian Gibbons:** Mae mynd i'r afael â chanser yn un o brif flaenoriaethau iechyd Llywodraeth y Cynulliad. Mae canser yn un o ddau achos pennaf marwolaethau cynamserol yng Nghymru. Caiff tua 15,000 o achosion eu cofrestru bob blwyddyn yng Nghymru. Mae'r Cynllun i Fynd i'r Afael â Chanser yng Nghymru yn nodi amcanion polisi penodol Llywodraeth y Cynulliad a'i chyfeiriad strategol i fynd i'r afael â chanser. Mae'r ddogfen yn ymdrin mewn modd mwy cyfannol ac integredig â mynd i'r afael â chanser ar lefel genedlaethol yn ogystal â lleol ac mae'r amcanion polisi'n cael eu strwythuro o amgylch y themâu a nodwyd yn 'Cynllun Oes', sef gwell gwaith atal, canfod y clefyd yn gynnar, gwella mynediad a gwella gwasanaethau. Mae'r ddogfen yn cynnwys targedau gweithredu sy'n cwmpasu'r cyfnod hyd at fis Mawrth 2008 ac yna ceir dau fframwaith strategol tair blynedd pellach, yn cwmpasu'r cyfnod o 2008 i 2011 a 2011 i 2015.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ei bolisïau ar gyfer gwella'r GIG yng Nghymru? (WAQ48915)

**Brian Gibbons:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn anelu at wella iechyd pobl Cymru mewn nifer o ffyrdd, y cynnwys Her Iechyd Cymru. Yr ydym eisoes yn rhoi fformiwla Townsend ar waith ynghyd â'r rhaglen anghydraddoldebau iechyd i fynd i'r afael â meysydd o anghydraddoldeb o safbwynt iechyd, a'r cam nesaf fydd strategaeth iechyd y cyhoedd.

Yr ydym yn gwella mynediad at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol diogel, cynaliadwy, ac yn cwtogi amseroedd aros hir i gleifion ar draws Cymru. Yr ydym wedi gwneud buddsoddiad mawr o £80 miliwn bob blwyddyn, a hynny'n parhau tan fis Mawrth 2009, er mwyn cwtogi amseroedd aros ymhellach.

Cyflwynodd 'Cynllun Oes' nod uchelgeisiol o sefydlu'r set iawn o strwythurau i wneud GIG Cymru yn addas i'r unfed ganrif ar hugain, i greu gwasanaethau cytbwys, diogel, effeithiol ac integredig mor lleol â phosibl, ac i gael elfennau allweddol comisiynu, cynllunio a chyfeiriad strategol yn iawn. Yn 2007-08, blwyddyn olaf cam cyntaf 'Cynllun Oes', yr ydym yn clirio'r ffordd ar gyfer gwelliannau cyflym yn y dyfodol. Bydd y flwyddyn sy'n dod yn drobwynt pwysig.

Mae gwaith aruthrol wedi cael ei wneud yn ymgynghori ynglŷn â chynigion i ail-gyflunio gwasanaethau aciwt ac ynglŷn â datblygiadau gofal sylfaenol, gwasanaethau diagnostig a therapi, contractau newydd i bob grŵp staff, ac ailddylunio rolau. Mae'r gwaith ailddylunio gwasanaethau wedi cynnwys gwaith Prosiect 2009 ar ofal dewisol, y strategaeth cyflenwi gwasanaeth gofal brys i'r gwasanaethau brys, a datblygu model integredig newydd er mwyn rheoli clefydau cronig.

Yn ychwanegol, cyhoeddwyd y strategaeth newydd i'r gwasanaethau cymdeithasol, 'Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol'.

Dros amser, dylai'r rhain, ynghyd â gwaith arall ar safonau, yn cynnwys datblygu fframweithiau gwasanaeth cenedlaethol, ac ar ofal critigol a lliniarol, weddnewid y ddarpariaeth gwasanaethau.

Yn 2007-08, mae'r agenda yn cynnwys diwygio'r drefn gomisiynu, ymgais i wella ansawdd, meithrin perthynas â chlinigwyr ac â'r cyhoedd, fframwaith gwasanaethau cymunedol, ynghyd â system newydd i gynllunio'r gweithlu.

Yn ddiweddar yr ydym wedi cyhoeddi canllawiau diwygiedig mewn perthynas â strategaethau iechyd, gofal cymdeithasol a lles, ac maent yn destun ymgynghori ar hyn o bryd. Llwyddodd y cylch cyntaf o strategaethau i ysgogi gweithio effeithiol drwy bartneriaeth yn lleol, ac mae'r rôl hon yn cael ei chryfhau yn barod ar gyfer y strategaethau nesaf yn 2008. Yn ogystal, bydd cynlluniau plant a phobl ifanc newydd

yn dod i rym ym mhob ardal leol o fis Ebrill 2008. Y rhain fydd y sylfaen er mwyn rhoi'r holl newidiadau hyn ar waith yn lleol.

Mae hyn i gyd yn hanfodol i gael siâp ar y GIG a'i gyrff partner dros y cyfnod nesaf o dair blynedd, 2008 i 2011, pryd y bydd ail gam 'Cynllun Oes' yn cael ei lansio ac ail gylch y strategaethau iechyd, gofal cymdeithasol a lles yn cael eu rhoi ar waith ym mhob ardal leol.

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gofal lliniarol sydd ar gael i gleifion sy'n marw ac sy'n dymuno gwneud hynny gartref? (WAQ48978)

**Brian Gibbons:** Un elfen bwysig o'r ddarpariaeth gofal lliniarol yw sicrhau bod barn a dewisiadau cleifion a'u gofalwyr yn cael eu cymryd i ystyriaeth, sy'n cynnwys anrhydeddu, cyn belled ag y mae hynny'n bosibl, ddymuniadau pobl o ran ble maent am farw. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydnabod y pwysigrwydd a roddir ar ofal i bobl ar ddiwedd eu hoes, yn cynnwys ble mae pobl am farw, ac mae ei pholisi ar ofal lliniarol i'w weld yn 'Cyfeiriad Strategol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Lliniarol yng Nghymru', sy'n ailadrodd yr union bwynt hwn. Cyhoeddwyd cylchlythyr iechyd i Gymru hefyd ym mis Mehefin 2006 gan Lywodraeth y Cynulliad yn cymeradwyo gofal diwedd oes a llwybr gofal Cymru gyfan ar gyfer diwrnodau olaf oes pobl.

**Peter Black:** Pa ragofalon a gymerir i warchod y cyhoedd rhag peryglon posibl i'w hiechyd yn sgil gwaredu celanedd adar hela yn ardal Beulah, Powys? (WAQ48983) ***Trosglwyddwyd i'w ateb yn Ysgrifenedig gan y Gweinidog Dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad***

**Carwyn Jones:** Nid ystyrir bod yr achos hwn o waredu celanedd adar hela ar ôl helfa yn creu risg i iechyd y cyhoedd nac iechyd anifeiliaid. Nid yw'r pydew dan sylw, a oedd ar dir preifat, yn cael ei ddefnyddio mwyach ac mae wedi cael ei orchuddio. Fodd bynnag, mae ymchwiliadau'n parhau i ganfod a yw'r arfer hwn yn groes i ofynion y rheoliad sgil-gynhyrchion anifeiliaid

**Janet Ryder:** A wnaiff y Gweinidog ddatgan faint o swyddi gwag i nyrsys oedd yn y GIG yng Nghymru ar 31ainRhagfyr 2006? (WAQ48988)

**Janet Ryder:** A wnaiff y Gweinidog ddatgan faint o swyddi gwag i feddygon teulu, meddygon Iau a meddygon ar raddfeydd staff oedd yn y GIG yng Nghymru ar 31ainRhagfyr 2006? (WAQ48989)

**Janet Ryder:** A wnaiff y Gweinidog ddatgan faint o swyddi gwag i bobl broffesiynol perthynol i iechyd, gwyddonwyr a thechnegwyr gofal iechyd oedd yn y GIG yng Nghymru ar 31ainRhagfyr 2006? (WAQ48990)

**Brian Gibbons:** Un ffynhonnell ddata am swyddi gwag i feddygon teulu yw'r arolwg o swyddi gwag i feddygon teulu. Mae hwn yn disodli arolwg recriwtio, cadw a swyddi gwag meddygon teulu Cymru a Lloegr. Holwyd practisiau am y nifer o swyddi gwag cyfwerth ag amser llawn ar 31 Mawrth 2006, yr oeddent wedi bod yn ymdrechu i'w llenwi am dri mis neu fwy. Yn arolwg 2006, samplwyd 2,000 o bractisiau yng Nghymru a Lloegr i gyd ac yr oedd y sampl a sicrhawyd yng Nghymru yn 23 y cant o bractisiau Cymru. Mae'r data'n dangos bod y gyfradd swyddi gwag dros dri mis i feddygon teulu o bob math yng Nghymru yn 1.8 y cant, ar 31 Mawrth 2006. Mae hyn yn cynrychioli'r swyddi gwag dros dri mis fel canran o'r swyddi gwag ynghyd â staff mewn swydd dros y tri mis.

Mae data am swyddi gwag mewn ymddiriedolaethau GIG yn cael ei gasglu bob chwe mis ar 31 Mawrth a 30 Medi. Mae'r data diweddaraf sydd ar gael yn cyfeirio at 31 Mawrth 2006 ac mae i'w weld ar wefan StatsCymru: http://www.statswales.wales.gov.uk/ReportFolders/ReportFolders.aspx

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddarparu gwybodaeth am ba gyfleusterau arbenigol sydd ar gael yng Nghymru i drin pobl sy'n dioddef o glefyd Tourette? (WAQ48993)

**Brian Gibbons:** Dylai pobl sy'n dioddef o glefyd Tourette gael cyrchu yn ddiymdroi at wasanaethau niwroleg, seiciatreg a gwasanaethau cymorth eraill a ddarperir gan staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol.

Yn dibynnu ar asesu lefel yr unigolyn o angen clinigol, byddai'n cael ei reoli un ai mewn gofal sylfaenol neu, pe bai hynny'n briodol, gan un ai wasanaethau niwroleg neu seiciatreg. Eto byddai gwasanaethau o'r fath yn ymateb i unrhyw unigolyn, yn dibynnu ar ei lefel o angen clinigol fel y'i haseswyd, fel sy'n digwydd gydag unrhyw gyflwr arall.

Mae cam gweithredu allweddol yn y fframwaith gwasanaeth cenedlaethol a'r cynllun gweithredu diwygiedig ar gyfer iechyd meddwl oedolion yn galw am i ystod o wasanaethau arbenigol, a fydd yn cynnwys niwroseiciatreg a seiciatreg gyswllt, fod ar gael ac o fewn cyrraedd ar draws Cymru. Mae pob BILl wedi cyflwyno cynlluniau gweithredu lleol i ddangos sut y maent yn bwriadu symud y fframwaith gwasanaeth cenedlaethol ymlaen a rhoi'r cynllun gweithredu ar waith. Maent yn cytuno ar y cynlluniau gweithredu hyn gyda swyddogion y Cynulliad yn awr, ac mae'r swyddogion hefyd yn gobeithio datblygu fframwaith rheoli perfformiad i sicrhau gweithredu effeithiol.

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad yn nodi costau teithio pobl sy'n gorfod teithio y tu allan i Gymru i gael triniaeth ar gyfer clefyd Tourette, a pha ddarpariaeth sydd ar gyfer ad-dalu costau o'r fath? (WAQ48994)

**Brian Gibbons:** Mae'r gwasanaethau cludo cleifion yn darparu cludiant sydd wedi'i gynllunio i ac o ysbytai i gleifion y bernir bod ganddynt angen meddygol am gludiant mewn ambiwlans. Fel arfer y meddyg teulu neu'r ymgynghorydd dan sylw sy'n gwneud y penderfyniad cyntaf pa un a oes gan y claf angen meddygol am gludiant mewn ambiwlans ai peidio.

Gydag apwyntiadau dilynol, mater i'r ysbyty derbyn yw trefnu a thalu costau cludiant claf. Bydd yn asesu a yw'r claf yn bodloni'r meini prawf am gludiant ambiwlans neu a oes opsiwn mwy priodol ar gael.

Caiff cylchlythyr iechyd i Gymru ei gyflwyno i'r GIG yn fuan yn ei hysbysu am brotocol i Gymru gyfan ar benderfynu pa un a oes gan glaf angen meddygol am gludiant rhad ac am ddim, lle nad yw'n achos brys.

Hefyd, mae'r cynllun costau teithio i ysbytai yn bodoli ac fe'i sefydlwyd i ddarparu cymorth ariannol i'r cleifion hynny nad oes ganddynt angen meddygol am gludiant mewn ambiwlans ond na allant dalu'r gost o deithio i'r ysbyty. Manylir ar y rheolau sy'n nodi hawl i help gyda chostau iechyd yn y ddogfen HC11W—'Help with health costs', sydd i'w gweld ar www.wales.gov.uk/healthforms.

**Helen Mary Jones:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion nifer yr ymosodiadau ar staff ambiwlans ar gyfer pob blwyddyn er 1999? (WAQ49052)

**Brian Gibbons:** Dim ond am flynyddoedd 2004-05 a 2005-06 y mae'r wybodaeth hon wedi cael ei chasglu'n ganolog. Mae Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru wedi adrodd 179 a 285 o ddigwyddiadau o drais corfforol a geiriol yn erbyn ei staff yn y blynyddoedd hyn.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

**William Graham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y ddarpariaeth tai cymdeithasol yn Nwyrain De Cymru? (WAQ48891)

**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio (Edwina Hart):** Er 1999, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi darparu mymryn dros £120 miliwn mewn grantiau tai cymdeithasol i gymdeithasau tai sy'n gweithio gydag awdurdodau lleol yn ne-ddwyrain Cymru i helpu i ddarparu tai cymdeithasol newydd.

**Laura Anne Jones:** Pa sylwadau y mae'r Gweinidog wedi'u cyflwyno ynghylch lleoli troseddwyr rhyw yng ngharchar agored Prescoed yn Sir Fynwy? (WAQ48892)

**Edwina Hart:** Yr wyf wedi ysgrifennu at Weinidogion y Swyddfa Gartref droeon yn mynegi fy mhryder am leoli troseddwyr rhyw yng ngharchar agored Prescoed. Yr wyf hefyd wedi ceisio sicrwydd bod pob cam posibl yn cael ei gymryd i atal troseddwyr rhyw rhag dianc o'r carchar agored.

**Val Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i fynd i'r afael â goryfed yn wirion? (WAQ48910)

**Edwina Hart:** Yr oedd y pedwerydd adroddiad blynyddol am gamddefnyddio cyffuriau, a ddarperais i'r Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio ar 21 Medi, yn cynnwys diweddariad am y cynnydd o ran mynd i'r afael â chamddefnyddio cyffuriau, yn cynnwys alcohol. Mae i'w weld ar y fewnrwyd.

**Rosemary Butler:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y cynnydd a wneir gan undebau credyd yng Nghymru? (OAQ48937)

**Edwina Hart:** Mae undebau credyd yn anhepgor wrth ymladd allgáu ariannol. Er bod y cynnydd yn amrywio ar draws Cymru, yr ydym yn benderfynol o barhau i gryfhau'r mudiad fel bod pob undeb yr un mor hyfyw ac anhepgor i'w gymuned. Maent yn cynnig dewis amgenach dichonadwy i'r diwydiant basgedi bwyd, benthycwyr carreg y drws a benthycwyr arian didrwydded.

**Karen Sinclair:** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynllun effeithlonrwydd ynni cartref? (WAQ48940)

**Edwina Hart:** Bydd y cynllun wedi helpu dros 70,000 o aelwydydd erbyn diwedd 2006-07. Mae £5 miliwn ychwanegol ar gael eleni a'r flwyddyn nesaf i gynorthwyo aelwydydd sydd a phensiynwyr arnynt, gan ddod â'r gyllideb lawn i £19.6 miliwn yn y naill flwyddyn a'r llall. Mae adroddiad blynyddol diweddaraf y cynllun wedi cael ei gyhoeddi'n ddiweddar ac mae i'w weld ar:
http://www.eagagroup.com/downloads/pdf/energy_efficiency_report1.pdf

**Eleanor Burnham:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion y pecyn cyllido a gynhwyswyd yn y gyllideb ar gyfer radio cymunedol ynghyd ag esboniad o sut y gweinyddir yr arian hwn, gan gynnwys pa gymorth a gynigir i helpu'r rheiny sy'n gwneud cais am yr arian? (WAQ48977)

**Edwina Hart:** Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi clustnodi £100,000 o gyllid refeniw y flwyddyn dros y pum mlynedd nesaf i gefnogi radio cymunedol yng Nghymru. Mae fy swyddogion yn gweithio gyda'r Swyddfa Gyfathrebu, sy'n gyfrifol am ddarlledu yng Nghymru, a byddant yn gwneud argymhellion imi unwaith y bydd y trafodaethau hyn wedi cael eu cwblhau.

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog esbonio’r ffaith fod etholwyr a oedd yn cael eu cynghori yng nghanolfan cyngor am ynni Abertawe wedi cael gwybod mai dim ond ar gynhyrchion anghynaliadwy megis ‘gwlân synthetig’ insiwleiddio to y gellir defnyddio grantiau cymhorthdal insiwleiddio tai, ac, os yw'r cyngor hwn yn gywir, pam na ellir defnyddio talebau grant ar gyfer dewisiadau cynaliadwy megis gwlân a chywarch? (WAQ48995)

**Edwina Hart:** Er y gallaf gadarnhau bod y grantiau insiwleiddio tai yn cynnig dewisiadau ar wahân i wlân synthetig, ar sail y wybodaeth yr ydych wedi ei darparu ni allaf ddweud a oedd y cyngor a roddwyd gan ganolfan cyngor am ynni Abertawe yn gywir gan y byddai hyn yn dibynnu ar gyd-destun y cwestiwn a ofynnwyd. Dylwn ychwanegu bod rhaglenni grant, yn hytrach na thalebau, yn cynnig rhai cynhyrchion cynaliadwy amgen megis insiwleiddiad llofft Warmcell.

**Mark Isherwood:** Pa ystadegau blynyddol sydd ar gael i ddangos naill ai’r cynnydd neu’r gostyngiad mewn camddefnyddio sylweddau yng Nghymru? (WAQ48999)

**Edwina Hart:** Dylech gyfeirio at adran 2, paragraffau 2.1 i 2.3 a 2.11 o’m pedwerydd adroddiad cynnydd blynyddol i’r Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio ar 21 Medi 2006.

**Mark Isherwood:** Faint o arian sydd wedi bod ar gael i wasanaethau ‘Llinell Gymorth’ er mwyn cynorthwyo gyda chamddefnyddio sylweddau yng Nghymru? (WAQ49000)

**Edwina Hart:** Cafodd £60,000 o gyllid o raglen ymyrryd y Swyddfa Gartref ym maes cyffuriau ei darparu i sefydlu llinell gymorth cyffuriau ac alcohol Cymru gyfan ar 1 Medi 2006.

**Mark Isherwood:** Faint o arian a ddyrennir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, i bob awdurdod unedol, i frwydro yn erbyn camddefnyddio sylweddau, gan roi'r manylion ar wahân ar gyfer alcohol a hefyd ar gyfer cyffuriau yng Nghymru, yn ystod y cyfnod 2006-07? (WAQ49001)

**Edwina Hart:** Mater i’r partneriaethau diogelwch cymunedol benderfynu arno yn lleol yw’r dyraniad cyllid rhwng gwasanaethau cyffuriau ac alcohol. Darperais ddadansoddiad manwl o sut yr oedd pob partneriaeth wedi dyrannu ei chyllid yn 2006-07 i’r Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio ar 23 Tachwedd 2006.

**Mark Isherwood:** Faint o sefydliadau sy’n gweithio yng Nghymru i frwydro yn erbyn camddefnyddio sylweddau yng Nghymru a sut mae’r rhain wedi’u gwasgaru’n ddaearyddol? (WAQ49003)

**Edwina Hart:** Mae’r sefydliadau hynny sy’n cael eu comisiynu gan y partneriaethau diogelwch cymunedol i ddarparu gwasanaethau wedi cael eu rhestru fesul ardal awdurdod lleol yn adroddiad blynyddol cyntaf cronfa ddata Cymru am gamddefnyddio sylweddau. Cafodd yr adroddiad hwn ei gynnwys yn fy adroddiad cynnydd i’r Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio ar 21 Medi 2006.

**Mark Isherwood:** Faint o arian sydd ar gael gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gefnogi gwasanaethau ailsefydlu ym maes cyffuriau ac alcohol yng Nghymru ar gyfer sefydliadau megis CAIS yn y Gogledd, Cyswllt Ceredigion a Chyngor Camddefnyddio Alcohol a Chyffuriau Gwent? (WAQ49004)

**Edwina Hart:** Bydd y swm o £13.4 miliwn ar gael ar gyfer 2007-08, sy’n cynrychioli cynnydd o 32 y cant o’i gymharu â’r gronfa weithredu ar gamddefnyddio sylweddau ar gyfer 2006-07.

**William Graham :** Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi eu cynnal gyda'r Swyddfa Gartref ynghylch cyllido gwasanaeth yr heddlu yng Nghymru? (WAQ49043) ***Trosglwyddwyd i'w ateb yn ysgrifenedig gan y Gweinidog Cyllid.***

**Y Gweinidog Cyllid (Sue Essex):** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn cysylltiad rheolaidd â'r Swyddfa Gartref ar lefel Gweinidogion a lefel swyddogion ynglŷn â materion yn ymwneud â chyllido'r awdurdodau heddlu.

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion y cyllid a neilltuwyd ar gyfer Cefnogi Pobl ar gyfer y flwyddyn gyfredol a'r flwyddyn ariannol nesaf? (WAQ49048)

**Edwina Hart:** Gallaf gadarnhau bod y cyllid Cefnogi Pobl canlynol ar gyfer 2006-07 wedi cael ei ddyrannu i bob awdurdod lleol:

| **Awdurdod Lleol** | **Grant Cefnogi Pobl 2006-07** | **Grant Cefnogi Pobl 2006-07** |
|---|---:|---:|
| Ynys Môn | £2,200,813.56 | £936,397.03 |
| Blaenau Gwent | £771,995.81 | £1,120,663.03 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | £3,277,228.33 | £2,212,446.02 |
| Caerffili | £4,033,955.20 | £1,807,922.26 |
| Caerdydd | £5,325,848.83 | £14,461,355.37 |
| Sir Gaerfyrddin | £2,947,549.29 | £3,536,016.58 |
| Ceredigion | £1,009,661.78 | £2,448,910.40 |
| Conwy | £6,175,158.30 | £1,662,263.42 |
| Sir Ddinbych | £3,672,452.14 | £2,946,123.05 |
| Sir y Fflint | £5,333,230.87 | £1,691,044.80 |
| Gwynedd | £3,533,972.52 | £2,610,835.66 |
| Merthyr Tudful | £772,657.01 | £539,126.58 |
| Sir Fynwy | £642,815.23 | £1,279,468.37 |
| Castell-nedd Port Talbot | £1,832,038.00 | £2,081,314.06 |
| Casnewydd | £3,024,562.57 | £3,107,805.74 |
| Sir Benfro | £1,360,564.51 | £556,039.36 |
| Powys | £4,356,918.34 | £1,791,926.17 |
| Rhondda Cynon Taf | £4,985,645.27 | £3,499,659.90 |
| Abertawe | £8,974,413.44 | £4,267,331.30 |
| Tor-faen | £1,238,974.10 | £1,862,868.27 |
| Bro Morgannwg | £1,482,295.95 | £1,743,684.81 |
| Wrecsam | £3,727,243.60 | £2,329,701.43 |
| **CYFANSWM** | **£70,679,994.66** | **£58,492,903.61** |

Nid oes penderfyniad wedi cael ei wneud eto am y lefel o gyllid fydd yn cael ei dyrannu i awdurdodau unigol am 2007-08.

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am unrhyw sylwadau y mae wedi'u derbyn ynghylch cost effeithlonrwydd buddsoddi mewn Cefnogi Pobl? (WAQ49049)

**Edwina Hart:** Yng ngwanwyn 2006 comisiynais Matrix Consultancy and Research i wneud astudiaeth o gost a budd Cefnogi Pobl yng Nghymru. Gwnaeth yr adroddiad terfynol gyfraniad defnyddiol tuag at adolygiad gwariant 2006 Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Daeth Matrix i'r casgliad fod budd net rhaglen Cefnogi Pobl oddeutu £73 miliwn. Mae'r ffigur hwn yn seiliedig ar wariant o £107 miliwn o gyllideb lawn Cefnogi Pobl o £128 miliwn. Yr oedd arbedion sylweddol ym meysydd y grwpiau cleientiaid isod:

- menywod yn ceisio lloches rhag trais yn y cartref;
- pobl ddigartref neu bobl a allai gael eu hunain yn ddigartref;
- pobl hŷn.

Yr oedd y rhain yn arbedion i feysydd gwasanaeth fel y GIG, y gyfundrefn cyfiawnder troseddol a'r gwasanaethau cymdeithasol. Dylid nodi nad yw'r model hwn ond yn edrych ar yr effeithiau sy'n cael eu costio i'r trysorlys cyhoeddus ac nad yw'n ystyried manteision fel ansawdd bywyd ac annibyniaeth yr unigolyn. Dylid nodi hefyd mai cyfeirio at un flwyddyn yn unig y mae'r arbedion posibl sydd wedi cael eu modelu ac y gall gwasanaethau Cefnogi Pobl, i rai defnyddwyr gwasanaethau, gael effaith sy'n para oes.

Mae Cymorth Cymru, y corff sy'n cynrychioli darparwyr cymorth yn ymwneud â thai yng Nghymru, hefyd wedi comisiynu ymchwil i effaith tai â chymorth. Mae ei adroddiad 'Bringing it Home' yn rhoi cipolwg 'ansoddol' ar y cyfraniad y mae tai â chymorth yn ei gynnig i amryw o bobl sy'n agored i niwed ar draws Cymru. Daw ei ddogfen i'r casgliad bod gan wasanaethau sy'n cael eu cyllido drwy'r rhaglen Cefnogi Pobl gyfraniad mawr i'w wneud yn trawsnewid gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn dilyn adolygiad Beecham.

**William Graham:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu sut y bydd y canllawiau diwygiedig ar y cyfreithiau trwyddedu newydd yn cael eu rhoi ar waith yng Nghymru i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol? (WAQ49054)

**Edwina Hart:** Nid yw'r cyfrifoldeb polisi am gyfraith drwyddedu a chanllawiau cysylltiol wedi cael ei ddatganoli i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r adran sy'n arwain, yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, wrthi'n ymgynghori ynghylch y canllawiau diwygiedig i awdurdodau trwyddedu ar hyn o bryd. Daw'r ymgynghoriad i ben ar 11 Ebrill, ac mae'r manylion i'w gweld ar wefan yr adran ar http://www.culture.gov.uk/

**Owen John Thomas:** Pa gamau y mae'r Llywodraeth yn eu cymryd i helpu pobl sy'n prynu cartref am y tro cyntaf? (WAQ49055)

**Edwina Hart:** Y dull pennaf o helpu pobl sy'n prynu cartref am y tro cyntaf yng Nghymru yw drwy'r cynllun cymorth prynu, sy'n darparu benthyciad ecwiti di-log. Yr ydym hefyd wedi galluogi cymdeithasau tai i gynnig benthyciadau cymorth prynu i denantiaid newydd a thenantiaid presennol i'w galluogi i ddod yn berchen ar dŷ.

Y llynedd, cyhoeddasom becyn cynhwysfawr o fesurau polisi a chanllawiau gyda'r nod o gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy, yn cynnwys ein pecyn cymorth tai fforddiadwy, a diwygiadau i'r polisi cynllunio. Dylai'r rhain helpu i gynyddu'r cyfleoedd sydd ar gael i brynwyr tro cyntaf o fewn a thu allan i'r rhaglen grantiau tai cymdeithasol.

**Owen John Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynlluniau adfywio yng nghymuned Butetown? (WAQ49056)

**Edwina Hart:** Er 1999, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi darparu £13.18 miliwn mewn grantiau tai cymdeithasol i gymdeithasau tai i'w helpu i ddarparu tai cymdeithasol ychwanegol yn Butetown. Yn ddiweddar mae hyn wedi cynnwys cyfraniadau grant tai cymdeithasol tuag at gynlluniau Cymdeithas Tai Cymuned Caerdydd i ddarparu 174 o fflatiau ar rent a pherchentyaeth cost isel fel rhan o'r gwaith o ailddatblygu'r ardal.

Hyd yma, mae £4,042,117 o arian Cymunedau yn Gyntaf wedi cael ei ddyfarnu i'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yng Nghaerdydd, ac mae £348,439 o'r arian hwnnw wedi cael ei ddyfarnu i ardal Cymunedau yn Gyntaf Butetown. Mae'r rhaglen cyfleusterau a gweithgareddau cymunedol wedi dyfarnu £334,726 er mis Mai 2003 i ddau brosiect yn ardal Butetown, yn cynnwys £259,726 i Weithdy Menywod Caerdydd i hyfforddi menywod sy'n dychwelyd i addysg, hyfforddiant a'r gweithle, a £75,000 i ProMo Cymru i helpu i ddenu pobl ifanc i gymryd rhan mewn entrepreneuriaeth gymdeithasol a diwylliannol.

**Peter Black:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am effeithiolrwydd cronfa Llywodraeth Cynulliad Cymru i frwydro yn erbyn troseddau? (WAQ49057)

**Edwina Hart:** Mae cronfa Llywodraeth Cynulliad Cymru i frwydro yn erbyn troseddau yn golygu bod modd gweithredu mewn ffordd gydgysylltiedig ynghylch troseddu, ymddygiad gwrthgymdeithasol a chamddefnyddio sylweddau. Yn ystod y cyfnod rhwng mis Ebrill 2002 a mis Mawrth 2006, mae'r lefel o droseddau a gofnodwyd yng Nghymru wedi gostwng 15 y cant.

**Eleanor Burnham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei chynlluniau i hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol yn y Gogledd? (WAQ49058)

**Edwina Hart:** Mae fy adroddiad am gyfiawnder cymdeithasol 2006 yn manylu ar y nifer sylweddol o bolisïau a rhaglenni sydd wedi cael eu sefydlu ar draws Llywodraeth y Cynulliad gyda'r nod o hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol ar draws Cymru.

**Eleanor Burnham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gau swyddfeydd post mewn cymunedau gwledig? (WAQ49059)

**Edwina Hart:** Fe'ch cyfeiriaf at y datganiad ysgrifenedig a ryddheais ar 15 Rhagfyr 2006.

**Carl Sargeant:** Sut y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn helpu unigolion ar incwm isel i fynd i'r afael â phroblem dyled bersonol? (WAQ49060)

**Edwina Hart:** Mae mynd i'r afael â dyled bersonol yn un o'r materion o bwys a amlygwyd yn yr adolygiad o orddyled. Yr ydym yn gweithredu'r 10 argymhelliad, yn cynnwys gwaith ar lythrennedd ariannol mewn ysgolion, darparu cyngor ynglŷn â dyled, codi ymwybyddiaeth o fenthyciadau arian anghyfreithlon, a chefnogi'r mudiad undebau credyd.

**Carl Sargeant:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu prif lwyddiannau Llywodraeth Cynulliad Cymru ym maes cyfiawnder cymdeithasol ac adfywio yn Alun a Glannau Dyfrdwy? (WAQ49061)

**Edwina Hart:** Er 1999, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi dyrannu £20.1 miliwn i gymdeithasau tai sy'n gweithredu yn sir y Fflint i'w helpu i ddarparu tai fforddiadwy yn yr ardal. Mae'r cynllun effeithlonrwydd ynni cartref wedi gallu cynorthwyo dros 1,400 o aelwydydd yn Alun a Glannau Dyfrdwy, gan ddarparu dros 3,000 o fesurau effeithlonrwydd ynni am gost o £1.4 miliwn, ac mae £637,391 wedi cael ei ddyrannu hefyd i gynorthwyo ystâd Shotton Uchaf o dan y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf.

Mae'r rhaglen cyfleusterau a gweithgareddau cymunedol wedi rhwymo £530,592 i bum prosiect yn Alun a Glannau Dyfrdwy, yn cynnwys £100,000 i ailwampio Neuadd Bentref Mancot a Moor a £33,000 tuag at ailwampio Canolfan Gymuned Rock Salt, Caergwrle. O dan y cynllun, mae £384,855 wedi cael ei ddyrannu hefyd i Gyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint i gynlluniau ar hyd a lled yr ardal.

Mae Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Sir y Fflint hefyd wedi elwa o gyllid, fel £408,531 yn 2006-07 i fynd i'r afael â phroblemau camddefnyddio sylweddau, a olygai bod 90 o leoedd triniaeth ychwanegol ar gael yn sir y Fflint. Yn ogystal, mae £27,419 y flwyddyn wedi cael ei ddarparu i gyllido cyd-drefnydd trais yn y cartref o 2006-09, a £610,356 o'r Gronfa Cymunedau Diogelach i atal a gostwng y lefel droseddu ymysg pobl ifanc yn ardal sir y Fflint.

**John Griffiths:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynnydd o ran mynd i'r afael â chamddefnyddio alcohol yng Nghymru? (WAQ49062)

**Edwina Hart:** Fe'ch cyfeiriaf at yr adroddiad cynnydd a ddarperais i'r Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio ar 21 Medi.

**John Griffiths:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am fynd i'r afael â thlodi tanwydd yng Nghymru? (WAQ49063)

**Edwina Hart:** Mae'r 'Ymrwymiad Tlodi Tanwydd i Gymru' yn cydnabod pwysigrwydd partneriaethau yn y sectorau cyhoeddus a phreifat, a'r rôl a chwaraeir gan yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac eraill yn ein helpu i leihau tlodi tanwydd. Ein prif gyfrwng i fynd i'r afael â thlodi tanwydd yw'r cynllun effeithlonrwydd ynni cartref. Yr ydym yn rhagweld y bydd wedi cynorthwyo dros 70,000 o aelwydydd bregus erbyn diwedd 2006-07. Mae £5 miliwn ychwanegol wedi cael ei ddarparu ar gyfer y cynllun yn 2006-07 a 2007-08 i helpu aelwydydd sy'n cynnwys pensiynwyr.

**Laura Anne Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y materion sy'n ymwneud â thlodi sy'n effeithio ar Gymru ar hyn o bryd? (WAQ49064)

**Edwina Hart:** Mae'r ganran o bobl yng Nghymru sy'n byw mewn tlodi wedi gostwng o 25 y cant adeg datganoli i 21 y cant yn y cyfnod diweddaraf. Dros yr un cyfnod mae'r ganran o blant sy'n byw mewn tlodi yng Nghymru wedi gostwng o 35 y cant i 28 y cant.

**Laura Anne Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am unrhyw drafodaethau diweddar y mae wedi'u cael gyda Gweinidog carchardai'r DU ynghylch carchar agored Prescoed yn sir Fynwy? (WAQ49065)

**Edwina Hart:** Fe'ch cyfeiriaf at fy adroddiad i'r Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio ar 18 Ionawr.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn y mae'n ei wneud i hybu adfywio ym Mhowys? (WAQ49066)

**Edwina Hart:** Yr wyf wedi cymeradwyo cyfanswm o £1,597,669 o gyllid i'r tair partneriaeth Cymunedau yn Gyntaf ym Mhowys i alluogi'r cymunedau lleol i arwain y gwaith o yrru'r adfywio yn eu hardaloedd yn ei flaen.

Mae'r rhaglen cyfleusterau a gweithgareddau cymunedol hefyd yn annog adfywio mewn cymunedau. Yr wyf wedi cymeradwyo £1,353,333 tuag at gost 28 o brosiectau gan fudiadau cymunedol a gwirfoddol ym

Mhowys. Mae hyn yn cynnwys £121,040 tuag at gost y cynllun cynhwysiant cymdeithasol—cyrraedd anghenion cyflogaeth drwy weithdy coed—sy'n annog pobl ifanc sydd wedi cael eu hallgáu'n gymdeithasol i ddod i mewn i'r gweithle drwy weithio gyda choed.

Dan y gronfa adfywio ffisegol, sy'n cael ei thargedu at awdurdodau cynllunio yng Nghymru, yr wyf wedi cymeradwyo cyllid o £1,661,000 ym Mhowys. Ymysg y prosiectau sydd wedi cael cymorth mae £1,301,000 i gynllun treftadaeth adeiledig Powys, sy'n ceisio gwella'r amgylchedd adeiledig a, thrwy hynny, ysgogi buddsoddi ac annog twristiaeth.

Mae gwirfoddoli yn elfen hanfodol mewn adfywio cymunedau ac yr wyf wedi cymeradwyo cyllid craidd o £198,000 i Gymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys i ddarparu cefnogaeth i wirfoddolwyr.

**Glyn Davies:** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i fynd i'r afael â phrinder tai fforddiadwy yng Nghymru? (WAQ49090)

**Edwina Hart:** Yr ydym wedi cynyddu'r gyllideb i'r rhaglen grantiau tai cymdeithasol yn gynyddol dros y cyfnod 2005-06 i 2007-08 ac wedi cyflwyno pecyn o fesurau polisi a chanllawiau gyda'r nod o gynyddu'r cyflenwad. Mae'r rhain yn cynnwys nodiadau cyngor technegol 1 a 2, canllaw asesu i'r farchnad dai leol, a'r pecyn cymorth tai fforddiadwy. Yr ydym hefyd wedi gwneud gorchmynion yn cyfyngu ar yr hawl i gaffael ac ailwerthu tai a werthwyd dan y cynllun hawl i brynu yng nghefn gwlad Cymru.

**Glyn Davies:** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r tanfuddsoddi tymor hir mewn tai cymdeithasol yng Nghymru? (WAQ49091)

**Edwina Hart:** Mae angen symiau enfawr o arian i fynd i'r afael â'r gwaith atgyweirio a'r gwelliannau i'n tai cyngor sydd wedi ôl-gronni. Cyhoeddwyd safon ansawdd tai Cymru yn 2002 fel y safon ofynnol o ran cyflwr ffisegol ac amgylcheddol tai cymdeithasol presennol. Rhaid i bob landlord cymdeithasol gyflwyno cynlluniau busnes i Lywodraeth Cynulliad Cymru sy'n dangos y byddant yn cyrraedd y safon erbyn 2012 ac yn parhau i'w chynnal yn ystod y cyfnod cynllunio 30 mlynedd. Mater i'r awdurdodau lleol yw penderfynu sut y maent yn bwriadu cyrraedd safon ansawdd tai Cymru.